

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 49/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Cymru'n Cyd- dynnu: Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru

Gwerthusiad o Cymru'n Cyd-dynnu: Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru

**David Robinson, Kesia Reeve, Deborah Platts-Fowler
Steve Green, Aimee Walshaw, Elaine Batty a Nadia
Bashir gyda Sioned Pearce a Will Eadson**

**Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
Ranbarthol Prifysgol Sheffield Hallam**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydyw o reidrwydd
yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Robert Willis

Gwasanaethau Dadansoddol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tydfil

Merthyr Tydfil

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8138

E-bost: Robert.willis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 2013

ISBN: 978-0-7504-8607-1

© Hawlfraint y Goron 2013

Tabl o'r Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
1 Cyflwyniad.....	6
2 Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru.....	10
3 Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru.....	22
4 Rôl Llywodraeth Cymru o ran Hybu Cydlyniant.....	30
5 Cyflwyno <i>Cymru'n Cyd-dynnu ar lefel Leol</i>.....	41
6 Ymyriadau Lleol ac Effeithiau.....	60
7 Casgliadau	79

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau sy'n deillio o werthusiad dwy flynedd o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, a'i heffaith. Comisiynwyd gwerthusiad o *Cymru'n Cyd-dynnu* gan Lywodraeth Cymru yn haf 2010, gyda'r nod o gyflawni'r canlynol:

- hysbysu dealltwriaeth o faterion cydlyniant cymunedol mewn gwahanol rannau o Gymru, oddi mewn i wahanol gymunedau a rhyngddynt, a'r ffactorau sy'n cryfhau ac yn gwanhau cydlyniant
- cynnal gwerthusiad proses o weithredu'r strategaeth
- cynnal gwerthusiad canlyniadau o effaith y strategaeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf
- rhoi cyngor ar ffyrdd mwy effeithiol o weithredu'r strategaeth, ei monitro a'i gwerthuso.

Roedd tri phrif llyn i'r dull o werthuso, gyda phob un yn canolbwyntio ar gydran allweddol o'r fframwaith a ddatblygwyd i gynnal y gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Roedd llynyn gwaith *Llywodraeth Cymru* yn canolbwyntio ar weithgareddau'r Uned Cydlyniant Cymunedol a'i llwyddiant o ran cyflawni amcanion craidd prif-ffrydio cydlyniant cymunedol oddi mewn i Lywodraeth Cymru a darparu fframwaith i gynnal y broses o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel leol. Roedd y llynyn gwaith awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar ymgysylltu lleol gyda *Cymru'n Cyd-dynnu* a dulliau o hybu cydlyniant cymunedol. Cynhaliwyd tri chylch o gyfweiliadau gyda'r arweinyddion cydlyniant cymunedol ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Bu llynyn *astudiaethau achos* yn gwerthuso'r broses o gyflwyno sampl o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a'r canlyniadau cysylltiedig. Roedd pedwerydd llynyn gwaith yn canolbwyntio ar fonitro tueddiadau o ran cydlyniant trwy ddadansoddi data gweinyddol ac arolygon.

Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru

Datgelodd gwaith dadansoddol fod lefel cydlyniant yng Nghymru wedi amrywio dros amser, gan ostwng yn 2005, a gostwng eto yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ni chafwyd bod dull amlwg o fesur cydlyniant cymunedol ar lefel leol ar gael yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir cynhyrchu dulliau procsi o fesur cydlyniant ar lefel leol drwy ddefnyddio data gweinyddol. Ar sail y data hwn, mae modd nodi pedwar math o awdurdod lleol yng Nghymru, ar sail ffactorau cydlyniant: Cymru Wledig, Cyrion Pendrefol; Trefi Mawr a Dinasoedd a'r Cymoedd.

Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru

Lansiwyd *Cymru'n Cyd-dynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, ym mis Rhagfyr 2009. Mae'n darparu dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol sydd ar wahân i'r agenda yn Lloegr, ac yn wahanol iddi, yn yr ystyr y cydnabyddir ei bod yn bosibl i amddifadedd ac eithrio cymdeithasol danseilio cydlyniant cymunedol.

Sefydlwyd Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, a rhoi iddi'r dasg o oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth. Llywiwyd gwaith yr Uned Cydlyniant Cymunedol gan gynllun gweithredu cysylltiedig â *Cymru'n Cyd-dynnu*, ac a oedd yn blaenoriaethu ymdrechion i ddarparu fframwaith a fyddai'n cynnal y dull lleol strategol o hybu cydlyniant cymunedol; prif-ffrydio cydlyniant ar draws Llywodraeth Cymru; a darparu canllawiau ar gydlyniant cymunedol. Cydnabuwyd mai awdurodau lleol oedd yr asiantaeth yn y sefyllfa orau i arwain y broses o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel leol, a buont yn derbyn dyraniad blynyddol o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi ymdrechion lleol i hybu cydlyniant.

Rôl Llywodraeth Cymru yn Hybu Cydlyniant Cymunedol

Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau amrywiol wrth gyflawni'r amcanion allweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol. Mae cyfyngiadau'r data sydd ar gael wedi tansellio ymdrechion i hybu mapio a monitro cydlyniant cymunedol, mae rhai meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn anfodlon ymgysylltu â'r agenda, ac ni fu bob amser yn bosibl seilio canllawiau ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag arfer gorau. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn mwyafrif amcanion y cynllun gweithredu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

Llwyddodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer cefnogi'r broses o gyflwyno cydlyniant cymunedol ar lefel leol. Bu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Daliodd sylw pob un o'r 22 awdurdod lleol a'u hannog i ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol. Mae cyngor ac arweiniad ynghylch mapio a monitro cydlyniant wedi cael ei rannu gydag awdurdodau lleol trwy safle cydlyniant cymunedol ar y rhyngwrwyd, a thrwy ganllawiau a gomisiynwyd yn arbennig. Mae rhwydweithiau ymarferwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol wedi rhoi cyfle i awdurdodau lleol rannu mewnwelediad a gwybodaeth. Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi hysbysu, tywys, darbwyllo a herio cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol, er bod rhai wedi parhau yn amheus ynghylch perthnasedd yr agenda i'w gwaith. Rhannwyd arfer gorau trwy'r rhwydweithiau ymarferwyr a phecyn offer o enghreifftiau ar wefan cydlyniant Llywodraeth Cymru, er nad yw'r prosiectau y manylir arnynt wedi cael eu gwerthuso, ac ni ellir o reidrwydd eu hystyried yn enghreifftiau o arfer da neu orau.

Cyflwyno Cymru'n Cyd-dynnu ar lefel Leol

Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd o ran hybu'r agenda cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol trwy ryw gyfuniad o ymyriadau wedi eu targedu, neilltuo staff penodedig, a gweithgareddau mapio a phrif-ffrydio. Y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a'r canllawiau cysylltiedig fu'r prif gatalydd ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae awdurdodau lleol wedi ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol a'i hybu'n weithredol i amrywiol raddau, ac roedd gwahaniaeth mawr yn y dulliau lleol o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Yn nodweddiadol, mae awdurdodau gwledig wedi ymgysylltu'n llai, o ran dadansoddi a deall materion cydlyniant, pennu blaenoriaethau a phrif-ffrydio'r agenda. Yn aml, mae awdurdodau gwledig wedi cael

trafferth i nodi blaenoriaethau cydlyniant. Trefi mawr a dinasoedd oedd yn tueddu i ymgysylltu fwyaf, gyda'r Cymoedd yn dilyn, ac wedyn y Cyrion Pendrefol.

Nodwyd cyfres o ffactorau a oedd yn hanfodol ar gyfer cyflwyno effeithiol ar lefel leol. Yn benodol, gwelwyd y cynnydd amlycaf mewn ardaloedd lle roedd swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, cynllun gweithredu neu strategaeth cydlyniant cymunedol, a lle gwnaed ymdrechion systematig i fapio anghenion lleol a nodi materion blaenoriaeth. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran prif-ffrydio cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, roedd staff mewn rhai meysydd polisi yn dal yn ansicr ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol i'w gwaith neu sut gallent gyfrannu at ymdrechion i hybu cydlyniant ar lefel leol.

Ymyriadau Lleol ac Effeithiau

Dyrannwyd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a chefnogwyd dros 600 o brosiectau lleol rhwng 2009/10 a 2011/12. Dewisodd awdurdodau lleol ddefnyddio'r Gronfa mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai yn cefnogi nifer fawr o brosiectau bach, ac eraill yn dyrannu'r rhan fwyaf o'r Gronfa i un neu ddau brosiect.

Yn nodweddiadol, roedd y prosiectau'n cyfateb i flaenoriaethau cydlyniant cymunedol lleol, ond nid oedd hynny'n wir bob tro. Methodd prosiectau a ddatblygwyd mewn ardaloedd awdurdod lleol lle nad oedd strategaeth na chynllun gweithredu cydlyniant cymunedol, a lle nad oedd swyddog cydlyniant penodedig, ag ymateb i flaenoriaethau lleol a nodwyd yn glir, cafwyd trafferth i wneud cyfraniad strategol ehangach, ni ddarparwyd fawr ddim ychwanegolrwydd, a methwyd â chynnal ymdrechion i brif-ffrydio cydlyniant. Mewn rhai achosion, ymddangosai fod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn cael ei gweld fel ffynhonnell arall o incwm grant yn unig.

Roedd 10 prosiect yr astudiaethau achos yn darparu tystiolaeth o ychwanegolrwydd. Roedd yn annhebygol y byddai rhai o'r prosiectau wedi digwydd heb gefnogaeth y Gronfa. Roedd hefyd enghreifftiau o brosiectau a oedd eisoes ar waith lle gofynnwyd i'r Gronfa am gymorth i bontio bwch yn eu cyllid, ac a fu o ganlyniad yn canolbwyntio'n fwy penodol ar hybu cydlyniant. Gellir crynhoi cyflawniadau prosiectau'r astudiaethau achos o dan bedwar prif bennawd:

- *gwasanaethau lleol ymatebol* - hybu mwy o ddealltwriaeth ac ymatebolrwydd ymhlith darparwyr gwasanaethau lleol o ran blaenoriaethau'r agenda cydlyniant cymunedol
- *hybu dealltwriaeth* - cynyddu'r dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau, megis newydd-ddyfodiaid a phoblogaethau sefydledig, neu rhwng yr hen a'r ifanc
- *cymorth i integreiddio* - cyngor a chymorth i newydd-ddyfodiaid, yn cynnwys hyfforddiant iaith, mewn ymgais i'w helpu i ddeall eu tref newydd yn well a byw yno gan gyrchu gwasanaethau allweddol a cheisio gwaith
- *rheoli tensiynau* - cyfryngu rhwng gwahanol grwpiau a datrys gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg

Mewn rhai achosion ymddengys bod yr enillion a sicrhawyd gan brosiectau'r astudiaethau achos yn debygol o gael eu cynnal. Sicrhaodd nifer o'r prosiectau gyllid amgen, a pharhau wedi i gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ddod i ben. Roedd y Gronfa hefyd wedi darparu arian cychwynol ar gyfer prosiectau newydd, a fu'n fodd i estyn cwmpas y gwasanaeth yr oeddent yn ei ddarparu.

Casgliadau

Cymerwyd camau breision o ran hybu cydlyniant cymunedol a chyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ers ei lansio yn hwyr yn 2009. Mae elfennau allweddol dull Cymru o ymdrin â chydlyniant cymunedol wedi cael eu hamlinellu a'u lledaenu'n eang. Mae agwedd fwy gyfannol at gydlyniant cymunedol wedi cael ei meithrin ar draws ffiniau adrannol yn Llywodraeth Cymru. Darparwyd fframwaith i awdurdodau lleol a'u partneriaid er mwyn cefnogi datblygiad dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi ymgysylltu â'r agenda ac mae cannoedd o brosiectau lleol wedi cael eu cyflwyno mewn ymgais i gryfhau cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Datgelwyd bod y ffactorau llwyddiant allweddol sy'n cynnal ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol a hybu sylw i'r agenda ar lefel leol a chenedlaethol yn cynnwys y canlynol:

- ymrwymiad lefel uchel yn Llywodraeth Cymru
- llwyddiant *Cymru'n Cyd-dynnu* i ddarparu dealltwriaeth glir, penodol i Gymru, o gydlyniant cymunedol
- cynhyrchu cynllun gweithredu i gefnogi cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*
- creu uned benodedig yn Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb penodol am arwain y gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*
- y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, a fu'n hollbwysig o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r agenda gydlyniant
- gwaith swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol ar lefel leol, ac yn arbennig, y rôl bwysig a chwaraeir gan swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig

Wynebwyd heriau amrywiol yn ogystal ar hyd y daith, a bu cynnydd cymysg yn achos rhai blaenoriaethau. Bu'r llwyddiant i brif-ffrydio cydlyniant oddi mewn i Lywodraeth Cymru yn amrywiol. Bu ymrwymiad cyfyngedig i'r agenda ymhlith rhai awdurdodau lleol. Bu'r cynnydd o ran datblygu systemau ar gyfer monitro cydlyniant hefyd yn araf.

Argymhellion

Bydd cynnal yr enillion a sicrhawyd trwy gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* a goresgyn rhai o'r problemau mwyaf ystyfnig sydd wedi llesteirio cynnydd yn galw am y canlynol:

- ymrwymiad i'r agenda ar lefel uchel yn Llywodraeth Cymru
- tîm penodedig yn Llywodraeth Cymru i arwain ym maes cydlyniant cymunedol

- adnewyddu'r cynllun gweithredu cydlyniant cymunedol
- arweinydd cydlyniant cymunedol penodedig ym mhob awdurdod lleol
- casglu data canfyddiadau ynghylch cydlyniant cymunedol ar lefel leol a chenedlaethol
- mwyafu'r cysylltiadau rhwng amcanion cydlyniant a rhaglen Cymunedau'n Gyntaf
- cysylltu ymdrechion i hybu a phrif-ffrydio cydlyniant cymunedol ochr yn ochr â chyflawni Dyletswydd Cydraddoldebau

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau sy'n deillio o werthusiad dwy flynedd o gyflwyno Cymru'n Cyd-dynnu, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, a'i heffaith. Lansiwyd Cymru'n Cyd-dynnu ym mis Rhagfyr 2009 gyda'r nod o ddylanwadu ar ymdrechion lleol i wella cydlyniant cymunedol ledled Cymru a'u cefnogi. Sefydlwyd Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, a rhoi iddi'r dasg o oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth. Roedd hynny'n cynnwys cyflwyno fframwaith a fyddai'n cefnogi dull partneriaeth o ymdrin â chydlyniant cymunedol ar lefel leol, yn ogystal â hybu dull mwy cyfannol o ymdrin â chydlyniant ar draws ffiniau adrannol oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Nodwyd mai awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel leol.

Comisiynwyd gwerthusiad o Cymru'n Cyd-dynnu gan Lywodraeth Cymru yn haf 2010, gyda'r nod o gyflawni'r canlynol:

- hysbysu dealltwriaeth o faterion cydlyniant cymunedol mewn gwahanol rannau o Gymru, oddi mewn i wahanol gymunedau, a rhyngddynt, a'r ffactorau sy'n cryfhau ac yn gwanhau cydlyniant
- cynnal gwerthusiad proses o weithrediad y strategaeth
- cynnal gwerthusiad canlyniadau o effaith y strategaeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf
- rhoi cyngor ar ffyrdd mwy effeithiol o weithredu'r strategaeth, ei monitro a'i gwerthuso.

Cynhaliwyd y gwerthusiad gan dîm o'r Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol, Prifysgol Sheffield Hallam.


1.2 Hybu Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru: Trosolwg

Mae Ffigur 1.1 yn crynhoi'r fframwaith ar gyfer hybu cydlyniant cymunedol a ddatblygwyd ac a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru. Nodir pedair cydran allweddol:

- **Cymru'n Cyd-dynnu** a ddarparodd sbardun, rhesymeg a threfn ar gyfer y dull o weithredu, a thrwy y ffocws a'r cynnwys, llwyddwyd i rychwantu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr agenda.
- **Yr Uned Cydlyniant Cymunedol** yn Llywodraeth Cymru gafodd y gwaith o arwain y broses o gyflwyno'r strategaeth, ac roedd ei chyfrifoldebau yn cynnwys prif-ffrydio cydlyniant oddi mewn i Lywodraeth Cymru a chynhyrchu fframwaith a fyddai'n cynnal ymdrechion lleol i hybu cydlyniant cymunedol ledled Cymru.
- Nodwyd mai **awdurdodau lleol** oedd yr asiantaeth yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel leol, gyda chefnogaeth cyngor, canllawiau ac adnoddau a ddarperid gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol, a chan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill.

- Cydnabuwyd bod **prosiectau ac ymyriadau** yn angenrheidiol, yn ogystal â phrif-ffrydio gweithgareddau, er mwyn targedu problemau neu heriau penodol. Cefnogwyd cannoedd o brosiectau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, asiantaethau statudol eraill a chyrrff trydydd sector, ledled Cymru gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Ffigur 1.1: Cyflwyno Cydlyniant Cymunedol



1.3 Yr Agwedd at Werthuso

Roedd tri phrif llyn i'r dull o werthuso, gyda phob un yn canolbwyntio ar gydran allweddol o'r fframwaith a ddatblygwyd i gynnal y broses o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* (gweler Ffigur 1.1):

1. Roedd llynyn gwaith **Llywodraeth Cymru** yn canolbwyntio ar weithgareddau'r Uned Cydlyniant Cymunedol a'i llwyddiant o ran cyflawni amcanion craidd prif-ffrydio cydlyniant cymunedol oddi mewn i Lywodraeth Cymru a darparu fframwaith i gynnal y broses o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel leol. Yn ogystal â chyswllt rheolaidd a thrafodaethau gyda'r Uned Cydlyniant Cymunedol, cynhaliwyd tri chylch o gyfweiliadau (Hydref/Tachwedd 2010, Mai/Mehefin 2011 a Chwefror/Mawrth 2012) gyda phob aelod o staff yn yr Uned a chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Prevent, addysg, adfywio, cydraddoldebau, tai, iechyd ac ymchwil gymdeithasol. Ffocws y cylch cyntaf o gyfweiliadau oedd archwilio hanes y Strategaeth, egluro ei nodau a'i hamcanion a sicrhau trosolwg o'r broses weithredu. Roedd y cyfweiliadau dilynol yn adolygu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu a chyflawni amcanion cydlyniant cymunedol, gan geisio datgelu'r heriau a wynebwyd a'r problemau y llwyddwyd i'w goresgyn. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweiliadau wyneb yn wyneb, a'u recordio a'u trawsysgrifo i hwyluso eu dadansoddi. Bu'r tîm hefyd yn cynnal adolygiad o ddogfennau a strategaethau ymgynghori Llywodraeth Cymru at ddibenion archwilio llwyddiant i brif-ffrydio cydlyniant cymunedol. Yn olaf, buont hefyd yn dadansoddi'r hyn a gyflwynwyd i'r Uned Cydlyniant Cymunedol gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol.
2. **Awdurdodau lleol** - roedd y llynyn gwaith hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu lleol gyda *Cymru'n Cyd-dynnu* a dulliau o hybu cydlyniant cymunedol. Cynhaliwyd tri chylch o gyfweiliadau gyda'r arweinyddion cydlyniant cymunedol ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru (Hydref/Tachwedd 2010, Mai/Mehefin 2011 a Chwefror/Mawrth 2012). Yn y cylch cyntaf o gyfweiliadau bu aelod o'r tîm gwerthuso yn ymweld â phob awdurdod lleol ac yn cynnal cyfweiliad wyneb yn wyneb â'r arweinydd cydlyniant cymunedol. Yn y cylchoedd dilynol o gyfweiliadau, ymwelwyd â sampl o awdurdodau lleol ar draws Cymru, gan gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb â hwy, tra bod cyfweiliadau eraill yn cael eu cynnal dros y ffôn. Roedd yr ymweliadau yn gyfle i'r tîm gynnal trafodaethau manwl gydag arweinyddion cydlyniant cymunedol, a hefyd i gwrdd â phartneriaid oddi mewn i'r awdurdod lleol a'r tu allan iddo. Roedd y drafodaeth yn cwmpasu ystod o bynciau, yn cynnwys: dehongliadau a diffiniadau o gydlyniant cymunedol ac i ba raddau mae awdurdodau lleol yn 'cefnogi'r' agenda; meddyliau a sylwadau ar y strategaeth genedlaethol; yr agwedd leol at weithredu (yn cynnwys prif-ffrydio, gwaith partneriaeth, datblygu strategaeth); rolau gwahanol asiantaethau (adrannau awdurdod lleol, sector gwirfoddol, cymunedau lleol); ac ymdrechion i fapio heriau allweddol a nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Lle bynnag yr oedd modd, recordiwyd y cyfweiliadau a'u trawsysgrifo gan ddefnyddio'r union eiriau er mwyn eu dadansoddi.
3. **Astudiaethau Achos** - roedd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn ganolog i ddull Llywodraeth Cymru o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Dyrannodd y Gronfa ryw

£1.5 miliwn y flwyddyn ar draws 22 awdurdod lleol Cymru i gefnogi prosiectau lleol a luniwyd i hybu cydlyniant cymunedol. Mabwysiadwyd dull astudiaethau achos wrth werthuso'r broses o gyflwyno'r prosiectau hyn a'r canlyniadau cysylltiedig. Dewiswyd deg prosiect astudiaeth achos trwy gymhwyso ffrâm samplu a luniwyd i sicrhau detholiad o weithgareddau prif-ffrydio a mentrau wedi eu targedu a oedd: yn ymdrin â gwahanol flaenoriaethau a amlinellwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu* (er enghraifft: tai, Prevent, hyfforddiant iaith Saesneg, dysgu ac ysgolion); yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ledled Cymru; wedi eu lleoli mewn gwahanol gyd-destunau cydlyniant; ac wedi eu targedu at wahanol grwpiau poblogaeth.

Roedd pedwerydd llinyn gwaith yn canolbwyntio ar fonitro tueddiadau cydlyniant.

4. **Dadansoddi data gweinyddol ac arolygon** - roedd y llinyn hwn yn canolbwyntio ar archwilio ac olrhain hynt y posibiladau ar gyfer tracio tueddiadau ym maes cydlyniant cymunedol. Roedd hynny'n golygu archwilio a dadansoddi'r data sydd ar gael ar lefel leol a chenedlaethol. Yn sgîl y diffyg data canfyddiad ar gydlyniant cymunedol arweiniwyd y tîm i archwilio posibiladau defnyddio mesurau procsi i fonitro newidiadau ym maes cydlyniant. Roedd y llinyn gwaith hwn hefyd yn cynnwys datblygu teipoleg awdurdod lleol i hwyluso dealltwriaeth o ddata tueddiadau cymdeithasol yng nghyd-destun cydlyniant cymunedol, ac i fesur y canlyniadau dros amser. Rhoddwyd adborth ar ffurf canllawiau monitro cydlyniant i Lywodraeth Cymru yn ystod y gwerthusiad, gan gynnwys argymhellion ynghylch cwestiynau canfyddiad ar gydlyniant i'w cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru a mesurau procsi ar gyfer cydlyniant i hysbysu Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ar lefel leol.

1.4 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r drafodaeth yn cychwyn gydag adolygiad o gydlyniant cymunedol yng Nghymru. Mae'r pedair pennod ddilynol yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwerthusiad, gyda phob un yn canolbwyntio ar gydran allweddol o'r fframwaith cyflwyno ar gyfer *Cymru'n Cyd-dynnu* a amlinellwyd yn Ffigur 1.1:

- Mae **Pennod 3** yn disgrifio datblygiad *Cymru'n Cyd-dynnu* ac yn amlinellu'r fframwaith cyflwyno yn fanylach.
- Mae **Pennod 4** yn gwerthuso rôl a chyfraniad yr Uned Cydlyniant Cymunedol wrth gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*.
- Mae **Pennod 5** yn gwerthuso'r cyflwyno ar lefel leol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad awdurdodau lleol â'r agenda a'u hagweddau at hybu cydlyniant cymunedol.
- Mae **Pennod 6** yn cyflwyno canfyddiadau yn sgîl dadansoddi prosiectau lleol ac ymyriadau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, asiantaethau statudol eraill a chyrrff trydydd sector gyda chefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol.

Mae pennod olaf yn cloi'r gwaith trwy adolygu'r canfyddiadau trosfwaol ynghylch gweithredu a chanlyniadau cysylltiedig â'r ddwy flynedd gyntaf o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*.

2 Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru

Canfyddiadau Allweddol

- mae lefel cydlyniant yng Nghymru wedi amrywio dros amser, gan ostwng yn 2005 a gostwng eto yn y blynyddoedd diwethaf
- ar hyn o bryd nid oes dull amlwg o fesur cydlyniant cymunedol ar lefel leol yng Nghymru
- gellir cynhyrchu dulliau procsi o fesur cydlyniant ar lefel leol drwy ddefnyddio data gweinyddol
- mae modd nodi pedwar math o awdurdod lleol yng Nghymru ar sail ffactorau cydlyniant: Cymru Wledig, Cyrion Pendrefol; Trefi Mawr a Dinasoedd; a'r Cymoedd

2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn darparu trosolwg o sefyllfa cydlyniant cymunedol yng Nghymru. Amlinellir y problemau a'r heriau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu darlun a monitro tueddiadau cydlyniant cymunedol ar lefel leol a chenedlaethol, cyn i'r drafodaeth gyflwyno trosolwg o dueddiadau diweddar mewn cydlyniant ar lefel genedlaethol. Symudir ymlaen wedyn i edrych ar y lefel leol, gan dynnu ar gyfres o ddangosyddion procsi a luniwyd o ddata gweinyddol i gynhyrchu teipoleg cydlyniant ar gyfer awdurdodau lleol.

2.2 Monitro Cydlyniant Cymunedol: Cyfyngiadau a Phosibiliadau

Cydlyniant cymunedol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae pawb mewn ardal ddaearyddol yn byw yn ymyl ei gilydd gan ddangos parch a dealltwriaeth o'r ddeutu. Mae'r diffiniad ymddangosiadol syml yn cyffwrdd ag ystod gymhleth o faterion, gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau dinasyddiaeth, canfyddiadau o berthyn, tegwch ac ymddiriedaeth, a'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau. Mae'r cymhlethdod hwn, a'r ffaith ei fod yn gysyniad sydd wedi ei wreiddio mewn canfyddiadau ac agweddau, yn golygu bod mesur cydlyniant cymunedol yn her wirioneddol.

Yn 2003, cyflwynodd y Swyddfa Gartref restr o 10 o ddangosyddion i'w defnyddio gan awdurdodau lleol yn Lloegr a'u partneriaid i helpu i greu darlun o gydlyniant cymunedol yn eu hardal. Cyflwynwyd prif ddangosydd a oedd yn crisialu hanfod cydlyniant cymunedol mewn un cwestiwn arolwg: "*i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr ardal leol hon (o fewn pellter cerdded 15/20 munud) yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd?*" (Y Swyddfa Gartref, 2003¹). Cafodd naw dangosydd arall eu grwpio o dan themâu'r diffiniad eang o gydlyniant cymunedol a ymddangosodd yn y canllawiau i awdurdodau lleol yn Lloegr, a gyflwynwyd yn 2002.

¹Building a Picture of Community Cohesion. A Guide for Local Authorities and Their Partners. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Y prif ddangosydd hwn yw'r mesur a ddefnyddir ehangaf ar gyfer cydlyniant cymunedol. Fe'i defnyddiwyd i fesur hyd a lled cydlyniant cymunedol ar lefel ranbarthol ar draws Cymru a Lloegr trwy'r Arolwg Dinasyddiaeth; ac ar lefel dosbarth ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr trwy'r *Arolwg Lle* (a oedd yn disodli *Arolwg Boddhad Gwerth Gorau Defnyddwyr*). Mae'r ddau arolwg hwn bellach wedi peidio â bod. Blwyddyn olaf yr Arolwg Lle oedd 2008-9, a blwyddyn olaf yr Arolwg Dinasyddiaeth oedd 2010-11.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (Arolwg Byw yng Nghymru gynt, tan 2009) wedi cynnwys cwestiwn tebyg i'r prif ddangosydd ambell flwyddyn, ond ni ddefnyddiwyd cwestiwn cydlyniant yn gyson ar hyd y blynyddoedd. Yn bwysicaf, ar gyfer y gwerthusiad hwn, bu meintiau samplu Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y gorffennol yn rhy fach i ddarparu canfyddiadau dibynadwy ar lefel dosbarth mewn unrhyw flwyddyn unigol; er bod cynlluniau i unioni hyn mewn blynyddoedd i ddod.

Ystyr hynny yw, hyd yma, mai'r unig ddata tueddiadau cenedlaethol yng Nghymru o ran cydlyniant cymunedol yw'r hyn sydd ar gael trwy'r Arolwg Dinasyddiaeth, rhwng 2003 (pryd y defnyddiwyd y cwestiwn cydlyniant gyntaf) a 2010-11 (pan ddaeth yr arolwg i ben).

Ar lefel leol, nid oes dull amlwg o fesur cydlyniant ar hyn o bryd. Mewn ymateb, holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinyddion cydlyniant holl awdurdodau lleol Cymru ynghylch data arall, nad oedd o bosib ar gael i'r cyhoedd, a allai fod yn fodd i fesur cydlyniant cymunedol ar lefel leol. Soniodd rhai Awdurdodau Lleol (e.e. Rhondda Cynon Taf) am weithio gydag ystod o ddata gweinyddol i fapio a monitro materion cydlyniant yn lleol, ac roedd rhai awdurdodau lleol wedi archwilio canfyddiadau o gydlyniant gan ddefnyddio Paneli Dinasyddion² ac arolygon wedi eu targedu mewn cymdogaethau penodol. Fodd bynnag, ni chafwyd hyd i ffynhonnell o ddata canfyddiad a oedd yn mesur cydlyniant yn gyson ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

2.3 Creu Darlun o Gydlyniant Cymunedol yng Nghymru


O ddefnyddio'r Arolwg Dinasyddiaeth mae modd mesur sut mae canfyddiadau o gydlyniant wedi newid dros amser ar y lefel genedlaethol i Gymru. Yn ogystal â'r prif ddull o fesur cydlyniant - a yw pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol - mae'r arolwg yn caniatáu i ni edrych ar gwestiynau cysylltiedig â pherthnasoedd cymdeithasol a rhwydweithiau ar lefel cymdogaeth, a'r ymlyniad wrth fywyd y gymuned.

Mae Tabl 2.1 yn rhoi syniad o lefelau cydlyniant cymdogaethol yng Nghymru a Lloegr ar bum adeg rhwng 2003 a 2009-10. Ar sail y prif ddangosydd, awgrymir bod lefel cydlyniant yng Nghymru wedi amrywio pum pwynt canradd ar draws y cyfnod cyfan, gyda rhwng 81 ac 86 y cant o'r ymatebwyr i'r Arolwg Dinasyddiaeth yn cytuno'n bendant bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol. Gostyngodd cydlyniant i'w lefel isaf yng Nghymru yn 2005, gan godi eto wedi hynny, ond syrthiodd eto rhwng 2008-9 a 2009-10; a syrthiodd am y tro cyntaf islaw'r

²Mae Panel Dinasyddion fel arfer yn cyfeirio at grŵp mawr, demograffig gynrychioliadol o ddinasyddion, yr ymgynghorir â hwy yn rheolaidd er mwyn asesu'r dewisiadau a ffafirir gan y cyhoedd a'u barn.

lefel yn Lloegr, lle cynyddodd cydlyniant cymdogaethol yn raddol ar draws y pum cyfnod amser.


Ffigur 2.1: % yr ymatebwyr a gytunodd fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol (yn bendant/tueddu i gytuno)




Edrychwyd ar dair agwedd ar gyfalaf cymdeithasol ar draws yr un cyfnod. Mae perthyn wedi cael ei fesur yn ôl pa mor gryf y teimlai pobl yng Nghymru a Lloegr eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth. Mesurwyd ymddiriedaeth yn ôl cyfran ymatebwyr yr arolwg a deimlai y gellid ymddiried yn y bobl yn eu cymdogaeth. Mesurwyd gweithredu ar y cyd, neu'r gallu i weithredu ar y cyd, yn ôl cyfran yr ymatebwyr a gytunai fod pobl yn eu cymdogaeth yn cyd-dynnu i geisio gwella pethau ar lefel leol.

Dengys Ffigurau 2.2. - 2.4 fod gostyngiad, fel yn achos y prif fesur cydlyniant, ar draws pob un o'r tri newidyn cyfalaf cymdeithasol yng Nghymru rhwng 2008-9 a 2009-10. Nid adlewyrchwyd y tueddiad hwn ar i lawr yn Lloegr o ran perthyn i gymdogaeth a gweithredu cymdeithasol ar y cyd, a fu mewn gwirionedd yn cynyddu yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, gwelwyd dirywiad yn lefel yr ymddiriedaeth mewn pobl leol yn yr un modd yn Lloegr, er nad oedd mor amlwg ag yng Nghymru.


Ffigur 2.2: % y bobl a deimlai eu bod yn bendant yn perthyn i'w cymdogaeth (cryf iawn/gweddol gryf)



Ffigur 2.3: y % a deimlai y gellid ymddiried yn y bobl yn eu cymdogaeth (gellir ymddiried mewn llawer o bobl/rhai pobl)




Ffigur 2.4: y % a gytunai fod pobl yn eu cymdogaeth yn cyd-dynnu i geisio ei gwella (yn bendant/tueddu i gytuno)



Edrychwyd ar ddau newidyn arall o ran cymdogaethau - teimlo'n ddiogel a mwynhad cyffredinol wrth fyw yn yr ardal leol - oherwydd bod cyferbyniad agos rhwng y rhain a chydlyniant cymunedol mewn ymchwil flaenorol. Fel yn achos y prif fesur cydlyniant, dirywiodd y canfyddiad o ddiogelwch personol yng Nghymru rhwng 2008-9 a 2009-10, ond nid aeth yn is na'r lefelau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Wedi dweud hynny, roedd y tueddiad yn Lloegr ar i fyny yn ystod yr un cyfnod. Roedd mwynhad pobl o fyw yn eu cymdogaeth yn uchel yn y ddwy wlad ar draws y cyfnod (dros 90 y cant). Roedd lefel y mwynhad yn uwch yng Nghymru ar draws y pedwar pwynt amser cyntaf, ond yn gostwng dros amser i gyfateb i Loegr yn 2009-10.

Ffigur 2.5: % y bobl a deimlai'n ddiogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain yn eu cymdogaeth ar ôl iddi dywyllu (diogel iawn/gweddol ddiogel)



Ffigur 2.6: % y bobl a oedd yn mwynhau byw yn eu cymdogaeth (yn bendant/i ryw raddau)

I grynhoi, mae canfyddiadau o gydlyniant cymunedol wedi bod yn uwch yn gyffredinol yng Nghymru nag yn Lloegr, ond gyda pheth cydgyfeiriant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar sail yr hyn y gwyddys ei fod yn tanseilio cydlyniant, mae data gweinyddol yn cyfeirio at rai esboniadau posibl am y gostyngiadau hyn mewn cydlyniant yng Nghymru. Rhwng 2003 a 2005, profodd Cymru a Lloegr gynnydd sydyn yn nifer y gweithwyr mudol o Ddwyrain Ewrop a ddaeth i'r wlad, fel rhan o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS). Mae'n bosib bod y datblygiad hwn wedi cael mwy o effaith ar gydlyniant yng Nghymru nag yn Lloegr, o ystyried y lefelau o amddifadedd a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, a hanes diweddar mwy cyfyngedig y wlad o ran derbyn gweithwyr mudol newydd. Rhwng 2008-9 a 2009-10, gwelwyd cynnydd sydyn yng nghyfradd diweithdra'r ddwy wlad, ond arweiniodd hynny at lefel gyffredinol uwch o ddiweithdra yng Nghymru.

Dim ond yn 2009 y rhoddwyd *Cymru'n Cyd-dynnu* ar waith, ac oherwydd yr oedi sy'n gysylltiedig â chyhoeddi ffynonellau data swyddogol, ni bu modd mesur effaith hynny oddi mewn i derfynau amser y gwerthusiad trwy ddadansoddi data canfyddiad. Bydd monitro'r effaith yn ystod blynyddoedd i ddod yn cael ei gymhlethu yn sgîl digwyddiadau diweddar - yr argyfwng economaidd byd-eang, dirwasgiad dwbl, a chynllun lleihau diffyg ariannol y Llywodraeth Glymblaid - a fydd yn anochel yn effeithio ar gydlyniant. Bydd monitro'r effaith yn anoddach fyth yn sgîl dod â'r Arolwg Dinasyddiaeth i ben, gan fod hynny wedi caniatáu cymharu â Lloegr a rhanbarthau Lloegr. Mae Arolwg Troseddu Prydain, a fydd yn parhau ar ffurf Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn cynnwys y prif ddangosydd cydlyniant, ond nid yw'n cynnwys yr holl newidynnau cymdogaeth eraill y cyfeiriwyd atynt uchod.

2.4 Teipoleg Cydlyniant ar gyfer Awdurdodau Lleol

Mae'r darlun cenedlaethol yn sicr yn cuddio amrywiadau ar draws awdurdodau lleol Cymru. Gallai gwybod pa awdurdodau lleol a chymdogaethau sydd â lefelau cydlyniant sy'n codi neu'n gostwng helpu i dargedu adnoddau a hysbysu ymyriadau. Felly, yn absenoldeb data canfyddiad, mae rhesymeg gref o blaid nodi dulliau procsi o fesur cydlyniant, gan ddefnyddio data gweinyddol (h.y. data a gesglir fel mater o

drefn gan y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus). Mae amrywiol astudiaethau wedi datgelu bod ffactorau penodol yn rhagfynegyddion pwysig o ran cydlyniant cymunedol³. Mae canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn ganllaw defnyddiol ar gyfer dethol y mesurau procsi.

Dengys Tabl 2.1 y ffactorau y mae ymchwil flaenorol wedi datgelu bod perthynas ystadegol arwyddocaol rhyngddynt a chydlyniant, natur y cysylltiad hwnnw, a ffynonellau data posibl a nodwyd i gynrychioli'r ffactorau hyn ar lefel dosbarth. Nid yw'r ymchwil yn honni mai dyma'r unig ffactorau sy'n gysylltiedig â chydlyniant, ond yn hytrach mai dyma'r unig rai a gadarnhawyd gan y dystiolaeth hyd yma. Ni nodwyd ymfudo yn benodol fel rhagfynegydd cydlyniant yn y ddwy astudiaeth y cyfeiriwyd atynt uchod. Fodd bynnag, fe'i cynhwyswyd fel rhagfynegydd ar sail ei gydnabod fel sbardun pwysig i newid ar lefel gymunedol yng Nghymru. Gellid ychwanegu ffactorau eraill at y rhestr hon, ar sail gwybodaeth leol am faterion cydlyniant penodol a nodwyd gan awdurdodau lleol Cymru, megis nifer y pleidleiswyr mewn etholiadau, a'r cyfran sy'n pleidleisio dros bleidiau asgell dde eithafol.

Yn absenoldeb data canfyddiad, gellir defnyddio'r mesuriadau data procsi yn 'arwydd' o lefel cydlyniant yn lleol. Seiliwyd y cyfresi data a nodwyd yn Nhabl 2.1 ar yr hyn y gall y cyhoedd gael mynediad iddo. Gall fod cyfresi data ychwanegol ar gael yn lleol sy'n cynrychioli'r ffactorau hyn yn well, ar gael ar lefelau is-gymdogaethol, gyda modd eu cyrchu yn barhaus. Wedyn gellid olrhain hynt y dangosyddion hyn dros amser i arsylwi tueddiadau - i fyny ac i lawr - a nodi ble gwelid unrhyw newidiadau cyflym. Mae newid cyflym, yn hytrach nag un graddol, yn peryglu cydlyniant, oherwydd na fydd cymunedau o reidrwydd wedi cael digon o amser i addasu, a gall hynny greu problemau. Mae newid cyflym yn achos rhai dangosyddion cydlyniant, megis mewnfudo, yn cyfeirio at anawsterau cydlyniant posib. Gallai newid cyflym mewn dangosyddion eraill, megis cyfraddau troseddau treisgar, fod yn arwydd o rwyg yng ngwead cymdeithas leol, a phroblemau cydlyniant cysylltiedig.

³ Laurence, J. a Heath, A. (2008) *Predictors of Community Cohesion: Multi-level Modelling of the 2005 Citizenship Survey*. Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol; Demack, S., Platts-Fowler, D., Robinson, D., Stevens, A., Wilson, I. (2010) *Young People and Community Cohesion: Analysis from the Longitudinal Study of Young People in England (LSYPE)*. Llundain: Yr Adran Addysg.

Tabl 2.1: Ffactorau Cysylltiedig â Chydlyniant a Mesurau Procsi

Ffactor cydlyniant	Perthynas â chydlyniant	Procsi posibl data gweinyddol	Cyfres(i) data	Perchennog y data	Ffynonellau ar y We
Oed	Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o deimlo'n gydlynol na phobl iau, ond mae pobl ifanc yn teimlo'n fwy cydlynol na phobl ganol oed	Pobl ifanc/canol oed/hŷn fel % o'r boblogaeth breswyl	Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn	ONS	Nomis
Ethnigrwydd	Mae pobl na chawsant eu geni yn y Deyrnas Unedig a phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn teimlo'n fwy cydlyniannus; ac mae amrywiaeth ethnig yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant, er bod hynny'n dibynnu ar y math o gymysgedd ethnig yn yr ardal	% a aned yng Nghymru	Cyfrifiad 2001	ONS	Nomis
		% sy'n siarad Cymraeg (3+ oed)	Cyfrifiad 2001	ONS	Nomis
		BME fel % o'r boblogaeth 16-64	Arolwg Blynyddol y Boblogaeth (APS)	ONS	Nomis
		% a anwyd y tu allan i'r DU	Arolwg Blynyddol y Boblogaeth (APS)	ONS	Gwefan yr ONS (dangosyddion ymfudo yn yr ardal leol)
Ymfudo	Mae ardaloedd lle ceir cyfran uwch o fewnfudwyr sydd heb eu geni yn y DU yn cael effaith negyddol ar gydlyniant yn yr ardal	Ymfudo Net Mewnol fel % o'r boblogaeth breswyl	Data Ymfudo, yr Uned Amcangyfrifon Poblogaeth (PEU)	ONS	Gwefan yr ONS (dangosyddion ymfudo yn yr ardal leol)
		Ymfudo Net Rhyngwladol fel % o'r boblogaeth breswyl	Data Ymfudo a'r Uned Amcangyfrifon Poblogaeth (PEU)	ONS	Gwefan yr ONS (dangosyddion ymfudo yn yr ardal leol)
		Cofrestriadau NINO ymfudol fel % o'r boblogaeth breswyl	Cofrestriadau NINO ymfudol	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Gwefan yr ONS (dangosyddion ymfudo yn yr ardal leol); DWP Tabtool
		Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) fel % o'r boblogaeth breswyl	Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS)	Y Swyddfa Gartref	Gwefan yr ONS (dangosyddion ymfudo yn yr ardal leol)
Anfantais economaidd	Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd yn teimlo'n llai cydlynus; mae cysylltiad hefyd rhwng anfantais ar lefel unigol (deiliadaeth tai ac incwm) a chydlyniant is	% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig	Dosbarthiad yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is o ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 fesul Rhanbarth ac Awdurdod Lleol (Diwygiwyd)	Llywodraeth Cymru	StatsWales
		% y Perchennog-breswylwyr a'r rhentu preifat yn erbyn anheddau Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) fel % o bob deiliadaeth	Amcangyfrifon Stoc Anheddau ar gyfer Cymru, fesul awdurdod lleol a deiliadaeth	Llywodraeth Cymru	StatsWales
		Y di-waith fel % o'r boblogaeth breswyl 16-64 oed	Amcangyfrifon o Nifer yr Hawlwyr	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Nomis

Troseddau ac Anhrefn	Cysylltir lefelau uwch o droseddau ac anhrefn â chydlyniant is	Troseddau Trais yn erbyn y Person fel % o'r boblogaeth	Troseddu a Gofnodwyd ar Lefel Awdurdod Lleol	Y Swyddfa Gartref	Gwefan y Swyddfa Gartref
		Yr holl droseddau hysbysadwy fel % o'r boblogaeth	Troseddu a Gofnodwyd ar Lefel Awdurdod Lleol	Y Swyddfa Gartref	Gwefan y Swyddfa Gartref
		Achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel % o'r boblogaeth	Achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn	Heddlu'r Deyrnas Unedig ONS	Gwefan Police.uk Nomis
Addysg	Mae cysylltiad rhwng cymwysterau uwch a chydlyniant uwch	% o'r boblogaeth 16-64 oed sydd heb gymwysterau	Arolwg Blynyddol y Boblogaeth (APS)	ONS	Nomis
		% y disgyblion 15 oed a gyflawnodd 5 TGAU gradd A*-C neu fwy neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol	Cyflawniadau disgyblion 15 oed mewn arholiadau, fesul blwyddyn (rhywedd, AALI) NS	Llywodraeth Cymru	StatsWales
Galwedigaeth	Mae pobl mewn galwedigaethau uwch yn teimlo'n fwy cydlynus na phobl mewn galwedigaethau is	Galwedigaethau uwch (grwpiau 1-5 SOC 2000) yn erbyn galwedigaethau is (grwpiau 4-9 SOC 2000) fel % o bawb sydd mewn cyflogaeth	Arolwg Blynyddol y Boblogaeth (APS)	ONS	Nomis
Anabledd	Mae pobl sy'n dioddef o salwch tymor hir yn teimlo'n llai cydlynus	% y boblogaeth sydd â hawl i dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl	Hawl wyr Lwfans Byw i'r Anabl	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Nomis

Tynnodd y gwerthusiad ar y procsïau hyn i gynhyrchu teipoleg cydlyniant ar gyfer awdurdodau lleol. Grwpwyd pob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn ôl pedwar math, ar sail ffactorau cydlyniant, fel y nodwyd yn Nhabl 2.1, gan ddefnyddio techneg dadansoddi clystyrau. Nod y broses hon yw grwpio gwrthrychau (yn yr achos hwn awdurdodau lleol Cymru) i greu is-setiau neu 'glystyrau', fel bod y gwrthrychau ym mhob clwstr yn perthyn yn nes i'w gilydd na gwrthrychau a roddwyd mewn clystyrau gwahanol. Elfen ganolog o nod dadansoddi fesul clwstr yw'r cysyniad o nodweddion tebyg (neu annhebyg) rhwng y gwrthrychau unigol sy'n cael eu clystyru. Mae clystyru yn dechneg ystadegol gydnabyddedig, a seiliwyd ar egwyddorion mathemategol cadarn, a gall hefyd gynnwys penderfyniadau goddrychol, er enghraifft, ynghylch nifer terfynol y clystyrau.

Rhoddyd labeli disgrifiadol i'r pedwar clwstr cydlyniant a nodwyd trwy'r broses hon:

- Clwstr 1 - Cymru Wledig
- Clwstr 2 - Cyrion Pendrefol⁴
- Clwstr 3 - Trefi Mawr/Dinasoedd
- Clwstr 4 – Y Cymoedd

Er bod pob un o'r clystyrau yn wahanol, mae rhai nodweddion tebyg rhwng Clystyrau 1 a 2, a rhwng Clystyrau 3 a 4. Crynhoir y prif nodweddion sy'n gysylltiedig â phob clwstr yn y tablau isod.

Tabl 2.2: Clystyrau Cydlyniant Awdurdodau Lleol

1. Cymru Wledig	
Awdurdodau Lleol	Nodweddion
1. Ynys Môn 2. Gwynedd 3. Conwy 4. Sir Ddinbych 5. Powys 6. Ceredigion 7. Sir Benfro 8. Sir Gaerfyrddin	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer is na'r cyfartaledd wedi eu geni yng Nghymru, ond canran uchel o siaradwyr Cymraeg • Lefel isel o boblogaeth ethnig (heb fod yn wyn) a rhai a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig • Amddifadedd isel • Lefel isel o droseddu • Cyfran uchel o ddeiliadaeth perchennog-breswlydd/rhentu'n breifat • Lefelau ymfudo net mewnol (o fewn y DU) isel a rhyngwladol uchel • Lefelau isel o lafur mudol at ei gilydd, ond lefel uchel o ymfudwyr o wladwriaethau sy'n ymaelodi â'r UE (A8) • Amrywiol alwedigaethau: cyfran uchel o reolwyr ac uwch swyddogion; y gyfran uchaf o grefftwy a galwedigaethau gwasanaeth personol; • Gweithlu hynod gymwysedig • Lefel isel o anabledd • Cyrhaeddiad uchel o ran TGAU

⁴Term daearyddol yw Pendrefi i ddisgrifio ardaloedd gwledig sydd yn dod o dan ddylanwad ymfudo o ganolfannau metropolitaidd a chysylltiadau â hwy.

2. Cyrion Pendrefol	
Awdurdodau Lleol	Nodweddion
1. Sir y Fflint 2. Bro Morgannwg 3. Sir Fynwy	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer is na'r cyfartaledd wedi eu geni yng Nghymru, a chanran isel yn siarad Cymraeg • Lefel isel o boblogaeth ethnig (heb fod yn wyn) a rhai a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig • Amddifadedd isel • Lefel isel o droseddu • Cyfran uchel o ddeiliadaeth perchennog-breswlydd/rhent'u breifat • Lefel uchel o ymfudo net mewnol (o fewn y DU), ond lefel isel yn rhyngwladol • Lefel gyffredinol isel o lafur mudol, ond lefel uchel (neu yr uchaf) o ymfudwyr A8 • Galwedigaethau mwyaf medrus: uwch-reolwyr a gweithwyr proffesiynol • Gweithlu hynod gymwysedig • Lefel isel o anabledd • Cyrhaeddiad uchel o ran TGAU


3. Trefi Mawr a Dinasoedd	
Awdurdodau Lleol	Nodweddion
1. Wrecsam 2. Abertawe 3. Casnewydd 4. Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer uwch na'r cyfartaledd wedi eu geni yng Nghymru, ond canran isel yn siarad Cymraeg • Y lefel uchaf o boblogaeth ethnig (heb fod yn wyn) a rhai a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig • Lefel uchel o dai cymdeithasol • Y lefel uchaf o droseddu (y cyfan a Thrais yn erbyn y Person) • Y lefel ymfudo fewnol isaf net yn y DU; y lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol • Lefel gyffredinol uchel o lafur mudol, ond lefel isel o weithwyr mudol A8 • Gweithlu sydd â chymwysterau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol • Y galwedigaethau mwyaf amrywiol: yn cynnwys galwedigaethau proffesiynol a thechnegol; gwerthiant a gwasanaethau cwsmeriaid; galwedigaethau elfennol. • Lefel uchel o ddiweithdra • Lefel isel o anabledd • Lefel cyrhaeddiad isel o ran TGAU

4. Y Cymoedd	
Awdurdodau Lleol	Nodweddion
1. Castell-nedd Port Talbot 2. Pen-y-bont ar Ogwr 3. Rhondda Cynon Taf 4. Caerffili 5. Torfaen 6. Merthyr Tydfil 7. Blaenau Gwent	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfradd uwch na'r cyfartaledd wedi eu geni yng Nghymru, ond canran isel yn siarad Cymraeg • Lefel isel o boblogaeth ethnig (heb fod yn wyn) a rhai a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig • Lefel uchel o dai cymdeithasol • Lefel uchel o drosedd (y cyfan a Thrais yn erbyn y Person) • Lefel isel o ymfudo net mewnol (y DU) a'r ymfudo rhyngwladol isaf • Y lefel gyffredinol isaf o lafur mudol, a lefel isel o weithwyr mudol A8 • Gweithlu â chymwysterau isel • Y galwedigaethau lleiaf crefftus • Y lefel uchaf o ddiweithdra • Y lefel uchaf o anabledd • Y lefel cyrhaeddiad isaf o ran TGAU.

Dengys Ffigur 2.7 y ddaearyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r pedwar clwstwr cydlyniant. Mae clwstwr 'Y Cymoedd' yn cynrychioli clwstwr daearyddol dwys. Mae Awdurdodau Lleol yng nghlwrstwr Cymru Wledig yn ffurfio ardal gydgyffyrddol sy'n ymestyn ar draws y wlad. Mae'r clystyrau 'Trefi Mawr/dinasoedd' a'r 'Cyrion Pendrefol' yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol yn nau begwn y wlad.

Mae'r teipoleg yn cyfeirio at ba awdurdodau lleol sy'n rhannu nodweddion cydlyniant, ac yn darparu rhesymeg ar gyfer sut gellid grwpio'r awdurdodau lleol er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd wrth ymdrin â materion cydlyniant. Er enghraifft, er bod Wrecsam yn ymyl Sir Ddinbych, nid ydynt fel cymdogion yn debygol o sefydlu'r bartneriaeth orau yng nghyd-destun cydlyniant, oherwydd bydd eu heriau cydlyniant yn gwbl wahanol. Er gwaethaf heriau logisteg trefnu cyfarfodydd gyda phobl ym mhen arall y wlad, byddai Wrecsam yn elwa mwy o weithio gyda'r tair tref fawr/dinas arall yng nghlwrstwr tri.

Ffigur 2.7: Clystyrau Cydlyniant Cymru



3 Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru

Canfyddiadau Allweddol

- Lansiodd *Cymru'n Cyd-dynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, ym mis Rhagfyr 2009.
- Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn darparu dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol sydd ar wahân i'r agenda yn Lloegr ac yn wahanol iddi.
- Sefydlwyd Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, a rhoi iddi'r dasg o oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth.
- Llywiodd gwaith yr Uned Cydlyniant Cymunedol gan gynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â *Cymru'n Cyd-dynnu*, gan flaenoriaethu ymdrechion i ddarparu fframwaith a fyddai'n cynnal y dull lleol strategol o hybu cydlyniant cymunedol; prif-ffrydio cydlyniant ar draws Llywodraeth Cymru; a darparu canllawiau ar gydlyniant cymunedol.
- Nodwyd mai awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel lleol.
- Derbyniodd awdurdodau lleol ddyraniad blynyddol gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gynnal ymdrechion lleol i hybu cydlyniant.

3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o ddatblygiad *Cymru'n Cyd-dynnu* a'r broses o'i chyflwyno. Yn dilyn trosolwg cryno o ddatblygiad y strategaeth, bydd y drafodaeth yn symud ymlaen i ystyried y diffiniad o gydlyniant cymunedol a amlinellwyd yn y strategaeth, sydd wedi rhychwantu'r agenda yng Nghymru. Yn olaf, disgrifir rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wrth gyflwyno'r strategaeth.

3.2 Hanes *Cymru'n Cyd-dynnu*

Cyhoeddwyd *Cymru'n Cyd-dynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, ym mis Rhagfyr 2009. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i ymrwymiad yng nghytundeb Cymru'n Un a grewyd gan Plaid Cymru a Phlaid Lafur Cymru yn 2007, er bod modd olrhain ei gwreiddiau yn ôl i'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac amrywiol grwpiau ffydd a chymuned yn dilyn y cythrwfl yn nhrefi melinau ardal y Pennines - Bradford, Burnley ac Oldham - yn 2001. Darparodd y cytundeb raglen ar gyfer y llywodraeth glymblaid ac roedd yn cynnwys ymrwymiad i wella dinasyddiaeth a chydlyniant cymunedol fel rhan o'i hymdrechion i hybu cymdeithas deg a chyfiawn. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu a gweithredu "strategaeth cydlyniant cymunedol drosfwaol i Gymru gyfan" (t.27).

Ar y cychwyn, arweiniwyd datblygiad y strategaeth gan dîm o dri - swyddog o Lywodraeth Cymru oedd â phrofiad o waith cydraddoldeb, ymchwilydd contract, ac unigolyn ar secondiad o'r Heddlu - a oedd yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru. Ym mis Awst 2008, penodwyd swyddog yn ben ar y tîm, y cyfeiriwyd ato o hynny allan fel yr Uned Cydlyniant Cymunedol. Tasg yr Uned oedd datblygu'r strategaeth yn unol â

chytundeb Cymru'n Un, a rhoddwyd iddi hefyd y cyfrifoldeb am arwain y broses o ddatblygu a gweithredu agenda Prevent yng Nghymru. Sefydlwyd grŵp 'gorchwyl a gorffen', yr oedd ei aelodau yn cynnwys Asiantaeth Ffiniau'r DU, y Swyddfa Gartref, Cytûn a swyddogion o Lywodraeth Cymru, i hysbysu a chynghori ynghylch datblygiad y strategaeth. Hysbyswyd y strategaeth ddrafft a ddaeth i'r amlwg gan y broses o adolygu a dadansoddi tystiolaeth a chanllawiau a gyhoeddwyd yn Lloegr, trafodaethau gydag awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid (yn cynnwys grwpiau ffydd a grwpiau, sefydliadau a phartneriaethau eraill â buddiant) ac ymgynghori â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar draws gwahanol barthau polisi.

Yn gynnar yn 2009 cyhoeddwyd strategaeth cydlyniant cymunedol ddrafft, a gwahoddwyd ymatebion ysgrifenedig. Ar ben hynny, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori llai gyda phobl ifanc, ffoaduriaid/ceiswyr lloches a gweithwyr mudol, grwpiau sector gwirfoddol a menywod Mwslimaidd. Y casgliad a ddaeth i'r amlwg oedd y dylai'r canllawiau ymdrin ag ystod ehangach o wahaniaethau ac amrywiaeth oedd i'w gweld yng Nghymru, ymdrin yn benodol â mater anghydraddoldeb ac eithrio, ac edrych ar eithafiaeth yr asgell dde, yn ogystal ag eithafiaeth Al Qaida. Derbyniwyd yr argymhellion hyn, a lansiwyd *Cymru'n Cyd-dynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, ym mis Rhagfyr 2009.

3.3 Rhychwantu'r Agenda: Diffiniad o Gydlyniant Cymunedol i Gymru

Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn nodi mai cydlyniant cymunedol, yn ei ffurf symlaf, yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae pawb mewn ardal ddaearyddol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gyda dealltwriaeth a pharch o'r ddeutu. Â'r strategaeth ymlaen i nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi diffiniad ffurfiol Llywodraeth y DU o gydlyniant cymunedol:

Cydlyniant Cymunedol yw'r hyn sy'n gorfod digwydd ym mhob cymuned i alluogi gwahanol grwpiau o bobl i gyd-dynnu'n dda. Efen allweddol o gydlyniant yw integreiddio, ac mae'n rhaid i hynny ddigwydd er mwyn i drigolion newydd ymaddasu i'w gilydd (t.10)

Seiliwyd y weledigaeth o gymdeithas gydlynus, integredig ar dair sylfaen:

- bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael cyfleoedd tebyg mewn bywyd;
- bod pobl yn gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- bod pobl yn ymddiried yn ei gilydd ac yn ymddiried mewn sefydliadau lleol i weithredu'n deg.

ac ar dair ffordd o gyd-fyw:

- gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berthyn;
- ffocws ar yr hyn sy'n gyffredin rhwng cymunedau newydd a chymunedau sy'n bodoli eisoes, ochr yn ochr â chydabyddiaeth am werth amrywiaeth;
- perthynas gadarn a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

CLG (2008) The Government's Response to the Commission on Integration and Cohesion. Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Er mwyn hybu dealltwriaeth a rennir, mae'r strategaeth hefyd yn cymeradwyo'r pedair egwyddor waelodol a fynegwyd gan y Comisiwn ar Integreiddiad a Chydlyniant⁵:

- yr ymdeimlad o 'ddyfodol a rennir' sydd, yn ein barn ni, wrth wraidd ein model, a'n hargymhellion - pwyslais ar fynegi'r hyn sy'n clymu cymunedau at ei gilydd yn hytrach na pha wahaniaethau sy'n eu rhannu, a rhoi blaenoriaeth i ddyfodol a rennir dros etifeddiaethau rhanedig;
- pwyslais ar fodel newydd o gyfrifoldebau a hawliau a fydd, yn ein barn ni, yn addas at y diben yn yr 21ain Ganrif - un sy'n egluro ymdeimlad o ddinasyddiaeth ar lefel genedlaethol a lleol, a'r rhwymedigaethau sy'n mynd law yn llaw ag aelodaeth o gymuned, yn achos unigolion a grwpiau;
- pwyslais newydd ar foesgarwch a pharch o'r ddeutu, gan gydnabod, ochr yn ochr â'r angen am atgyfnerthu clymau cymdeithasol o fewn grwpiau, bod cyflymder y newid ar draws y wlad yn ad-drefnu cymunedau lleol ar frys – a bod hynny'n golygu croeso o'r ddeutu o fewn grwpiau a rhyngddynt; ac
- ymrwymiad i gydraddoldeb sy'n bodoli ochr yn ochr â'r angen am wneud cyfiawnder cymdeithasol yn weladwy, rhoi blaenoriaeth i dryloywder a thegwch, ac adeiladu ymddiriedaeth yn y sefydliadau sy'n cyflafareddu rhwng grwpiau.

Ar ben hynny, sefydlodd *Cymru'n Cyd-dynnu* bumed egwyddor ar gyfer Cymru:

- ymrwymiad gan gyrrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol i wneud dinasyddion yn ganolog i'r gwasanaethau a ddarperir.

Darperir eglurhad pellach ynghylch y ddealltwriaeth o gydlyniant cymunedol sy'n hysbysu'r agenda yng Nghymru gan gwmpas a ffocws y strategaeth. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum prif bennod yn canolbwyntio ar themâu penodol:

- *tai a chydlyniant* - cydnabod y cysylltiadau sy'n gallu bodoli rhwng argaeledd tai, lles a chyfleoedd a chysylltiadau cymdeithasol a chymunedol;
- *dysgu a chydlyniant* - cydnabod potensial addysg (mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion) i wasanaethu fel modd o hyrwyddo integreiddio a pharch o'r ddeutu;
- *cyfathrebu a chydlyniant cymunedol* - pwysleisio pa mor bwysig yw gallu defnyddio iaith gyffredin i gyfathrebu wrth helpu i hyrwyddo ymgysylltiad â chymdeithas a chyfranogiad ynddi a dealltwriaeth a pharch a rennir;
- *hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol* - cydnabod y cysylltiadau rhwng cydlyniant isel a phrofiadau o dlodi ac amddifadedd;
- *atal eithafiaeth dreisgar ac atgyfnerthu cydlyniant* - canolbwyntio ar wrthod negeseuon dadunol a chasineb o ba gyfeiriad bynnag y deuant.

Mae'r dull Cymreig yn wahanol i'r agenda cydlyniant cymunedol yn Lloegr am ei fod yn cydnabod bod posibilrwydd i amddifadedd ac eithrio cymdeithasol danseilio

⁵ Y Comisiwn ar Integreiddiad a Chydlyniant (2008) Our Shared Future. Ar gael ar wefan yr Archif Genedlaethol (<http://www.nationalarchives.gov.uk/>)

cydlyniant cymunedol. Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn ymdrin ag un o'r prif feirniadaethau a fynegwyd ynghylch yr agenda cydlyniant cymunedol yn Lloegr; methiant i ymgysylltu â materion anghydraddoldeb ac anfantais, a rôl bosibl polisi yn hybu cydlyniant trwy fynd i'r afael â'r problemau hyn.

3.4 Y Fframwaith Cyflwyno

Y nod a fynegir yn *Cymru'n Cyd-dynnu* yw cryfhau cydlyniant cymunedol yng Nghymru trwy ddarparu fframwaith strategol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ar gyfer datblygu dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Mewn geiriau eraill, datganolir y prif gyfrifoldeb am gyflwyno cydlyniant cymunedol i'r lefel leol, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chymorth i helpu asiantaethau lleol i hybu cydlyniant cymunedol. Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi mynd ati i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Gwerthusir effeithiolrwydd y dull hwn yn y penodau sy'n dilyn.

Llywodraeth Cymru

Sefydlwyd yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn wreiddiol i oruchwylio datblygiad *Cymru'n Cyd-dynnu*, ond wedi hynny rhoddwyd iddi'r dasg o arwain y broses o gyflwyno'r strategaeth. Roedd yr uned yn wreiddiol yn rhan o'r tîm Diogelwch Cymunedol, sy'n rhan o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Cefnogwyd Pennaeth yr Uned gan Swyddog Polisi Cydlyniant Cymunedol. Roedd arweinydd Prevent Cymru hefyd wedi'i leoli o fewn y tîm, gan adlewyrchu'r cysylltiadau clos rhwng dull Cymru o ymdrin â Prevent a cheisio cydlyniant cymunedol, ac uchelgais prif-ffrydio Prevent oddi mewn i ymarfer cydlyniant cymunedol. Wedi hynny, symudodd yr Uned i'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad, a derbyniodd y Pennaeth gyfrifoldebau ychwanegol ar draws y portffolio ehangach hwn. Yn 2011, adleolwyd arweinydd Prevent i'r tîm Diogelwch Cymunedol, gan adael y Swyddog Polisi Cydlyniant Cymunedol i arwain ar faterion cydlyniant.

Cafodd gwaith yr Uned Cydlyniant Cymunedol ei dywys gan gynllun gweithredu a oedd yn bodoli ochr yn ochr â'r strategaeth. Roedd y cynllun yn nodi'r hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sefydlu a chefnogi ymdrechion lleol i wella cydlyniant cymunedol ledled Cymru. Nodwyd pedwar cam gweithredu allweddol:

1. *Cyflwyno fframwaith yn cefnogi dull partneriaeth o ymdrin â datblygu strategaethau cydlyniant cymunedol ar lefel leol ledled Cymru*

Y *canlyniad a dargedwyd* yng nghyswllt y cam gweithredu hwn oedd y byddai awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chyrff rhanddeiliaid eraill yn deall ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydlyniant cymunedol, a sut i roi cydlyniant cymunedol ar waith yn lleol, gan ddarparu tair blynedd o gyllid, fel bod modd rhoi cynlluniau lleol ar waith.

Aethpwyd ati â'r gwaith *cyflwyno* trwy ddyrannu Cronfa Cydlyniant Cymunedol (£2 filiwn yn 2009/10; £1.5 miliwn yn 2010/11; ac £1.5 miliwn yn 2011/12) i awdurdodau lleol. Cyflwynodd awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â phartneriaid lleol, gynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau y dylai'r Gronfa eu cefnogi hyd at swm rhagbenodedig. Aseswyd y cynigion yn erbyn y

canllawiau a gyflwynir yn flynyddol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ac ar sail eu perthnasedd i amcanion craidd *Cymru'n Cyd-dynnu*.

Elfen arall ofynnol yn y cynlluniau gwariant lleol oedd bod o leiaf 50 y cant o'r arian yn cael ei ddefnyddio er budd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, neu drigolion yr ardaloedd hynny, lle câi gwasanaethau eu darparu mewn mannau eraill. Roedd gofyn hefyd bod partneriaethau Cydlyniant Cymunedol yn ymgynghori â Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf cyn i gynigion gael eu cyflwyno, ac roedd gofyn bod cynigion yn cyfateb i anghenion yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn deillio o frigidorri cyllideb Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â pheth arian o faes portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Yn ogystal â'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, dyrannwyd Grant Cydlyniant Cymunedol blynyddol o £50,000 o 2009-2012 i'r pedwar ardal awdurdod lleol mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam) er mwyn rhoi hwb i gychwyn y gwaith cydlyniant. Defnyddiodd tri awdurdod lleol y Grant i gyllido swyddog cydlyniant cymunedol, tra bod Abertawe wedi defnyddio'r adnodd i ariannu Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig i weithio gyda phobl ifanc agored i niwed. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y nodau a'r amcanion ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o 2009-2012 gyda'r pedwar awdurdod lleol. Cafodd y cynnydd ei fonitro, a darparwyd cefnogaeth trwy fonitro chwarterol a chyfarfodydd chwemisol gydag awdurdodau lleol.

2. *Rhoi arweiniad ar fapio cymunedol a monitro tensiynau, a gwerthuso cydlyniant cymunedol*

Y canlyniad a dargedwyd yng nghyswllt y cam gweithredu hwn oedd dealltwriaeth well o sut mae mapio cymunedau ac ymgynghori â phob grŵp mewn cymuned.

Roedd y *cyflwyno* yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar fapio cymunedau a monitro tensiynau, a datblygu data a dangosyddion i werthuso cydlyniant cymunedol ar lefel leol. Comisiynwyd gwerthusiadau hefyd o waith Prevent sy'n cael ei wneud gan Gyngor Mwslimiaid Cymru ac o'r broses a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* (mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli allbwn terfynol y gwerthusiad dan sylw).

3. *Prif-ffrydio cydlyniant ar draws Llywodraeth Cymru*

Y canlyniad a dargedwyd yng nghyswllt y cam gweithredu hwn oedd dull mwy cyfannol o ymdrin â chydlyniant ar draws ffiniau adrannol yn Llywodraeth Cymru, gyda rhanddeiliaid ar draws y Llywodraeth yn dod i chwarae rhan lawn yn natblygiad polisiau cydlyniant. Ar ben hynny, roedd y cynllun gweithredu hefyd yn nodi nifer o ganlyniadau cysylltiedig â meysydd polisi penodol. Roedd plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i gael eu gwneud yn ymwybodol o fanteision posibl cyfranogi mewn dysgu wrth fyw mewn cymdeithas gydlynus, roedd iechyd a lles i gael eu defnyddio i gefnogi gweithredu ar gydlyniant a gwell

dealltwriaeth o'r manteision o'r ddeutu, ac roedd ymagwedd strategol i gael ei hyrwyddo er mwyn diwallu anghenion grwpiau penodol.

Aethpwyd ati i *gyflwyno* trwy ddefnyddio ystod o weithgareddau. Aed â'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol trwy broses Porth Polisi Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i llunio i sicrhau bod datblygu a gweithredu gweithgaredd - neu bolisi, strategaeth, rhaglen neu brosiect - yn cyfrannu'n gyffredinol at ymateb i anghenion Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses o ddatblygu *Cymru'n Cyd-dynnu*, roedd gofyn bod yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn ymgynghori â chynrychiolwyr o adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau nad oedd yn gwrthddweud unrhyw strategaethau a oedd gan Lywodraeth Cymru eisoes. Wedi hynny, ehangwyd y broses porth polisi i gynnwys cydlyniant cymunedol yn y meini prawf a ddefnyddid i nodi cysylltiadau polisi.

Aeth y tîm cydlyniant cymunedol ati i geisio sicrhau deialog weithredol a gwaith ar y cyd ag adrannau eraill oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd sylw penodol i addysg. Er enghraifft, sefydlwyd Bwrdd ar gyfer y Rhaglen Addysg Gydlyniant i edrych ar ffyrdd o weithio mewn modd cydlynus er mwyn lledaenu gwybodaeth am gydlyniant a gweithredu ynghylch materion a nodwyd. Targedwyd anghenion grwpiau penodol trwy fynd ati'n benodol i ledaenu *Cymru'n Cyd-dynnu* i amrywiaeth o randdeiliaid a grwpiau a sicrhau cynrychiolaeth o'r Uned Cydlyniant Cymunedol ar fforymau strategol.

4. Rhannu arfer gorau ynghylch cydlyniant cymunedol yng Nghymru

Y canlyniad a dargedwyd yng nghyswllt y cam gweithredu hwn oedd gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio yng nghyd-destun cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Yn ogystal â'r Uned Cydlyniant Cymunedol yn cyfranogi ac yn cyflwyno mewn digwyddiadau a gweithdai lleol, roedd *cyflwyno* yn erbyn y targed hwn yn golygu datblygu cronfa o enghreifftiau o arfer da, a gyhoeddwyd ar dudalennau cydlyniant cymunedol gwefan Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd rhwydwaith rhithwir o swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol, a dosbarthwyd diweddariadau e-fwletin ar waith cydlyniant ledled Cymru. Ffurfiwyd is-grwpiau rhanbarthol hefyd yng Ngogledd/Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru ar gyfer ymarferwyr awdurdodau lleol. Nod y grwpiau hyn oedd rhannu arfer da ac archwilio ymhle y gellid rhannu adnoddau. Bu'r Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd yn arwain y gwaith o gyflwyno amrywiol ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth a dysgu ar gyfer awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Awdurdodau Lleol a Phartneriaid

Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn moli rhinweddau sefydlu dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Cydnabyddir bod asiantaethau lleol yn fwy tebygol o fod yn effro i bryderon y gymuned, ac yn y sefyllfa orau i ddeall y materion hynny ac ymateb iddynt, gan eu bod eisoes yn ymwneud â gwaith a fydd yn cefnogi cydlyniant mewn cymunedau lleol. Dadleuir y bydd asiantaethau lleol, trwy fabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â chydlyniant cymunedol, yn cael eu cynorthwyo yn eu

hymdrechion i gyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Awgrymir hefyd y bydd ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol o gymorth i gyflwyno strategaethau lleol sy'n ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn nodi mai awdurdodau lleol yw'r asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel lleol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod nad un corff yn unig ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Dylai dull llwyddiannus gynnwys yr holl sefydliadau perthnasol sy'n gweithio yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd â rôl arbenigol yn cefnogi grwpiau penodol. I helpu i hwyluso'r dull partneriaeth hwn o weithredu, nodwyd mai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol oedd y corff mwyaf priodol i reoli'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn lleol.

Ni ddaethpwyd ag unrhyw ddeddfwriaeth i rym sy'n gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth cydlyniant cymunedol. Agwedd Llywodraeth Cymru fu annog a rhoi cymhelliant, tywys a chefnogi'r ymgysylltu lleol â'r agenda. Roedd *Cymru'n Cyd-dynnu* yn cyflwyno elfennau sylfaenol yr hyn y gellid ei gynnwys yn y dull hwn o weithredu:

- *gweithio mewn Partneriaeth a datblygu dull strategol o weithredu* - mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn annog sefydliadau lleol i weithio mewn partneriaeth ac ymagweddu'n strategol at hybu cydlyniant cymunedol. Mae'n cynghori y dylai partneriaethau gynnwys sefydliadau sy'n gweithio yn y gymuned, sydd â gwybodaeth uniongyrchol am faterion lleol, ac sydd felly yn gallu darparu gwybodaeth gynnar ynghylch problemau cydlyniant, ac sy'n gweithio gyda grwpiau penodol sydd o dan anfantais.
- *mapio a monitro* - mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn awgrymu mai'r cam cyntaf ar gyfer unrhyw bartneriaeth a gynullir er hybu cydlyniant cymunedol fydd datblygu dealltwriaeth o'r cymunedau yn eu hardal trwy fapio cymunedau. Bydd hyn yn golygu nodi pwy sy'n byw yn yr ardal, beth yw eu blaenoriaethau o ran cydlyniant, a pha waith sydd eisoes yn digwydd i hybu cydlyniant. Bydd hyn hefyd yn hysbysu datblygiad gwaelodlin y gellir monitro cynnydd ac effaith ymyriadau yn ei erbyn, a'i ddefnyddio i werthuso newidiadau mewn cydlyniant. Roedd canllawiau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol a gyflwynwyd yn 2010/11 yn ategu'r pwynt hwn trwy gynghori partneriaethau i hoelio eu sylw ar fapio materion cydlyniant cymunedol yn eu hardal lleol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar fapio cymunedau a monitro tensiynau i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni'r dasg hon.
- *prif-ffrydio* - mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn cydnabod bod cydlyniant cymunedol yn agenda drawsbynciol sy'n berthnasol i lawer o feysydd polisi, ac mae'n dod i'r casgliad ei fod yn synhwyrol mewnosod cydlyniant i bolisi a darparu gwasanaethau. Mae felly'n dadlau bod arfer da yn golygu prif-ffrydio ystyriaethau cydlyniant ar draws "partneriaeth lawn gwasanaethau cyhoeddus".

Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol, ac wedi ymwneud â chyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel lleol. Roedd manylion penodol yr ymgysylltu hwn - er enghraifft, yng nghyswllt mapio a monitro cydlyniant, datblygu strategaeth, prif-ffrydio a gweithio mewn partneriaeth - yn amrywio o ardal i ardal, ac fe'u trafodir yn fanwl ym Mhennod 5.

Ymyriadau Lleol

Rhwng 2009/10 a 2011/12, darparwyd £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi ymyriadau lleol oedd wedi eu llunio i hybu cydlyniant cymunedol. Cyflwynwyd mwy na 600 o brosiectau mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru, yn amrywio o ran maint a hyd o ddigwyddiadau untro bychain i weithgareddau parhaus a oedd yn gyfrifol am fwyafrif y gwariant o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol mewn ardal (megis ariannu swyddog cydlyniant cymunedol penodedig). Fel y trafodwyd uchod, aseswyd cynigion yn erbyn canllawiau a gyflwynwyd gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol o ran eu perthnasedd i amcanion craidd *Cymru'n Cyd-dynnu*. Gobeithid hefyd y byddai prosiectau yn cyfateb i flaenoriaethau cydlyniant lleol, y manylwyd arnynt mewn strategaeth leol neu gynllun gweithredu. Trafodir proffil y prosiectau a ariannwyd a chyflawniadau sampl o brosiectau astudiaethau achos ym Mhennod 6.

4 Rôl Llywodraeth Cymru o ran Hybu Cydlyniant

Canfyddiadau Allweddol

- Llwyddodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer cefnogi'r broses o gyflwyno cydlyniant cymunedol ar lefel leol. Bu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Daliodd sylw pob un o'r 22 awdurdod lleol a'u hannog i ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol.
- Mae cyngor ac arweiniad ynghylch mapio a monitro cydlyniant wedi cael ei rannu gydag awdurdodau lleol trwy safle cydlyniant cymunedol ar y rhyngwyd, a thrwy ganllawiau a gomisiynwyd yn benodol. Mae rhwydweithiau ymarferwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol wedi rhoi cyfle i awdurdodau lleol rannu mewnwelediad a gwybodaeth. Mae absenoldeb unrhyw ddull amlwg o fesur cydlyniant cymunedol ar lefel leol yng Nghymru wedi golygu ei bod yn anodd rhoi cyngor ar fonitro cydlyniant.
- Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi hysbysu, tywys, darbwyllo a herio cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol. Bu'r llwyddiant yn amrywiol. Mae rhai meysydd polisi yn cydnabod perthnasedd yr agenda i'w gwaith, ac maent wedi cyfrannu'n weithredol at ymdrechion i hybu cydlyniant. Mae amheuaeth yn parhau mewn meysydd polisi eraill ynghylch perthnasedd yr agenda i'w gwaith, ac mae diffyg ymwybyddiaeth ynghylch sut mae helpu i hybu cydlyniant.
- Rhannwyd arfer gorau trwy'r rhwydweithiau ymarferwyr a phecyn offer o enghreifftiau ar wefan cydlyniant Llywodraeth Cymru. Mae'r tudalennau ar y we yn ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer syniadau a gwybodaeth, ond nid yw'r prosiectau y manylwyd arnynt wedi bod yn destun gwerthusiad, ac ni ellir eu hystyried yn enghreifftiau o arfer da neu orau.

4.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn gwerthuso gweithgareddau Llywodraeth Cymru a gwaith yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn arbennig, yn erbyn yr amcanion a'r canlyniadau y manylir arnynt yn y cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* (gweler Pennod 3). Mae'r drafodaeth wedi'i threfnu'n bedair adran sy'n adolygu perfformiad yn erbyn amcanion allweddol y cynllun gweithredu:

- cyflwyno fframwaith ar gyfer dull partneriaeth o ddatblygu strategaethau cydlyniant lleol ledled Cymru
- rhoi arweiniad ar fapio cymunedol a monitro tensiynau, a gwerthuso cydlyniant cymunedol
- prif-ffrydio cydlyniant cymunedol ar draws Llywodraeth Cymru
- nodi a rhannu arfer gorau ynghylch cydlyniant cymunedol yng Nghymru

Edrychir ar brofiadau o weithio oddi mewn i'r fframwaith hwn a chyflwyno cydlyniant cymunedol ar lefel leol ym Mhennod 5.

4.2 Datblygu Dull Lleol o Ymdrin â Hybu Cydlyniant

Pennwyd targed ar gyfer yr Uned Cydlyniant Cymunedol o ddatblygu fframwaith ar gyfer dull partneriaeth o fynd ati i ddatblygu ymarfer cydlyniant cymunedol ar lefel leol ledled Cymru, yn unol â nodau ac amcanion *Cymru'n Cyd-dynnu*. Ymddengys bod yr amcan hwn wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Cafwyd yn gyffredinol bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gyfarwydd â phryderon a blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu*. Derbyniodd pob un dair blynedd o gyllid o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol a oedd yn caniatáu rhoi cynlluniau lleol ar waith. Ar ben hynny, derbyniodd Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam dair blynedd o gyllid Grant Cydlyniant Cymunedol i gefnogi gweithgareddau cydlyniant a Prevent ychwanegol.

Bu'r **Gronfa Cydlyniant Cymunedol** yn elfen hanfodol i gyflawni'r amcan hwn yn llwyddiannus. Bu cynnig cyllid yn fodd i sicrhau sylw a hybu ymgysylltiad pob un o 22 awdurdod lleol Cymru â'r agenda cydlyniant cymunedol, er bod rhai awdurdodau lleol yn amheus ynghylch perthnasedd yr agenda i'w hardal ar y cychwyn. Ar ddiwedd y tair blynedd o gyllid dim ond un awdurdod lleol oedd yn dal heb ei argyhoeddi ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol yn eu hardal. Roedd y ffaith bod gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau i'w cyllido drwy'r Gronfa yn creu cyfle i'r Uned Cydlyniant Cymunedol sicrhau bod blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* yn derbyn sylw, ac annog dull strategol o hybu cydlyniant ar lefel leol. I'r diben hwn, cyflwynodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol ganllawiau blynyddol yr asesid cynigion yn eu herbyn.

Thema gyson yn y canllawiau blynyddol oedd y dylai awdurdodau lleol gydweithio'n agos â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ffurfio partneriaethau lleol neu is-grŵp cydlyniant cymunedol. Cawsant eu hannog hefyd i ymgysylltu â chyrrff Trydydd Sector perthnasol (er enghraifft cynghorau gwirfoddol lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cydraddoldeb), y cydnabuwyd eu bod mewn sefyllfa dda i helpu i nodi problemau cydlyniant lleol a datrysiadau posibl. Roedd disgwyl i bartneriaid gydweithio i bennu anghenion lleol o ran cydlyniant cymunedol, mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, a chytuno ar y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny. Thema arall allweddol yn y canllawiau oedd y dylid alinio'r cyllid â nodau ac amcanion craidd y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol, gan gynnwys ffocws y strategaeth ar feysydd polisi a chyflwyno gwasanaeth tai, dysgu, cyfathrebu, cydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol, a hefyd atal eithafiaeth dreisiol. Rhoddwyd pwyslais cynyddol hefyd ar bwysigrwydd ymagweddu'n strategol a phrif-ffrydio cydlyniant cymunedol ar draws meysydd gwasanaeth eraill ar lefel leol:

- yn 2009/10 y diben a nodwyd ar gyfer y Gronfa oedd galluogi partneriaethau lleol i ddarparu cyllid cychwynnol ar gyfer gwaith cydlyniant mewn cymunedau lleol er mwyn cynnal gweithrediad y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol. Dyrannwyd tua £2 filiwn i 241 o brosiectau ledled Cymru yn 2009/10.
- yn 2010/11 cynghorwyd partneriaethau i fabwysiadu ymagwedd strategol fel bod modd iddynt fapio materion cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol, a llunio cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Dyrannwyd tua £1.5 filiwn i brosiectau yn 2010/11. Roedd prosiectau a ariannwyd yn ystod 2010/11 i gael eu nodi gan ddefnyddio sylfaen gadarn o dystiolaeth, ac roeddent i ganolbwyntio ar ganlyniadau.

- yn 2011/12 ategodd canllawiau'r Gronfa bwysigrwydd gweithgareddau mapio cymunedau, deall heriau cydlyniant, rhannu arfer gorau o ran hybu cydlyniant, cyflwyno ymyriadau i ymdrin â blaenoriaethau a nodwyd a phrif-ffrydio cydlyniant cymunedol ar draws meysydd cyflwyno polisi a gwasanaeth. Dyrannwyd tua £1.5 filiwn i brosiectau yn 2011/12.

Roedd isadeiledd lleol wedi cael ei ddatblygu ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o hybu cydlyniant cymunedol. Roedd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol swyddog cydlyniant cymunedol penodedig a oedd yn arwain ymdrechion yr awdurdod i gyflawni'r gofynion hyn. Roedd hon yn swydd benodol mewn 10 awdurdod lleol. Yn fwy nodweddiadol, roedd y swyddog arweiniol yn cyfuno cyfrifoldeb am gydlyniant cymunedol â dyletswyddau eraill.

Yn y mwyafrif o ardaloedd, cefnogid yr arweinydd cydlyniant cymunedol gan bartneriaeth o sefydliadau lleol oedd yn cydweithio i ddatblygu a symud ymlaen y dull strategol lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Mewn rhai achosion, roedd y bartneriaeth yn grŵp neu'n fforwm a oedd eisoes yn bodoli, a dderbyniodd y cyfrifoldeb am faterion cydlyniant. Mewn achosion eraill roedd partneriaeth wedi cael ei ffurfio'n arbennig i symud ymlaen gyda'r agenda cydlyniant cymunedol yn lleol. Roedd aelodaeth y grwpiau hyn yn amrywio, ond anaml y cafwyd ei fod yn cynnwys yr ystod eang o bartneriaid posibl a nodwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu* (t14). Mewn rhai achosion roedd yr aelodaeth wedi'i chyfyngu i gynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mewn achosion eraill roedd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r awdurdod lleol, yr Heddlu, cyrff trydydd sector a darparwyr gofal iechyd.

Yn ogystal â darparu modd i'r Uned Cydlyniant Cymunedol hybu'r sylw a roddid i gydlyniant cymunedol, roedd y Gronfa a'r Grant Cydlyniant Cymunedol yn hwyluso cyflwyno cannoedd o brosiectau a oedd yn ymdrin â blaenoriaethau cydlyniant cymunedol. Ceir proffil o'r prosiectau hyn ym Mhennod 6.

I grynhoi, mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi llwyddo i gyflawni amcan datblygu fframwaith i gynnal cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel leol. Bu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn elfen hanfodol yn y llwyddiant hwn, gan iddi dynnu sylw awdurdodau lleol a sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r agenda. Fodd bynnag, fel y datgelir ym Mhennod 5, cafwyd bod dyfnder yr ymrwymiad i'r agenda yn amrywio'n ddramatig o un awdurdod lleol i'r nesaf.

4.3 Rhoi Arweiniad ar Fapio a Monitro Cydlyniant

Honiad *Cymru'n Cyd-dynnu* yw mai'r cam cyntaf tuag at hybu cydlyniant yw datblygu dealltwriaeth o bwy sy'n byw ble yn yr ardal leol, blaenoriaethau cydlyniant y trigolion a pha waith cydlyniant cymunedol sydd eisoes yn digwydd ar lefel leol. Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* hefyd yn cydnabod monitro tensiynau fel elfen hanfodol o ymdrechion i hybu a chefnogi cydlyniant cymunedol. Mewn ymateb, ymrwymwyd Llywodraeth Cymru trwy'r cynllun gweithredu i roi arweiniad ar fapio cymunedau a monitro tensiynau er mwyn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gymryd y camau cyntaf hyn tuag at hybu cydlyniant. Roedd y cynllun gweithredu hefyd yn nodi chwe blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn cynnal y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn. Isod adolygir y llwyddiant o ran cyflawni yn erbyn y targedau hyn.

1. ***Datblygu'r safle cydlyniant cymunedol ar y rhyngwrwd i ddarparu gwybodaeth ynghylch sut mae mapio cymunedau*** - mae gwybodaeth ac arweiniad ar fapio cymunedau wedi cael eu llwytho i fyny i safle cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru ar y rhyngwrwd. Darperir gwybodaeth am ffynonellau data gweinyddol a dolenni iddynt, ynghyd â chyngor am ffynonellau data posibl ar lefel leol. Rhoddir cyngor ar arolygon presennol y gellid tynnu arnynt i gael cipolwg ar ganfyddiadau ac agweddau posibl, yn ogystal â dolenni i ganllawiau perthnasol. Rhoddir pwyslais ar gyfeirio awdurdodau lleol at ffynonellau data a gwybodaeth arall berthnasol, yn hytrach na darparu canllawiau ynghylch sut mae cynnal ymarferiad mapio cymunedol. Rhoddir un enghraifft, sef grŵp proffilio cymunedol amlasiantaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd, ynghyd â manylion cyswllt rhag ofn bod angen rhagor o wybodaeth. Ar ben hynny, rhannwyd cyngor a chanllawiau ynghylch gweithgareddau mapio a sut mae ymgysylltu â grwpiau 'anodd eu cyrraedd' trwy Ddigwyddiadau Arfer Da yn ystod 2010/11.

Roedd arweinyddion cydlyniant cymunedol awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r tudalennau arfer da oedd yn cynnwys cyngor ar fapio cymunedau, ond ni ddaeth fawr ddim tystiolaeth i'r amlwg i awgrymu bod y tudalennau hyn yn hysbysu naill ai'r penderfyniad i gynnal ymarferiad mapio cymunedol na manylion y dull a fabwysiadwyd. Elfen lawer pwysicach oedd gwybodaeth ac arbenigedd oedd eisoes yn bodoli o fewn yr awdurdod lleol, wedi eu cyfuno ag ymrwymiad i'r agenda cydlyniant cymunedol. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5, roedd awdurdodau lleol a oedd yn fwy ymroddedig i'r agenda ac yn meddu ar sgiliau rheoli data a dadansoddi perthnasol yn llawer mwy tebygol o fod wedi cynnal ymarferiad mapio cymunedau. Ceisiodd Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol eraill i ddilyn yr un drefn trwy gomisiynu canllawiau ar fapio cymunedau a monitro tensiynau, a ddarparwyd ar ffurf adnodd i'w lawrlwytho am ddim ar y safle cydlyniant cymunedol. Bwriadwyd y dull a amlinellwyd i'w roi ar waith gan swyddogion awdurdod lleol, yn hytrach nag ymchwilyr arbenigol, ac i alw am leiafswm o adnoddau.

2. ***Rhannu arfer da ymhlith awdurdodau lleol a'u partneriaid*** - roedd cyflawni'r amcan hwn yn golygu sefydlu tri rhwydwaith rhanbarthol o ymarferwyr cydlyniant cymunedol, lle deuai arweinyddion cydlyniant cymunedol ac asiantaethau eraill, er enghraifft, yr Heddlu, at ei gilydd i rannu gwybodaeth a phrofiadau (gweler adran 4.5). Nodwyd enghreifftiau o arfer gorau hefyd o bob rhan o Gymru gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol a darparwyd crynodebau ohonynt ar adran Arfer Da yn y wefan cydlyniant cymunedol (gweler adran 4.5).
3. ***Comisiynu ymchwil i fapio gweithgareddau cydlyniant a Prevent yn y sector addysg*** - comisiynwyd ymchwil i archwilio'r ddealltwriaeth o gydlyniant cymunedol yn y sector ysgolion a dulliau o reoli a hybu cydlyniant a chyflwyno gweithgareddau Prevent. Bu'r ymchwil hon yn hysbysu datblygiad canllawiau cydlyniant cymunedol ar gyfer ysgolion a cholegau addysg bellach, a oedd yn ceisio adeiladu ar arfer presennol a'i ddatblygu (gweler adran 4.4). Comisiynwyd gwerthusiad o waith Prevent a wnaed gan Gyngor Mwslimiaid Cymru gan y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus.

4. ***Darparu cyngor ac arweiniad ynghylch defnyddio system rheoli perfformiad Ffynnon ar gyfer monitro cydlyniant cymunedol*** - lansiwyd Ffynnon yn 2007 fel datrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol er mwyn bodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol. Un o'i brif amcanion yw caniatáu rhannu gwybodaeth oddi mewn i ffiniau sefydliadau ac ar eu traws. Cynhwyswyd cyngor ac arweiniad ar ddefnyddio system Ffynnon i fonitro cydlyniant yn *Cymru'n Cyd-dynnu*.

Bu'r Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd yn ceisio cyngor ac arweiniad ynghylch defnyddio'r system gan awdurdodau lleol i ddatblygu data a dangosyddion ar gyfer gwerthuso cydlyniant cymunedol. Y casgliad a ddaeth i'r amlwg oedd y gallai'r system hwyluso'r math hwn o ymarferiad, ond y byddai angen i awdurdodau lleol benderfynu pa gyfresi data fyddai'n cefnogi mapio a monitro cydlyniant orau. Byddai angen hefyd iddynt fod yn barod i rannu eu ffynonellau data lleol eu hunain i hwyluso dadansoddiad cymharol, sy'n hanfodol ar gyfer meincnodi ac olrhain perfformiad. Gwnaed cynnydd cyfyngedig yn y maes hwn.

5. ***Darparu cyngor ac arweiniad ar fonitro a gwerthuso cydlyniant cymunedol ar lefel leol*** - ar hyn o bryd nid oes dull amlwg o fesur cydlyniant cymunedol yng Nghymru ar lefel leol. Nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru (arolwg Byw yng Nghymru gynt) bob amser wedi cynnwys cwestiwn ar gydlyniant. Ymhellach, bu maint y samplau yn rhy fach yn y blynyddoedd blaenorol i ddarparu canfyddiadau dibynadwy ar lefel dosbarth, er bod cynlluniau i fynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb, mae'r gwerthusiad hwn wedi cynhyrchu cyfres o ddangosyddion procsi ar gyfer cydlyniant cymunedol, y gellir eu llunio o ddata gweinyddol a'u defnyddio i adeiladu darlun o gydlyniant cymunedol ar lefel leol (gweler Pennod 2). Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol yn defnyddio'r mesurau procsi hyn i hysbysu datblygiad cyfres o ganlyniadau a dangosyddion priodol ar gyfer cydlyniant cymunedol, er mwyn bwydo i ddull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau o reoli perfformiad.

6. ***Sefydlu meini prawf gwerthuso a chwblhau gwerthusiad proses a chanlyniadau o Cymru'n Cyd-dynnu*** - comisiynwyd tîm o'r Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol ym mis Medi 2010 i gyflawni'r pwynt gweithredu hwn. Yn ogystal â'r adroddiad hwn, cynhyrchodd y gwerthusiad adroddiadau interim ym mis Ionawr 2011 a mis Tachwedd 2011. Roedd y ddau yn cynnwys casgliadau ac argymhellion ynghylch pob agwedd ar waith yr Uned Cydlyniant Cymunedol a chyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel leol. Wedi hynny bu'r Uned yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i roi'r argymhellion ar waith. Ceisiwyd cyngor y tîm gwerthuso hefyd ar ystod o faterion yn ystod y gwerthusiad, gan gynnwys dulliau o fonitro cydlyniant cymunedol drwy ddefnyddio cwestiynau arolwg, a defnyddio data gweinyddol ar lefel leol, mewn ymateb i'r diffyg cyfredol o ran data canfyddiad.

I gloi, mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch mapio a monitro cydlyniant. Mae hyn wedi cynnwys canllawiau a gomisiynwyd ar broffilio cymunedol a monitro tensiynau. Darparwyd awgrymiadau a chyfeirbwyntiau hefyd ar y wefan cydlyniant cymunedol. Mae awdurdodau lleol wedi ymgynghori â'r wybodaeth hon, ond mae ymdrechion lleol i fapio a monitro cydlyniant wedi dibynnu'n fwy ar wybodaeth ac arbenigedd sydd eisoes yn bodoli. Y canlyniad, fel y gwelwn ym Mhennod 5, yw ymarfer amrywiol ar draws awdurdodau

lleol Cymru. Mae ymdrechion i hybu monitro cydlyniant cymunedol ar lefel leol wedi cael eu tanseilio i ryw raddau gan absenoldeb data lefel leol ar gydlyniant cymunedol.

4.4 Prif-ffrydio Cydlyniant ar draws Llywodraeth Cymru

Mecanweithiau Cyflwyno

Mae'r cynllun gweithredu yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn prif-ffrydio cydlyniant cymunedol ar draws adrannau a meysydd gwasanaeth. Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi arwain ar yr amcan hwn, gan ddefnyddio pedwar mecanwaith allweddol a nodwyd yn y cynllun gweithredu:

- ymgysylltu ag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru trwy gyfranogi yn y porth polisi;
- sefydlu Bwrdd ar gyfer y Rhaglen Addysg Cydlyniant;
- sefydlu a chynnal fforymau arbenigol;
- cryfhau'r cysylltiadau rhwng cydlyniant cymunedol ac Ein Dyfodol Iach.

Lluniwyd **y broses porth polisi** i sicrhau bod datblygu a gweithredu gweithgaredd - neu bolisi, strategaeth, rhaglen neu brosiect - yn cyfrannu'n gyffredinol at ymateb i anghenion Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru. Adroddodd swyddogion yn yr Uned Cydlyniant Cymunedol bod proses y porth polisi wedi helpu i fwyafu synergedd a chyfyngu ar densiynau rhwng *Cymru'n Cyd-dynnu* a strategaethau eraill o eiddo Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur effeithiolrwydd proses y porth polisi o ran hybu prif-ffrydio cydlyniant cymunedol ar draws Llywodraeth Cymru. Mae nifer o enghreifftiau o strategaethau diweddar gan Lywodraeth Cymru sydd yn methu â chyfeirio at *Cymru'n Cyd-dynnu* a chydabod y rôl y gallai polisi ac ymarfer ei chwarae wrth hybu cydlyniant. Fodd bynnag, nid yw methiant strategaeth benodol i gyfeirio at *Cymru'n Cyd-dynnu* o reidrwydd yn arwydd o fethiant i ystyried materion cydlyniant; gallai proses y porth polisi fod wedi dod i'r casgliad bod y strategaeth yn 'niwtral o ran cydlyniant' ac nad oes gofyn cyfeirio'n benodol at *Cymru'n Cyd-dynnu*. Ar ben hynny, gall natur amwys y cysyniad o gydlyniant cymunedol olygu ei fod yn anodd bod yn eglur ynghylch pa gysylltiadau y byddid yn disgwyl eu gweld rhwng cydlyniant cymunedol a meysydd polisi eraill. Ymhellach, gellid ymdrin â phryderon ynghylch cydlyniant heb gyfeirio'n benodol at *Cymru'n Cyd-dynnu*. Ceir enghraifft dda o'r anawsterau hyn yn y Strategaeth Tai Genedlaethol.

Lansiwyd y Strategaeth Tai Genedlaethol - Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru - ym mis Ebrill 2010. Mae'r ddogfen yn cyflwyno'r heriau o ran diwallu gofynion tai yng Nghymru ac yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau i'w cymryd. Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn cyfeirio'n benodol at y Strategaeth Tai Genedlaethol, gan gydnabod y potensial i faterion tai gael effaith negyddol ar gydlyniant a'r potensial i bolisi tai gryfhau cymunedau yn weithredol. Nid yw'r Strategaeth Tai Genedlaethol yn gwneud unrhyw gyfeiriad at gydlyniant cymunedol, ac nid oes tystiolaeth o unrhyw ymgais i groesi at flaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu*. Ar yr wyneb, mae'r bwloch hwn yn peri syndod, o ystyried y pwys y mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn ei roi ar rôl polisi a darpariaeth tai wrth hybu cydlyniant. Gwnaeth swyddogion yr Uned

Cydlyniant Cymunedol y sylw bod drafft cyntaf y strategaeth yn cyfeirio'n benodol at faterion cydlyniant cymunedol, ond bod y cysylltiad hwnnw wedi'i golli yn dilyn penderfyniad i 'leihau maint' y ddogfen. Cadarnhawyd hyn gan swyddog strategaeth tai yn Llywodraeth Cymru, a eglurodd bod penderfyniad wedi ei wneud i gadw'r strategaeth yn fyr a chanolbwyntio ar ddarparu canllaw lefel uchel i flaenoriaethau tai yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes cyfeiriadau at unrhyw strategaethau eraill yn y Strategaeth Tai Genedlaethol, er bod cyfeiriad at y flaenoriaeth o greu cymunedau cynaliadwy, y mae cydlyniant cymunedol yn debygol o fod yn allweddol ar ei gyfer. Efallai fod hyn yn ddull dilys o ymdrin â'r mater, ond perygl amlwg yw y bydd y gorgyffwrdd a'r synergedd o ran cydlyniant cymunedol yn parhau'n aneglur i'r asiantaethau sy'n gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth ar lawr gwlad. Roedd sefydliadau a gweithwyr proffesiynol tai yn sicr yn llai tebygol na rhai meysydd polisi eraill o gael eu cynrychioli ar y grwpiau partneriaeth lleol oedd yn gyfrifol am gyflwyno gweithgareddau cydlyniant, a nifer cymharol isel o brosiectau oedd yn canolbwyntio ar dai a gâi eu cefnogi gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, er bod y rhesymau am hynny'n aneglur.

Sefydlwyd **Bwrdd y Rhaglen Addysg Gydlyniant** i nodi a gweithredu ar faterion cydlyniant oedd yn destun pryder ar draws y sector addysg. Comisiynodd y Bwrdd ymchwil oedd yn edrych ar farn penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion yng nghyswllt cydlyniant cymunedol ym myd addysg yng Nghymru. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru yn 2010 gyda'r sectorau addysg bellach ac uwch ar Prevent a chydlyniant cymunedol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau adborth a sylwadau. Hysbysodd yr wybodaeth hon y broses o gynhyrchu canllawiau a dogfen arfer da i gynorthwyo ysgolion yn eu rôl yn cefnogi dulliau strategol o hybu a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Chwefror 2011, a chyhoeddwyd pecyn offer tebyg ar gyfer Addysg Bellach ym mis Mawrth 2011. Arweiniwyd datblygiad y dogfennau cyfarwyddyd gan yr Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ond roedd swyddog o'r Uned Cydlyniant Cymunedol yn aelod o fwrdd y rhaglen oedd yn goruchwyllo datblygiad y ddwy ddogfen. Mae'r canllawiau i ysgolion yn gweithio oddi mewn i'r diffiniad a'r ddealltwriaeth o gydlyniant cymunedol a gyflwynwyd yn *Cymru'n Cyddynnu*, a nodir fel cyflwyno'r cysylltiadau rhwng cydlyniant cymunedol a dysgu. Dywedir mai nod y canllawiau yw cefnogi ysgolion a cholegau i adolygu eu hymarfer a datblygu gwaith partneriaeth sy'n hybu cydlyniant cymunedol. Pan lanswyd y canllawiau, daeth gwaith Bwrdd y Rhaglen i ben, ond y bwriad yw ffurfio grŵp cyfeiriadol sy'n dod â phobl ynghyd o bob rhan o Lywodraeth Cymru a'r tu hwnt er mwyn sicrhau bod ceisio cydlyniant cymunedol yn parhau'n ganolog i waith yr Adran a'r sector addysg yn fwy cyffredinol.

Bwriadwyd i'r ymrwymiad i brif-ffrydio trwy **sefydlu a chynnal fforymau arbenigol** gefnogi ymdrechion i sicrhau dull strategol, cydlynus ac effeithiol o gefnogi cynnwys yn llwyddiannus yng nghymdeithas Cymru grwpiau penodol oedd yn agored i niwed, megis ymgudwyr. Yn y diwedd, penderfynwyd canolbwyntio ar sicrhau bod pryderon cydlyniant cymunedol yn cael eu hystyried ac yn derbyn sylw gan fforymau oedd eisoes yn bodoli, yn hytrach na chreu grwpiau newydd. Cyfeiriodd aelod o'r Uned Cydlyniant Cymunedol, er enghraifft, at fodolaeth fforwm ymfudwyr, fforwm ffydd a grŵp llywio ar gyfer troseddau atgasedd. Yn hytrach na dyblygu'r grwpiau hynny, adroddodd yr Uned ei bod yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau ei bod yn cael ei chynrychioli ar y grwpiau hyn neu yn ymgynghori â hwy. Roedd aelodaeth o'r

grwpiau hyn hefyd yn gyfle i'r Uned Cydlyniant Cymunedol gysylltu ac ymgynghori â chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill oddi mewn i Lywodraeth Cymru a'r tu hwnt. Mae'r fforwm ymfudwyr, er enghraifft, yn cynnwys uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru ym meysydd tai, amddiffyn plant, diogelwch cymunedol, iechyd meddwl, cynhwysiad cymdeithasol a chynhwysiad digidol, yn ogystal â chynrychiolwyr asiantaethau allanol, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Asiantaeth Ffiniau'r DU, CAB Cymru, Cymunedau yn Gyntaf, TUC, a Chonffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth Cymru. Cafwyd anawsterau yn sicrhau mynediad i rai byrddau a grwpiau a chynrychiolaeth arnynt mewn rhai meysydd polisi.

Mae ymdrechion i ***gryfhau'r cysylltiadau rhwng cydlyniant cymunedol ac 'Ein Dyfodol Iach'*** wedi canolbwyntio ar gynnwys yr Uned Cydlyniant Cymunedol mewn rhwydweithiau a chyfarfodydd perthnasol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng yr Uned Cydlyniant Cymunedol a chydweithwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno Ein Dyfodol Iach er mwyn rhychwantu cysylltiadau posibl rhwng y ddwy agenda. Rhannwyd gwybodaeth am waith yn y ddau faes a synergeddau posibl. Canlyniad allweddol fu cynnwys ymrwymiad i archwilio'r posibilïadau o ran datblygu asedau iechyd trwy'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd*, sy'n ceisio datblygu agwedd iechyd ar bob polisi ar draws y Llywodraeth, er mwyn gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Y tu hwnt i hynny, ymddengys mai cyfyngedig fu'r cynnydd, er bod yr Uned Cydlyniant Cymunedol wedi ymgynghori gyda'r rhwydweithiau ymarferwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol ynghylch sut mae sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn ymwneud â'r dull o ymdrin â chydlyniant ar lefel leol. Ymddengys mai iechyd yw un o nifer o feysydd polisi lle nad yw synergeddau posibl gyda'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn amlwg ar unwaith, a lle mae creu unrhyw fomentwm ar gyfer gweithio ar y cyd wedi bod yn fwy heriol.

Canlyniadau

Mae gwaith yr Uned Cydlyniant Cymunedol wedi bod yn hanfodol i ymdrechion i briffrydio cydlyniant cymunedol ar draws Llywodraeth Cymru. Bu'r Uned yn addysgu, tywys, darbwyllo ac weithiau yn herio cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru mewn ymgais i'w hargyhoeddi bod cydlyniant cymunedol yn agenda y dylent ymgysylltu â hi, er mwyn annog rhoi sylw i gydlyniant cymunedol wrth ddatblygu strategaeth a chynllunio gwasanaeth, ac i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygiad polisiâu cydlyniant. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd i drafod gorgyffwrdd a synergeddau, gwaith rhychwantu ar gysylltiadau posibl, presenoldeb mewn digwyddiadau perthnasol a fforymau i gryfhau dealltwriaeth a pherthnasoedd gwaith, a chynrychiolaeth ar Fyrddau Rhaglenni a grwpiau a fforymau eraill. Adroddodd swyddogion yr Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd fod hybu synergeddau a lleiafu tensiynau rhwng blaenoriaethau *Cymru'n Cyddynnu* a strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill wedi cael ei gynorthwyo gan leoliad yr Uned yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ochr yn ochr â chydweithwyr oedd yn arwain ar bolisiâu cysylltiedig, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant a chynhwysiad ariannol, diogelwch cymunedol, adfywio a chydaddoldebau.

Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru mewn meysydd polisi oedd yn cynnwys Prevent, addysg, adfywio, cydraddoldebau, tai, iechyd ac ymchwil

gymdeithasol, fel ei gilydd, eu bod wedi derbyn gwybodaeth frifio ynghylch y strategaeth cydlyniant cymunedol gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol ac wedi cwrdd â'r Uned wedi hynny. Mewn rhai achosion roedd y cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn parhau. O ganlyniad, adroddodd y swyddogion yn y cyfweiliadau eu bod yn gyfarwydd â *Cymru'n Cyd-dynnu* a chynnwys penodau penodol yn nogfen y strategaeth oedd yn ymwneud â'u maes polisi eu hunain. Mynegodd un swyddog arweiniol bryder ynghylch y bennod yn y strategaeth oedd yn ymwneud â'i f/maes polisi, gan wneud y sylw nad oedd yn "adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad" yn gywir. Hefyd cafwyd dehongliad o'r strategaeth oedd yn honni ei bod yn mynnu camau gweithredu ar faterion a oedd eisoes yn derbyn sylw yn sgîl polisi ac ymarfer. Yn fwy nodweddiadol, bu swyddogion yn dehongli'r strategaeth fel datganiad o egwyddorion ac amcanion cyffredinol, yn hytrach na dadansoddiad o'r gwaith yn eu maes hwn, ac ni fuont yn sôn am unrhyw bryderon neu broblemau gyda'r cynnwys.

Mae prif-frydio effeithiol nid yn unig yn mynnu bod y staff yn ymwybodol o agenda neu strategaeth, ond hefyd bod ganddynt ddealltwriaeth glir o sut y gallant gyfrannu at ei chyflwyno. Yng nghyswllt cydlyniant cymunedol, cafwyd bod y sefyllfa'n amrywio rhwng dau eithaf. Yn y naill begwn, roedd rhai swyddogion yn gweithio mewn maes polisi lle'r ymddangosai fod dealltwriaeth glir o'r potensial i bolisi ac ymarfer fel ei gilydd hybu cydlyniant cymunedol mewn modd cadarnhaol neu gael effaith negyddol arno. Soniodd y swyddogion hyn am berthynas waith agos gyda'r Uned Cydlyniant Cymunedol, a gallent gyfeirio at fentrau a roddwyd ar waith gyda'r bwriad penodol o hybu cydlyniant. Dwy enghraifft amlwg yw Prevent ac addysg. Nid yw hyn, o bosib, yn peri syndod. Mae cysylltiadau rhwng yr agenda cydlyniant cymunedol a'r ddau faes polisi hwn wedi cael eu hybu gan lywodraeth y DU ers cryn amser. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws agenda Prevent a'r polisi addysg ar gyd-destunau penodol (yr ysgol; y gymdogaeth; y dref neu'r ddinas) lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn dod at ei gilydd ac yn cymysgu, a'u hawydd i hybu gwell dealltwriaeth a chysylltiadau cadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

Yn y pegwn arall roedd swyddogion a oedd yn cael trafferth i amgyffred perthnasedd yr agenda cydlyniant cymunedol i'w maes gwaith eu hunain. Mynegodd un o'r swyddogion hyn amheuaeth ynghylch perthnasedd yr agenda i'r maes polisi yr oedd ef/hi yn gweithio ynddo. Roedd swyddog arall yn cydnabod bod yr agenda cydlyniant cymunedol yn uniongyrchol berthnasol i'w (h)agenda waith, a gwnaeth y sylw fod "popeth a wnaed yn ymwneud â chydlyniant cymunedol", ond cafodd drafferth i ymhelaethu ar hynny. Nid ymddangosai fod llawer o feddwl wedi cael ei roi i sut gellid integreiddio blaenoriaethau cydlyniant cymunedol i bolisi ac ymarfer. Rhwng y ddau begwn hwn cafwyd enghreifftiau o feysydd polisi lle crewyd cysylltiadau rhwng ystyriaethau polisi penodol a blaenoriaethau'r agenda cydlyniant cymunedol, ond nid ymddangosai fod cwestiynau mwy cyffredinol ynghylch y potensial i amrywiadau cydlyniant effeithio ar nodau polisi neu bolisi ac ymarfer er mwyn hybu cydlyniant wedi derbyn sylw.

4.5 Rhannu Arfer Gorau

Mae'r cynllun gweithredu yn ymrwymo'r Uned Cydlyniant Cymunedol i nodi a rhannu arfer gorau ynghylch cydlyniant cymunedol yng Nghymru. Offeryn allweddol ar gyfer cyflawni'r gofyniad hwn fu sefydlu a chydlynu **rhwydwaith ymarferwyr**. Ffurfiwyd Paneli Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn y De-orllewin, y De-ddwyrain a

Gogledd/Canolbarth Cymru. Cyfarfu'r Paneli am y tro cyntaf yn hwyr yn 2010, ac wedi hynny buont yn cyfarfod bob chwarter. Mynychwyd y cyfarfodydd gan swyddogion awdurdod lleol sy'n gyfrifol am arwain ym maes cydlyniant cymunedol, partneriaid lleol eraill, megis yr heddlu, a swyddogion o'r Uned Cydlyniant Cymunedol.

Cadarnhaodd mwyafrif y swyddogion arweiniol eu bod wedi ymwneud i ryw raddau â'r paneli rhanbarthol, er bod swyddogion mewn awdurdodau gwledig yn mynegi peth anfodlonrwydd ynghylch y pellter roedd yn rhaid iddynt ei deithio i gyfarfodydd panel, gyda rhai swyddogion yn nodi na allent fforddio'r amser, ac felly nad oeddent yn mynd i bob cyfarfod. Adroddodd swyddogion awdurdod lleol fod y paneli wedi darparu cyfle i gymharu a chyferbynnu profiadau a rhannu'r gwersi a ddysgwyd wrth adnabod ac ymateb i heriau lleol o ran cydlyniant cymunedol. Soniodd dau swyddog am ddefnyddio'r cyfarfodydd panel yn fodd i ddatblygu cysylltiadau â swyddogion arweiniol mewn awdurdodau cymdogol, gan arwain at ddatblygu gwaith trawsffiniol.

Adroddodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol fod cyfarfodydd y Panel yn gyfle i ddiweddarau awdurdodau lleol ynghylch y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac unrhyw ddatblygiadau o ran y strategaeth genedlaethol, ac i awdurdodau lleol roi adborth ar ffurf sylwadau, mynegi pryderon a cheisio eglurhad. Adroddwyd hefyd fod awdurdodau lleol wedi rhannu profiadau a thrafod ymdrechion i brif-ffrydio cydlyniant ar lefel leol ac archwilio ffyrdd a fyddai wedi caniatáu iddynt gydweithio'n agosach.

Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd wedi cyflawni'r amcan o rannu arfer gorau trwy ddatblygu **pecyn offer yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau** ar wefan cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru. Trefnir yr enghreifftiau yn ôl y pum maes polisi a amlygwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu*: cyfathrebu; cydraddoldeb ac eithrio cymdeithasol; tai; dysgu; ac atal eithafiaeth dreisgar. Darperir mwy na 60 o enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol neu a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol neu asiantaethau partner. Mae pob enghraifft yn cynnwys amlinelliad o'r prosiect, crynodeb o'r canlyniadau a manylion cyswllt y corff arweiniol y gellir cysylltu ag ef os oes angen rhagor o wybodaeth. Nid ymddengys bod mwyafrif llethol yr ymyriadau wedi bod yn destun unrhyw fath ar werthusiad, sy'n golygu ei fod yn anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch beth sy'n gweithio, ble, pam, ac o dan ba amgylchiadau. Ni ellir dweud, felly, bod y wefan yn cynrychioli cronfa o arfer 'da' neu 'orau'. Fodd bynnag, mae yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a syniadau, y soniodd awdurdodau lleol am ymgynghori â hi, er yr awgrymwyd y gellid rhoi gwell trefn arni.

Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd wedi rhannu gwybodaeth a chyingor gydag awdurdodau lleol trwy **friffiadau, cyfarfodydd a bwletinau**. Mae'r Uned wedi cymryd rhan a gwneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau a arweiniwyd gan awdurdodau lleol ac asiantaethau partner ynghylch yr agenda cydlyniant cymunedol yng Nghymru. Er enghraifft, yn 2010, cynhaliodd yr Uned ddigwyddiadau yn Ne a Gogledd Cymru, yn myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd yn sgîl y flwyddyn gyntaf o weithredu *Cymru'n Cyd-dynnu* a chynllunio at y dyfodol, a oedd yn cynnwys lledaenu cyngor ar arfer da ac enghreifftiau cysylltiedig. Wedi hynny, cynhyrchwyd adroddiad yn amlygu'r pwyntiau gweithredu allweddol ar gyfer symud ymlaen ar lefel genedlaethol a lleol.

4.6 Diwedd glo

Mae'r Uned Cydlyniant Cymunedol wedi wynebu amrywiol heriau wrth geisio cyflawni'r amcanion allweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu. Mae cyfyngiadau'r data sydd ar gael wedi tanseilio ymdrechion i hyrwyddo mapio a monitro cydlyniant cymunedol, mae rhai meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn anfodlon ymgysylltu â'r agenda, ac ni fu bob amser yn bosibl seilio canllawiau ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag arfer gorau. Fodd bynnag, y casgliad cyffredinol y deuir iddo yw bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mwyafrif amcanion y cynllun gweithredu, a bod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

O ran cwestiwn gwahanol, sef a oedd canolbwyntio ar yr amcanion penodol hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*, ymddengys mai ateb cadarnhaol, gyda rhai amodau, sy'n briodol. Rhoddwyd i awdurdodau lleol a'u partneriaid fframwaith ar gyfer datblygu dull lleol o hybu cydlyniant. Bu *Cymru'n Cyd-dynnu* yn rhychwantu'r her, manylodd canllawiau'r Uned Cydlyniant Cymunedol ar elfennau hanfodol dull lleol o ymdrin â'r maes, a chefnogodd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ymyriadau er mwyn hybu cynhwysiad ar lefel lleol. O ganlyniad, mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi ymgysylltu â'r agenda, ac wedi gweithio i hybu cydlyniant ar lefel lleol. Mae hynny'n dipyn o gamp o ystyried bod yr agenda hon yn un newydd i Gymru, ac o gadw mewn cof nad yw awdurdodau lleol o dan ddyletswydd gyfreithiol o unrhyw fath i hybu cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, rhaid ychwanegu un peth pwysig at y casgliad hwn. Mae ymrwymiad awdurdodau lleol i agenda cydlyniant cymunedol wedi amrywio'n aruthrol ledled Cymru. Fel y mae Pennod 5 yn datgelu, mae rhai awdurdodau lleol wedi parhau'n amheus ynghylch perthnasedd yr agenda i'w hardal, heb yr ymrwymiad angenrheidiol i ddatblygu dull strategol lleol o hybu cydlyniant. Mae'n anodd gweld sut gallasai'r Uned Cydlyniant Cymunedol oresgyn y gwrthsafiad hwn, heb adnoddau ychwanegol neu gefnogaeth statudol, trwy ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus fynd ati i hybu cydlyniant cymunedol yn rhagweithiol.

Mae ymdrechion i brif-ffrydio agenda cydlyniant cymunedol ar draws Llywodraeth Cymru wedi cael canlyniadau amrywiol. Mae rhai meysydd polisi yn dal heb eu hargyhoeddi neu yn aneglur ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol i'w gwaith. Cafwyd bod y ffactorau llwyddiant hanfodol o ran hybu prif-ffrydio effeithiol yn cynnwys: cydnabyddiaeth gynnar i'r potensial i faes polisi penodol hybu cydlyniant cymunedol; cynnwys amcan penodol ynghylch y maes polisi yn y cynllun gweithredu; cynnwys cydlyniant cymunedol yng nghyfrifoldebau'r grŵp polisi neu'r Bwrdd priodol; hoelio sylw ar amcan penodol (megis cynhyrchu canllawiau i ysgolion a cholegau); ac ymrwymo adnoddau a thîm penodedig i gyflawni'r union amcan hwn.

5 Cyflwyno Cymru'n Cyd-dynnu ar lefel Leol

Canfyddiadau Allweddol

- Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd o ran hybu'r agenda cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol trwy ryw gyfuniad o ymyriadau wedi eu targedu, penodi staff dynodedig, a gweithgareddau mapio a phrif-ffrydio. Y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a'r canllawiau cysylltiedig fu'r prif gatalydd ar gyfer y gweithgareddau hyn.
- Mae awdurdodau lleol wedi ymgysylltu â'r agenda cydlyniant cymunedol a'i hybu'n weithredol i amrywiol raddau, ac roedd gwahaniaeth mawr yn y dulliau lleol o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*.
- Yn nodweddiadol, roedd awdurdodau gwledig yn ymgysylltu'n llai, o ran dadansoddi a deall materion cydlyniant, pennu blaenoriaethau a phrif-ffrydio'r agenda. Yn aml, câi awdurdodau gwledig drafferth i nodi blaenoriaethau cydlyniant. Trefi mawr a dinasoedd oedd yn tueddu i ymgysylltu fwyaf, gyda'r Cymoedd yn dilyn, ac wedyn y Cyrion Pendrefol.
- Daeth awdurdodau lleol yn fwy strategol yn eu dull o ymdrin â chydlyniant cymunedol dros amser.
- Nodwyd cyfres o ffactorau a oedd yn hanfodol ar gyfer cyflwyno effeithiol ar lefel leol. Yn benodol, gwelwyd y cynnydd amlycaf mewn ardaloedd lle roedd swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, cynllun gweithredu neu strategaeth cydlyniant cymunedol, a lle gwnaed ymdrechion systematig i fapio anghenion lleol a nodi materion blaenoriaeth. Roedd cefnogaeth uwch swyddogion (penaethiaid adran a swyddogion y weithrediaeth) hefyd yn bwysig.
- Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran prif-ffrydio cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, roedd staff mewn rhai meysydd polisi yn dal yn ansicr ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol i'w gwaith neu sut gallent gyfrannu at ymdrechion i hybu cydlyniant ar lefel leol.
- Roedd pryderon ynghylch dibynadwyedd parhaus y gefnogaeth a ddarperid gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn tansellio dull mwy strategol o ymdrin â'r mater mewn rhai ardaloedd.

5.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn adolygu'r gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefel leol, gan ganolbwyntio ar waith awdurdodau lleol a'u partneriaid i hybu cydlyniant cymunedol. Mae'r canfyddiadau yn manylu ar brofiadau awdurdodau lleol o weithio oddi mewn i'r fframwaith cyflwyno a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r drafodaeth yn cychwyn trwy amlygu lefel amrywiol yr ymgysylltu ag agenda cydlyniant cymunedol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, cyn symud ymlaen i adolygu'r ffactorau sy'n darparu sail ar gyfer yr amrywiadau hynny.

5.2 Ymgysylltu ag Agenda Cydlyniant Cymunedol

Gellir rhoi awdurdodau lleol Cymru ar hyd continwrm o ran i ba raddau y maent wedi ymgysylltu ag agenda cydlyniant cymunedol. Yn gyffredinol, ceir yr

5.3 Ffactorau sy'n Cefnogi Cyflwyno Effeithiol ar Lefel Leol

Ceisiodd y gwerthusiad nodi ffactorau oedd yn hanfodol er mwyn hybu cydlyniant cymunedol yn effeithiol ar lefel leol; ffactorau a oedd yn helpu i esbonio pam roedd awdurdodau lleol ym mhen cadarnhaol y continwmm a ddisgrifiwyd uchod. Cafwyd bod y rhain yn cynnwys:

- ymroddiad swyddogion a chynghorwyr;
- arweinydd penodedig ar gyfer cydlyniant cymunedol;
- mapio a monitro i ddarparu dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol yn yr ardal leol;
- blaenoriaethau lleol y cytunwyd arnynt;
- datblygu cynllun neu strategaeth cydlyniant cymunedol ar lefel leol;
- mentrau a dargedwyd i ymdrin â heriau penodol a hybu cydlyniant;
- prif-ffrydio cydlyniant cymunedol.

Yn anochel, roedd y ffactorau hyn i'w gweld mewn gwahanol gyfuniadau mewn gwahanol awdurdodau lleol, ond fel rheol gyffredinol, po fwyaf o ffactorau oedd i'w gweld oddi mewn i bolisi ac ymarfer, mwyaf tebygol ydoedd fod awdurdod lleol ym mhen cadarnhaol y continwmm. Ar ben hynny, roedd gweithio mewn partneriaeth i hybu cydlyniant ar lefel leol yn thema drawsbynciol bwysig, a oedd yn cynnal pob un o'r ffactorau hyn.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn ystyried pob un o'r ffactorau hyn yn eu tro. Disgrifir amrywiadau polisi ac ymarfer ar draws awdurdodau lleol a, lle bynnag y bo modd, rhoddir eglurhad.

5.4 Ymrwymiad

Roedd ymrwymiad swyddogion y cyngor, cynghorwyr, asiantaethau statudol eraill a sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol i'r agenda cydlyniant cymunedol yn amrywio'n sylweddol. Adroddwyd bod ymrwymiad swyddogion awdurdod lleol, cynghorwyr lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol yn uchel. Adroddodd 19 o blith 22 arweinydd cydlyniant cymunedol fod swyddogion yr awdurdod lleol yn ('gwbl' neu, yn fwy cyffredin, yn 'rhesymol') ymroddedig i'r agenda cydlyniant cymunedol, ac adroddodd 16 fod cynghorwyr lleol yn ymroddedig i'r agenda. Roedd yr ymrwymiad hefyd yn gryf ymhlith cyrff sector gwirfoddol a chymunedol, gyda swyddogion arweiniol yn sôn mai ychydig iawn o broblemau a gafwyd yn ymgysylltu â phartneriaid sector gwirfoddol a chymunedol. Ymhellach, roedd staff o gyrff sector gwirfoddol a chymunedol a gafodd eu cyfweld gan y tîm gwerthuso yn nodweddiadol yn arddangos dealltwriaeth soffistigedig o'r agenda cydlyniant cymunedol, ac ymrwymiad iddi. Pan holwyd eu barn ynghylch lefel yr ymrwymiad i gydlyniant cymunedol ymhlith gwahanol asiantaethau partner yn 2012, daeth y sector gwirfoddol a chymunedol i'r amlwg fel yr un mwyaf ymroddedig; adroddodd 11 swyddog arweiniol fod y sector yn 'ymroddedig iawn', a dim ond un swyddog arweiniol awgrymodd mai ond 'ychydig ymroddiad' a arddangosid gan y sector.

Daeth 'partneriaid eraill statudol' i'r amlwg fel y rhai lleiaf ymroddedig i'r agenda (ond gweler y sylwadau isod ynghylch ymwneud yr Heddlu), gyda saith swyddog arweiniol

yn adrodd nad oedd 'ond ychydig ymroddiad' i gydlyniant cymunedol ymhlith y partneriaid statudol. Mewn rhai ardaloedd, roedd hon yn thema gyson ar draws dwy flynedd y gwerthusiad, gyda swyddogion arweiniol yn cyfeirio at ymwneud cyfyngedig partneriaid statudol â grwpiau a gweithgareddau cydlyniant cymunedol, a'r anawsterau o ran ymgysylltu â hwy. Fel yr eglurodd un swyddog:

"Dyw hyn ddim wedi ehangu y tu hwnt i agenda'r cyngor eto, ac mae angen iddo wneud. Mae'r strategaeth yn sôn am iechyd, tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel ffactorau sy'n cael effaith aruthrol. Dydyn ni ddim wedi cael y cyfathrebu hwnnw o gwbl, maen nhw wedi ymwneud â rhai o'r pethau rydyn ni wedi eu gwneud, ond nid yn ffurfiol, ac o ran y LCC, byddwn i'n dweud y bydden nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i chwarae rhan, achos yn amlwg mae'r awdurdod lleol yn talu grantiau iddyn nhw, felly bydden nhw'n bendant eisiau ymwneud â hyn."

Datgelodd dadansoddiad o'r ymrwymiad i gydlyniant cymunedol ar draws y gwahanol glystyrau cydlyniant bod y lefelau isaf o ymrwymiad yn yr awdurdodau 'gwledig' a'r 'cyrion cyfoethog'. Adroddodd swyddogion arweiniol ym mhob un o'r tri awdurdod 'cyrion cyfoethog' nad oedd fawr ddim brwdfrydedd na diddordeb ynghylch cydlyniant cymunedol ymhlith y partneriaid statudol. Yn y clwstwr Gwledig yr oedd y ddau awdurdod lleol lle cafwyd bod yr ymrwymiad i'r agenda yn fwyaf cyfyngedig, ac roedd teimladau cymysg ynghylch yr agenda cydlyniant cymunedol ei hun yn dal yn gryf mewn rhai awdurdodau gwledig. Roedd hyn mewn cyferbyniad llym i'r sefyllfa yn y Cymoedd neu'r Trefi mawr/dinasoedd. Roedd y canlyniadau'n amlwg yn yr awdurdodau Gwledig, heb fawr ddim brwdfrydedd ynghylch mapio na deall heriau cydlyniant lleol, datblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu, neu yrru gweithgareddau prif-ffrydio ymlaen. Mewn cyferbyniad, yn y Cymoedd, roedd ystod eang o randdeiliaid yn nodweddiadol wedi ymgysylltu â'r agenda, er bod y swyddogion arweiniol yn adrodd bod angen gwneud mwy o waith i hybu'r agenda ymhlith yr holl asiantaethau perthnasol.

Mewn rhai achosion, roedd diffyg ymrwymiad oddi mewn i awdurdodau Gwledig yn adlewyrchu dehongliad cyfyngedig iawn o'r agenda cydlyniant cymunedol, fel un a oedd yn ymwneud â materion hil ac ethnigrwydd yn unig. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad fod cydlyniant cymunedol yn fater i awdurdodau trefol, nad oedd yn berthnasol i'w hardal, ac nad oedd yn teilyngu amser na sylw swyddogion. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o swyddogion arweiniol yn gweithio yn y Clystyrau Gwledig a'r Cyrion Pendrefol a oedd yn amlwg yn llawn symbyliad ac ymroddiad, ac yn gwneud yr hyn a allent i hybu cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, câi eu hymdrechion eu llesteirio weithiau gan ddiffyg diddordeb ymhlith Cynghorwyr ac asiantaethau partner, a chan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r agenda yng Nghymru. Adroddodd swyddogion mewn dau awdurdod gwledig fod llawer o asiantaethau lleol yn dal yn anghyfarwydd â'r term, ac adroddodd un swyddog arweiniol *"nad yw'r term cydlyniant cymunedol yn golygu dim i lawer o weithwyr awdurdod lleol"*.

Soniodd llawer o swyddogion arweiniol am ymrwymiad cadarn i agenda cydlyniant cymunedol ymhlith asiantaethau lleol, er ei fod yn amrywio yn achos gwahanol bartneriaid. Cyfeiriwyd amlaf at bartneriaid oedd â chyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol (yr Heddlu yn arbennig) fel rhai oedd yn ymroddedig i'r agenda ac yn hawdd ymgysylltu â hwy. Mae hyn o bosib yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi arwain ar faterion cydlyniant cymunedol mewn llawer o

ardaloedd. Mewn cyferbyniad, soniwyd yn gyffredin am asiantaethau tai ac iechyd oedd heb ymgysylltu. Pan holwyd a oedd pob asiantaeth o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi 'cefnogi' cydlyniant cymunedol, gwnaeth un swyddog y sylw canlynol:

"Ddim yn llawn, rwy'n credu bod yr heddlu yn fwy felly achos mae'n rhywbeth maen nhw'n ei weld yn fwy trwy eu gwaith ac mae ganddyn nhw eu swyddogion troseddau atgasedd eu hunain, a'r materion hynny sy'n gysylltiedig, felly maen nhw'n ymwneud ag e yn fwy yn naturiol, ond byddwn i'n dweud fwy na thebyg ddim cymaint yn achos pobl fel y bwrdd iechyd neu'r frigâd dân neu'r gwasanaeth prawf, maen nhw'n ymwybodol ohono fe, ond dwy ddim yn credu bod y lefel angenrheidiol o bobl wedi ymgysylltu â'r gwaith eto."

Yn ôl rhai swyddogion nid oedd partneriaid yn ymgysylltu â'r agenda ond ynghylch mater penodol megis cydraddoldebau, troseddau atgasedd ac ymfudwyr newydd yn ymsefydlu.

Roedd pwysigrwydd ymrwymiad ar lefel uwch hefyd yn amlwg, a chafwyd mai diffyg ymrwymiad gan uwch swyddogion oedd un o'r prif rwystrau i sicrhau ymrwymiad cydweithwyr awdurdod lleol. Felly, hyd yn oed mewn ardaloedd oedd yn gyrru'r agenda cydlyniant cymunedol yn ei blaen yn egniol ac yn datblygu gweithgareddau prif-ffrdio, roedd diffyg cefnogaeth gan uwch swyddogion yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny, ac i ba raddau y gellid eu datblygu.

Bu tîm yr astudiaeth yn mesur lefel yr ymrwymiad i'r agenda cydlyniant cymunedol ar wahanol adegau yn ystod y gwerthusiad, ac roedd tystiolaeth o ymrwymiad cynyddol dros amser. Daeth darparu adnoddau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i'r amlwg fel sbardun hanfodol ar gyfer ymgysylltu cychwynol. Bu datblygu dull mwy strategol yn ddiweddarach o gymorth i hybu mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Bu gweithgareddau ar lefel genedlaethol hefyd yn hybu ymgysylltu â pharthau polisi penodol, ac mae cynhyrchu canllawiau ar gydlyniant cymunedol i ysgolion yn enghraifft nodedig o hynny.

Er gwaethaf y darlun amrywiol ar draws awdurdodau lleol, ac angen ymddangosiadol am ennyn mwy o ymrwymiad i gydlyniant cymunedol mewn rhai lleoliadau daearyddol ac ymhlith rhai rhanddeiliaid, mae'n werth ystyried y 'pellter a deithiwyd'. Mewn rhai awdurdodau, o'r braidd y deallid cysyniad cydlyniant cymunedol a pherthnasedd yr agenda i'r cyd-destun lleol pan lansiwyd *Cymru'n Cyd-dynnu*. Yn y cyd-destun hwn, mae presenoldeb cydlyniant cymunedol ar agenda'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn cynrychioli cynnydd arwyddocaol. Yn wir, pan ofynnwyd iddynt fyfyrion ar brif gyflawniadau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, soniodd swyddogion arweiniol yn aml am 'fwy o ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol'.

5.5 Swyddog Cydlyniant Cymunedol Penodedig

Roedd presenoldeb swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, gyda chyfrifoldeb am hybu cydlyniant cymunedol a gallu i wneud hynny ar draws yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn yr ardal leol yn allweddol i sicrhau cyflwyno effeithiol ar lefel leol. Roedd ardaloedd awdurdod lleol oedd â swyddog cydlyniant cymunedol penodedig yn fwy tebygol o fod wedi datblygu cynllun gweithredu neu strategaeth;

yn fwy tebygol o fod wedi sefydlu cysylltiadau cadarnhaol ag asiantaethau partner; ac roedd gweithgaredd prif-ffrydio yn fwy amlwg yn yr ardaloedd hynny. Daeth y capasiti ychwanegol a ddarperid gan swyddogion penodedig i'r amlwg fel elfen hanfodol o'u heffaith ar gyflwyno lleol. Roedd hyn yn cynnwys y cyngor a'r arweiniad yr oeddent yn eu darparu yn aml i gyrff a oedd yn cynnig am gymorth gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac yn ei dderbyn. Roedd hyn mewn cyferbyniad llym â'r profiad mewn ardaloedd heb staff penodedig, fel yr eglurodd un swyddog cydlyniant arweiniol:

Rwy'n gwybod eu bod, mewn rhai ardaloedd, wedi cymryd camau beiddgar i roi swyddogion cydlyniant ar waith, ond dydyn ni ddim wedi gwneud hynny hyd yma, ac rwy'n teimlo bod hynny'n andwyol yn yr ystyr y buasai modd, fwy na thebyg, i ni fod wedi sefydlu rhywun ers blwyddyn erbyn hyn i ddatblygu'r agenda cydlyniant, ond ar hyn o bryd mae fel petai'n cael ei rannu i sawl cyfeiriad... mae'n anodd oherwydd rydyn ni'n gorfod cyflawni mwy â llai, felly rydyn ni'n darganfod bod yr amser y byddwn ni'n gallu ei roi i gydlyniant, nawr ei fod wedi'i sefydlu, yn lleihau"

Roedd arbenigedd, gwybodaeth, a chysylltiadau oedd eisoes yn bodoli ag asiantaethau partner hefyd yn nodweddion pwysig yn achos swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig, ond cafwyd mai capasiti oedd y brif fantais, a bod y gweithgareddau eraill a'r effeithiau cadarnhaol yn deillio o hynny. Roedd ardaloedd heb swyddog penodedig yn dibynnu ar aelod staff yr awdurdod lleol a benodwyd yn 'swyddog arweiniol ar gyfer cydlyniant cymunedol' ac roedd capasiti cyfyngedig i symud ymlaen gyda materion cydlyniant cymunedol yn thema gyson mewn trafodaethau gyda'r ymatebwyr hyn. Roedd gan bob un ohonynt gyfrifoldebau eraill (roedd llawer ohonynt yn swyddogion diogelwch cymunedol), ac roedd cydlyniant cymunedol wedi cael ei ychwanegu at hynny. Yn ôl llawer ohonynt, nid oedd ganddynt ond ychydig oriau'r wythnos i'w neilltuo i'w rôl cydlyniant cymunedol, ac roedd rhai, gan eu bod yn teimlo o dan faich gormodol yn eu prif rôl eisoes, yn anfodlon derbyn llwyth gwaith ychwanegol, ac roedd hynny'n effeithio ar eu symbyliad mewn rhai achosion. Roedd nifer ohonynt hefyd wedi gweld eu llwyth gwaith yn cynyddu yn sgîl newidiadau staffio o ganlyniad i doriadau awdurdodau lleol. Canlyniad hynny mewn rhai awdurdodau (er nad y cyfan, yn sicr) oedd mai sylw elfennol yn unig a roddid i faterion cydlyniant cymunedol, gan ganolbwyntio ar waith gweinyddu sylfaenol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Fel yr eglurodd un swyddog arweiniol:

"Does gen i ddim llawer o amser i'w roi i'r maes gwaith hwn. Rwy'n llwyddo i wneud y gwaith a'r pethau angenrheidiol i'w cyflawni o ran grantiau, ond fyddwn i ddim yn dweud fy mod i wedi edrych ar y mater yn fanwl o gwbl"

Roedd bron hanner (10) yr awdurdodau lleol yn cyflogi swyddog cydlyniant cymunedol penodedig (llawn neu ran amser) erbyn trydedd flwyddyn y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Y Trefi Mawr a'r Dinasoedd oedd y rhai mwyaf tebygol o wneud hynny, gan adlewyrchu'r arian ychwanegol a dderbyniwyd trwy'r Grant Cydlyniant Cymunedol, tra na neilltuodd ond un (Ynys Môn) o'r wyth awdurdod Gwledig swyddog penodedig (roedd un arall wedi cyflogi swyddogion dros dro yn flaenorol). Cyflogid swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig mewn un o'r pedwar awdurdod 'Cyrion Cyfoethog' a phedwar o blith saith ardal y Cymoedd.

Fel arfer, ariannid Swyddogion Cydlyniant Cymunedol trwy adnoddau cydlyniant cymunedol penodedig (y Gronfa neu'r Grant), er bod y swydd mewn nifer bach o achosion yn cael ei chyd-ariannu neu ei chefnogi'n llwyr gan gronfeydd eraill. Roedd y Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn Sir y Fflint, er enghraifft, yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol, ac ym Mhowys, roedd dau Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn cael eu cyflogi dros dro gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys. Fodd bynnag, roedd hynny'n beth prin iawn, ac yn awgrymu mai ychydig iawn o awdurdodau, heb ariannu penodedig ar gyfer cydlyniant cymunedol, fyddai wedi ymrwymo adnoddau i swydd o'r fath. Dim ond un awdurdod lleol oedd yn defnyddio'r cyfan o'i ddyraniad o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gynnal swyddog cydlyniant cymunedol penodedig.

O edrych yn fanylach ar y penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol, roedd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch penodi swyddog penodedig neu beidio.

Yn gyntaf, ni welid cyflogi swyddog cydlyniant cymunedol penodedig mewn ardaloedd lle nad oedd y rhanddeiliaid lleol yn canfod llawer o faterion cydlyniant, a lle roedd asiantaethau heb gysylltu â'r agenda i raddau cymharol, fel defnydd effeithiol o adnoddau. Y ddadl amlwg yn erbyn hyn yw y gallai cyflogi swyddog penodedig i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol (mae cydlyniant yn effeithio ar bawb a phob lleoliad - nid yw ardaloedd sy'n awgrymu nad oes materion cydlyniant yn codi ynddynt, felly, yn deall yn llawn beth yw cydlyniant) ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, o bosib, fod yn fwyaf effeithiol o dan yr amgylchiadau hyn.

Yn ail, darparodd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol adnodd cymharol gyfyngedig ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'r costau cysylltiedig â staff penodedig yn sylweddol, heb adael fawr ddim, mewn rhai ardaloedd, i gefnogi prosiectau lleol. Roedd barn ranedig ynghylch rhinweddau cymharol staff penodedig yn erbyn prosiectau lleol fel modd i hybu cydlyniant cymunedol. Mewn un awdurdod gwledig, er enghraifft, esboniodd y swyddog arweiniol eu bod wedi ystyried cyllido Swyddog Cydlyniant Cymunedol penodedig, ond eu bod yn teimlo y caent "well canlyniadau" o gynnal prosiectau lleol. Mewn cyferbyniad, mynegodd y swyddog arweiniol mewn awdurdod gwledig arall y farn bod "*Prosiectau'n mynd a dod, ac mae pawb wedi anghofio amdanynt ymhen blwyddyn, ond gall y swyddog gadw pethau i fynd*". Gwnaeth un arall, yn y Cymoedd, bwynt tebyg, gan awgrymu bod prosiectau lleol yn gadael llai o waddol:

"Roeddem ni'n teimlo, pe baem ni wedi ei rannu i greu gwahanol brosiectau, y bydden nhw wedi canolbwyntio mwy ar ddiwyddiadau, yn hytrach na chael unrhyw effeithiau parhaol, cynaliadwy. Mae hefyd o gymorth i gadw'r peth ar yr agenda yn barhaus, yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n mynd a dod."

Yn drydydd, rhwystrodd strwythur yr arian Cydlyniant Cymunedol rai awdurdodau rhag cyflogi staff penodedig, er eu bod yn credu mai dyna fyddai'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, a ffordd well o hybu cydlyniant cymunedol a chyflawni canlyniadau cydlyniant. Ni châi'r arian ei warantu ond am flwyddyn ar y tro, ac ni fu swyddogion arweiniol, gan gynnwys nifer yn yr awdurdodau Gwledig, yn neilltuo staff penodedig oherwydd pryderon ynghylch ansicrwydd a natur byr dymor y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Fel yr eglurodd un:

"Roeddem ni'n gobeithio penodi cydgysylltydd prosiect neu rywun a fyddai'n gweinyddu'r grant fel rhan o'i rôl, gyda pheth ohono ar ffurf gwaith datblygu, ond yna oherwydd bod y Cynulliad wedi dweud na ellid gwarantu y byddai arian ar gael i ni yn 11/12, bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r syniad hwnnw, oherwydd fyddem ni ddim yn gallu hysbysebu am swydd gan wybod y gallai ddod i ben ym mis Mawrth, felly byddem ni fwy na thebyg wedi bod yn hysbysebu ar gyfer swydd chwe neu wyth mis, ac unwaith byddwch chi'n gwneud hynny bydd pobl yn dechrau chwilio am swydd arall wrth nesáu...felly roedd hynny'n broblem wirioneddol i mi, ac mae wedi golygu yn y bôn ein bod ni wedi methu symud ymlaen yn strategol gyda'r gwaith, ac nad ydym ni'n gwneud mwy na gweinyddu'r grant..."

Er gwaethaf tystiolaeth glir o'r manteision cadarnhaol sy'n deillio o bresenoldeb swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, nodwyd rhai heriau a phroblemau hefyd, oedd yn cyfyngu ar y posibiladau o ran effeithiau cadarnhaol. Yn benodol, cafwyd bod swyddi cymharol isel rhai Swyddogion Cydlyniant Cymunedol, a'r diffyg awdurdod cysylltiedig, yn llesteirio eu hymdrechion. Heb fawr ddim awdurdod na dylanwad ar gynnwys y strategaethau oedd yn cael eu datblygu gan gydweithwyr polisi, er enghraifft, a heb wahoddiad awtomatig i grwpiau uwch-reoli a strategol, adroddwyd bod yr agenda cydlyniant cymunedol weithiau yn gwneud cynnydd yn gynyddrannol braidd. Fel yr eglurodd un Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol:

"Mae [dinas X] wedi rhoi'r cydgysylltydd cydlyniant cymunedol mewn man lle mae'n rhaid i mi fynd trwy ryw 6 lefel wahanol [i gyrraedd swyddogion gweithredol uwch], ond yng Nghasnewydd, ar y llaw arall, rwy'n gwybod bod y Prif Weithredwr yn rhan o'r un panel â'r cydgysylltydd [cydlyniant cymunedol] felly maen nhw'n gallu gwthio'r agenda ymlaen"

Ceisiodd un awdurdod leiafu'r heriau hyn trwy drefnu bod eu swyddog cydlyniant penodedig yn atebol i uwch-reolwr a oedd yn meddu ar y pŵer a'r awdurdod i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol a dyrannu adnoddau.

5.6 Mapio Materion Cydlyniant Lleol

Mae *Cymru'n Cyd-dynnu* yn awgrymu mai'r cam cyntaf ar gyfer unrhyw bartneriaeth a gynullir er hybu cydlyniant cymunedol fydd datblygu dealltwriaeth o gymunedau'r ardal trwy fapio cymunedau. Bydd hyn yn golygu nodi pwy sy'n byw yn yr ardal, beth yw eu blaenoriaethau o ran cydlyniant, a pha waith sydd eisoes yn digwydd i hybu cydlyniant. Gall hyn hefyd hysbysu datblygiad gwaelodlin y gellir monitro cynnydd ac effaith ymyriadau yn ei erbyn, a'i ddefnyddio i werthuso newidiadau mewn cydlyniant. Roedd canllawiau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol a gyflwynwyd yn 2010/11 yn ategu'r pwynt hwn trwy gynghori partneriaethau i hoelio eu sylw ar fapio materion cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol.

I gefnogi'r amcan hwn, roedd y cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â *Cymru'n Cyd-dynnu* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynhyrchu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o fapio a monitro materion a heriau perthnasol i gydlyniant cymunedol (er enghraifft, proffiliau cymunedol a newid a thensiynau a gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg) a gwerthuso ymyriadau a fwriadwyd i gynnal amcanion cydlyniant.

Cynhyrchwyd y canllawiau ym mis Mai 2011 - yn ystod trydedd flwyddyn - blwyddyn olaf - y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Roedd hynny'n rhy hwyr i hysbysu a thywys dyraniad y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, a hefyd agweddau lleol at hybu ac ymdrin â materion cydlyniant yn y tair blynedd cyn lansio *Cymru'n Cyd-dynnu*. Yn y cyfamser, felly, mabwysiadodd partneriaethau cydlyniant lleol wahanol agweddau at fapio a monitro cydlyniant.

Fel yr awgrymwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu*, cam cyntaf yw mapio, a dylai ragflaenu datblygu ymyriadau a dulliau lleol o ymdrin â chydlyniant. Ni ellir pennu blaenoriaethau ac ymatebion priodol ond os yw'r gymuned leol a'r materion y mae'n eu hwynebu yn ddealliedig. Ymddengys na ddefnyddiodd yr un awdurdod lleol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i drefnu adnoddau ar gyfer ymarferion mapio yn y flwyddyn gyntaf, gan symud yn uniongyrchol i ariannu prosiectau lleol yn lle hynny.

Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu oedi wrth gadarnhau argaeledd y gronfa a'r terfynau amser tynn iawn oedd gan awdurdodau lleol ar gyfer dyrannu a gwario arian y flwyddyn gyntaf. Yn achos llawer o awdurdodau, golygai hynny nad oedd fawr ddim amser i feddwl yn strategol. Yn y cyd-destun hwn, ariannu prosiectau lleol 'parod' a oedd yn ymateb yn fras i faterion cydlyniant cymunedol oedd y ffordd orau, neu'r unig ffordd ymarferol, o ddefnyddio'r adnodd. Roedd hyn yn gyffredin iawn yn 2009/10 ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Ar ben hynny, fel y trafodwyd ym Mhenod 4.2, y diben a nodwyd ar gyfer y Gronfa yn 2009/10 oedd darparu cyllid cychwynnol ar gyfer gwaith cydlyniant mewn cymunedau lleol, a dim ond yn yr ail flwyddyn y pwysleisiodd canllawiau Llywodraeth Cymru fod angen dull mwy strategol o weithredu, gan fapio materion cydlyniant a llunio cynlluniau i fynd i'r afael â hwy. Esboniodd swyddog mewn un awdurdod lleol eu bod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio â gwario arian y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn 2009/10 ar ganfod a mapio problemau a blaenoriaethau. Roedd partneriaid lleol yn pryderu ynghylch codi proffil problemau cydlyniant heb fod yn sicr y byddai gan yr awdurdod lleol adnoddau i ymdrin â phryderon a nodwyd, teimlad a oedd wedi ei wreiddio mewn ansicrwydd ynghylch dyfodol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol.

Er na ddefnyddiodd yr un awdurdod lleol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i fapio materion ac anghenion lleol ym Mlwyddyn 1, bu rhai yn defnyddio data eilaidd oedd ar gael neu yn darparu adnoddau ar gyfer ymarferiadau mapio ac ymgynghori mewn ffyrdd eraill. Yn y mwyafrif o achosion, fodd bynnag, ni chychwynnodd y gweithgareddau mapio ond yn 2010/11 (defnyddiodd wyth awdurdod lleol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi gwaith mapio o'r fath yn ystod y flwyddyn honno). Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn dal i gael eu datblygu ar yr adeg hon, a bu'r gweithgaredd yn fylchog yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Gallai swyddogion cydlyniant cymunedol yn y mwyafrif o awdurdodau lleol gyfeirio at wybodaeth a thystiolaeth am gymunedau lleol, ond roedd mapio cynhwysfawr yng nghyd-destun cymunedau neu gydlyniant yn brin iawn. Un eithriad oedd Rhondda Cynon Taf, a gydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer da, ac a gynhwyswyd yn y Canllawiau Mapio Cymunedau a Monitro Tensiynau. Datblygodd RhCT gronfa ddata ar gyfer mapio cydlyniant cymunedol, drwy goladu ystod helaeth o gyfresi data perthnasol i gydlyniant, fel bod modd canfod a monitro materion cydlyniant ar lefel leol. Mae 'mynegai cydlyniant' cysylltiedig yn cynhyrchu sgôr a safle cydlyniant ar gyfer pob ardal cynnyrch ehangach haen is (LSOA). Wedyn cynhelir ymchwil bellach

ac ymyriad mewn cymdogaethau lle ceir arwyddion o gydlyniant isel, gan sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu targedu yn y mannau lle mae eu hangen fwyaf.

Nododd sawl awdurdod lleol arall (yn y Cymoedd a'r Trefi Mawr/Dinasoedd) fod ganddynt gynlluniau i gynnal neu gwblhau ymarferiadau mapio cynhwysfawr, ac mewn un achos o leiaf roedd hwn yn amcan allweddol, ond bu oedi yn achos y gweithgareddau, ac roedd yn aneglur faint o gynnydd roedd pob awdurdod wedi ei wneud erbyn diwedd 2011/12.

Roedd dealltwriaethartneriaid lleol o union ystyr mapio yn amrywio'n aruthrol. Mewn rhai achosion soniodd rhanddeiliaid eu bod wedi mapio anghenion a materion cymunedau lleol, ond datgelodd ymchwiliadau pellach fod hynny ar raddfa gymharol fach, neu mai ar lefel leol yn unig yr ymgynghorwyd â'r trigolion neu'r rhanddeiliaid. Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol rhwng 2009 a 2012, ac y cyfeiriwyd atynt fel enghreifftiau o fapio cymunedau yn cynnwys:

- ymchwil fewnol ac ymchwil a gomisiynwyd yn allanol yn proffilio ac yn mapio'r boblogaeth leol, neu adrannau penodol o'r boblogaeth leol (yn arbennig y boblogaeth leol fudol neu ethnig leiafrifol), materion cydlyniant cymunedol, ac anghenion lleol.
- ymgynghoriadau untro a digwyddiadau tebyg megis gweithdai a diwrnodau rhanddeiliaid (roedd y rhain yn gyffredin iawn)
- asesiadau effaith o newidiadau/ddatblygiadau penodol sydd ar droed (er enghraifft y cynnig, a ollyngwyd yn ddiweddarach, i adeiladu gorsaf bŵer ar Ynys Môn)
- dadansoddiad o ddata eilaidd megis arolygon lleol a chenedlaethol, y mynegai amddifadedd lluosog, ystadegau troseddu
- cysylltu â systemau monitro sydd eisoes yn bodoli er mwyn tynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg. Yn Sir Benfro, er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn monitro cofrestriadau ymfudwyr gyda meddygon teulu, ac mae hynny'n eu helpu i ganfod patrymau cyrraedd ac ymsefydlu ymfudwyr
- ymgysylltu parhaus â'r gymuned (trwy grwpiau ffocws, grwpiau a fforymau lleol, a gweithwyr datblygu cymunedol), yn ogystal â gweithgareddau swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig ar lawr gwlad, gan eu bod yn aml yn cydweithio'n agos â'r asiantaethau sy'n cyflwyno prosiectau a gefnogir gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac yn dysgu oddi wrthynt
- gwybodaeth broffesiynol, a geisiwyd yn ffurfiol trwy fforymau a grwpiau rhwydwaith
- 'gwybodaeth/cudd-wybodaeth leol' anffurfiol

Roedd gwerthuso gweithgaredd mapio cymunedol pob awdurdod lleol y tu hwnt i gylch gorchwyl y gwerthusiad, ond mae'n eglur bod angen rhagor o waith a bod yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth gadarn ynghylch heriau cydlyniant yn dal yn fylchog yn y mwyafrif o ardaloedd. Mewn llawer o ardaloedd roedd tueddiad i 'fapio' materion a chymunedau y teimlid eu bod eisoes yn cyflwyno heriau cydlyniant, yn hytrach na defnyddio gweithgaredd mapio i *ddatgelu'r* materion a'r cymunedau hynny. Am y rheswm hwnnw, roedd llawer o'r gwaith casglu tystiolaeth yn canolbwyntio ar

gymunedau megis pobl ifanc, cymunedau ethnig lleiafrifol, ac ymfudwyr A8, neu ar faterion megis troseddau atgasedd. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir sut na pham yr oedd y rhain wedi cael eu nodi fel materion blaenoriaeth. Gall hoelio sylw ar faterion a nodwyd ymlaen llaw fod yn ffordd effeithiol o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, a dyna oedd barn y swyddogion arweiniol. Fodd bynnag, mae risg hefyd na chaiff rhai heriau cydlyniant pwysig eu nodi byth, bod profiadau pobl a lleoedd penodol yn cael eu hesgeuluso, a bod cymdogaethau a chymunedau y mae angen adnoddau arnynt yn cael eu hanwybyddu.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd tystiolaeth bod sylw cynyddol yn cael ei roi i Gronni tystiolaeth gadarn a dealltwriaeth, a'u blaenoriaethu, yn ystod tair blynedd y gwerthusiad. O gyfuno hyn â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, felly, mae'r gwelliannau a'r cynnydd yn debygol o barhau.

5.7 Nodi Blaenoriaethau Lleol a Chytuno Arnynt

Gallai swyddogion cydlyniant cymunedol yn y mwyafrif o awdurdodau lleol gyfeirio at faterion cydlyniant yn eu hardal, ond roedd i ba raddau y nodwyd y rheiny trwy waith mapio cadarn (gweler uchod), y cytunwyd arnynt gan bartneriaid neu grŵp partneriaeth perthnasol, a'u trosi yn flaenoriaethau lleol y gellid dyrannu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, neu gynllunio gwaith cydlyniant, ar eu cyfer, yn aml yn amheus. Yn sicr, ychydig iawn o awdurdodau lleol a oedd yn gweithredu mewn modd mor strategol â hynny yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cyllid Cydlyniant Cymunedol.

Fodd bynnag, mae canfod blaenoriaethau lleol yn broses (sy'n ddelfrydol yn cynnwys ymgynghori, mapio cymunedau, a datblygu fframwaith strategol y mae blaenoriaethau lleol yn rhan ohoni) sy'n cymryd amser. Afresymol, felly, yw disgwyl cynnydd cyflym, yn arbennig mewn ardaloedd sydd yn hanesyddol heb ymgysylltu fawr ddim ag agenda cydlyniant cymunedol. Ar ben hynny, roedd yn rhaid dyrannu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol a'i gwario o fewn cyfnod byr yn 2009/10, heb roi fawr ddim cyfle i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y flwyddyn honno.

Roedd yr awdurdodau hynny a oedd yn cynnull grŵp partneriaeth cydlyniant cymunedol a ffurfiwyd yn arbennig yn fwy tebygol o fod wedi nodi a chytuno ar flaenoriaethau lleol clir na'r rhai lle nad oedd grŵp o'r fath yn bodoli (fel yn achos pump o'r wyth awdurdod Gwledig). Mae'n bosibl bod rhai grwpiau cydlyniant cymunedol wedi cael eu sefydlu gyda'r bwriad penodol o gytuno ar flaenoriaethau lleol, ac mae hynny'n darparu esboniad rhannol ar y gyfatebiaeth gref rhyngddynt.

Roedd datblygu strategaeth neu gynllun gweithredu cydlyniant cymunedol hefyd yn gatalydd pwysig, gan sbarduno awdurdodau lleol a'u partneriaid i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Yn wir, dim ond yr awdurdodau hynny oedd â strategaethau neu gynlluniau gweithredu cydlyniant allai gyfeirio at flaenoriaethau lleol a nodwyd (adroddodd eraill fod blaenoriaethau lleol wedi eu cytuno, ond nid oedd dogfennau i gefnogi hynny). Roedd gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr awdurdodau hynny oedd â phartneriaethau cydlyniant a'r rhai a oedd wedi datblygu strategaethau neu gynlluniau gweithredu. Mewn sawl awdurdod (yn cynnwys Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr a Blaenau Gwent), roedd cadwyn gydlynus o weithredu yn gwbl amlwg yn sgîl sefydlu grŵp cydlyniant cymunedol, gan arwain at ymdrechion i

fapio materion lleol, i ddatblygu strategaeth, ac i ganfod blaenoriaethau. Ymddangosai mai awdurdodau'r Cymoedd oedd fwyaf effeithiol o ran mabwysiadu'r dull strategol, mwy pwylllog, hwn.

Roedd y blaenoriaethau cydlyniant cymunedol lleol yr adroddodd swyddogion arweiniol amdanynt yn eang iawn, er bod cyfeiriadau yn aml at faterion integreiddio (yng nghyswllt cymunedau newydd a sefydledig), materion cysylltiedig ag ymfudwyr newydd yn ymsefydlu, gwrthdaro rhwng y cenedlaethau, hiliaeth a throseddau atgasedd, a chydarddoldebau. Dim ond un swyddog arweiniol (mewn ardal Wledig) adroddodd nad oedd dim blaenoriaethau wedi eu nodi na'u cytuno erioed, gan adlewyrchu'r farn leol nad oedd yr ardal yn wynebu unrhyw heriau o ran cydlyniant. Eglurodd un arall yr amharodrwydd i bennu blaenoriaethau mewn modd braidd yn wahanol, gan fynegi pryder y byddai cymunedau'n disgwyl iddynt weithredu unwaith y byddai blaenoriaethau wedi eu pennu, ac y byddai cyfyngiadau o ran adnoddau yn eu hatal rhag gwneud hynny:

"Rwy'n meddwl mai mater arall sy'n codi yw cynyddu disgwyliadau cymunedau a grwpiau lleol, ac un peth rydyn ni wedi cael ein cyhuddo o'i wneud yn y gorffennol yw codi disgwyliadau cymunedau lleol, dydyn ni ddim eisiau mynd allan a dweud 'mae hwn yn faes newydd, yn derm newydd, yn ffordd wahanol o weithio rydyn ni am ei rhoi ar waith a gweithio gyda chymunedau lleol', dod o hyd i'r holl flaenoriaethau, ac yna darganfod bod dim adnoddau, cyllid na staff ar gael i gyflawni hynny."

Pan holwyd a oedd blaenoriaethau gweithredu wedi cael eu pennu a'u cytuno yn lleol, gallai mwyafrif y swyddogion cydlyniant arweiniol gyfeirio at gyfres o faterion blaenoriaeth. Fodd bynnag, roedd i ba raddau y darparwyd tystiolaeth o'r materion hynny, y buont yn destun ymgynghori, ac y cytunwyd arnynt yn amheus, yn enwedig mewn ardaloedd heb strategaeth na chynllun gweithredu. O edrych yn fanylach, roedd y 'blaenoriaethau' a nodwyd weithiau yn cynrychioli fawr mwy na barn swyddogion ynghylch materion cydlyniant lleol. Ar adegau eraill roedd y rhestr o 'flaenoriaethau' mor hir fel bod y term 'blaenoriaeth' yn mynd yn ddiystyr. Ar ben hynny, ni ellid bob amser sefydlu perthynas rhwng gweithgaredd mapio, y blaenoriaethau a nodwyd, a'r prosiectau a ariannwyd. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o awdurdodau lleol heb strategaeth na chynllun gweithredu yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu trwy broses ymgynghori, a'u defnyddio i hysbysu dyraniad y Gronfa. Nid oedd capasiti mewn un awdurdod Gwledig, er enghraifft, i ddatblygu strategaeth gydlyniant. Mewn ymgais i sicrhau defnydd effeithiol o'r Gronfa, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid, gyda Llywodraeth Cymru yn bresennol, i ganfod y blaenoriaethau. Wedi hynny, aseswyd cynigion i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Ym mlwyddyn olaf y gwerthusiad (a thrydedd flwyddyn y Gronfa) gwelwyd blaenoriaethau yn symud yn amlwg i fwrdd oddi wrth faterion a chymunedau penodol at brif-ffrydio a chynnal y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol. Yn nodweddiadol, roedd hyn yn ymateb i ddiwedd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac yn cydnabod mai prif-ffrydio, yn absenoldeb cyllid dynodedig, oedd y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r agenda cydlyniant cymunedol. Nid oedd y symudiad hwn, yr ymddengys ei fod yn arwydd o ymrwymiad i gynnal gweithgaredd cydlyniant cymunedol, yn unffurf ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.

5.8 Cynllun neu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Lleol

Daeth datblygu strategaeth neu gynllun gweithredu cydlyniant cymunedol i'r amlwg fel ffactor allweddol oedd yn hybu cyflwyno gweithgareddau cydlyniant cymunedol mewn modd effeithiol a chydgyssylltiedig ar lefel leol. Roedd cyfatebiaeth glir rhwng yr awdurdodau hynny oedd heb ddiffiniad ymarferol o gydlyniant cymunedol, na allent gyfeirio at flaenoriaethau a gytunwyd yn lleol, ac yr oedd diffyg cydweddiad rhwng eu prosiectau a heriau cydlyniant cymunedol lleol, a'r rhai oedd heb strategaeth neu gynllun gweithredu. Sbardunodd y broses o ddatblygu strategaeth awdurdodau lleol a'u partneriaid i gytuno ar ddiffiniadau ymarferol o gydlyniant cymunedol, i fapio materion yn yr ardal leol, ac i gytuno ar flaenoriaethau.

Roedd tystiolaeth bod dull awdurdodau lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol yn datblygu'n fwy strategol dros amser. Yn y flwyddyn yn dilyn lansio *Cymru'n Cyddynnu* nid oedd gan y mwyafrif o awdurdodau fframwaith strategol i dywys eu gweithgareddau, gan gynnwys dyrannu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Yn ystod tair blynedd y gwerthusiad, bu niferoedd cynyddol o awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau gweithredu neu'n mabwysiadu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol. Yn nodweddiadol, hysbysid y strategaethau hyn gan ymdrechion i nodi materion blaenoriaeth, ond cafwyd hefyd bod y pwyslais a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ganllawiau'r Gronfa ar gyfer datblygu cynlluniau lleol i fynd i'r afael â materion cydlyniant yn 2010/11 wedi hybu mwy o feddwl strategol. Nid oedd y datblygiadau strategol bob amser wedi rhaeadru i lawr i'r penderfyniadau ynghylch dyrannu Cronfeydd Cydlyniant Cymunedol, fodd bynnag (gweler Adran 5.9 isod). Roedd problemau'n arbennig o amlwg mewn sefyllfaoedd lle nad oedd arweinydd Cydlyniant Cymunedol yr awdurdod lleol yn aelod o'r grŵp partneriaeth oedd yn gyfrifol am ddyrannu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol.

Erbyn 2011/12 (blwyddyn olaf y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a'r gwerthusiad), roedd 12 o'r 22 awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth neu gynllun gweithredu ar gyfer cydlyniant cymunedol, neu'r ddau. Roedd yn fwy cyffredin i awdurdodau lleol fod wedi datblygu cynlluniau gweithredu na strategaethau (roedd gan saith ohonynt strategaeth, a chan ddeg gynllun gweithredu, gyda phump o'r rhain wedi datblygu'r ddau beth). Nid oedd gan ddeg awdurdod lleol gynllun gweithredu na strategaeth, er bod y ddau beth yn cael eu datblygu mewn un achos.

Roedd awdurdodau lleol oedd â swyddog cydlyniant cymunedol penodedig yn fwy tebygol o fod wedi datblygu cynllun gweithredu neu strategaeth. O'r deg awdurdod oedd heb y naill na'r llall, nid oedd gan naw Swyddog Cydlyniant Cymunedol penodedig (roedd y swyddog penodedig yn yr awdurdod terfynol wrthi'n datblygu strategaeth).

Roedd awdurdodau'r Cymoedd a'r Trefi Mawr/Dinasoedd yn ymagweddu'n fwy strategol at gydlyniant cymunedol na'u cydweithwyr mewn ardaloedd Gwledig a Chyrion Pendrefol. Roedd gan chwech (o blith saith) awdurdod y Cymoedd a thri (o blith pedwar) o'r Trefi Mawr/Dinasoedd strategaeth neu gynllun gweithredu erbyn 2011/12. Mewn cyferbyniad, ychydig o awdurdodau yn yr ardaloedd Gwledig neu'r Cyrion Pendrefol oedd wedi datblygu cynlluniau gweithredu na gwneud ymdrech i ymdrin yn strategol â materion cydlyniant (roedd dau o'r chwe awdurdod Gwledig ac un o'r tri awdurdod Cyrion Cyfoethog wedi gwneud hynny). Wrth archwilio'r

rhesymau pam nad oedd yr awdurdodau hyn wedi datblygu fframwaith strategol i dwys eu gweithgareddau, daeth yr esboniadau canlynol i'r amlwg:

- y farn (oedd yn amlwg mewn pum awdurdod lleol) nad yw cydlyniant cymunedol yn galw am strategaeth leol annibynnol, gan fod materion perthnasol i gydlyniant yn derbyn sylw mewn strategaethau lleol a chenedlaethol eraill (strategaeth Cymru GYFAN, Strategaethau Cymunedol Lleol, *Cymru'n Cyd-dynnu*, y Strategaeth Diogelwch Cymunedol). Mewn rhai achosion roedd y farn hon yn adlewyrchu ymrwymiad a symbyliad cyfyngedig i hybu cydlyniant cymunedol, ond mewn eraill roedd y penderfyniad yn deillio o ystyriaeth ofalus, ymgynghori a phryderon y byddai strategaeth annibynnol yn llesteirio ymdrechion i brif-frydio. Esboniodd y swyddog arweiniol mewn un awdurdod Gwledig, er enghraifft, mai:

"Y trafferth yw, pan fyddwch yn gwneud rhywbeth fel elfen ychwanegol ar ei ben ei hun, mae yn tueddu i gael ei ychwanegu yn hytrach na chael ei brif-frydio, felly rwy'n meddwl y byddem ni'n canolbwyntio'n fwy, petai gennym fwy o adnoddau, ar geisio cynnwys hyn yn y cynllun cyfrifoldebau a'r cynlluniau allweddol sy'n llwyddiannus yng ngwaith ein hasiantaethau partner, fel ei fod yn cael ei integreiddio yn hytrach na bod rhywun yn ei weld fel cynllun ychwanegol... fe hoffem ni ei weld fel mater craidd yng nghynlluniau pawb"

- capasiti cyfyngedig (oedd yn amlwg mewn pedwar awdurdod, yr oedd tri ohonynt yn rhai Gwledig). Nid oedd swyddog cydlyniant penodedig mewn tri o'r ardaloedd hyn.
- y farn bod strategaeth yn ddiangen oherwydd nad oes heriau cydlyniant yn ardal yr awdurdod lleol (un awdurdod Gwledig)

Mabwysiadodd awdurdodau lleol wahanol ddulliau o lunio eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu. Arweiniwyd rhai gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu grwpiau partneriaeth cydlyniant, lluniwyd eraill gan y swyddog cydlyniant penodedig yn dilyn ymgynghori â phartneriaid, ac roedd rhai yn deillio o ddigwyddiad neu waith ymgynghorydd allanol. Defnyddiodd sawl un ohonynt strategaethau oedd eisoes yn bodoli (megis rhai a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol eraill, neu *Cymru'n Cyd-dynnu*) fel templed, neu buont yn tynnu ar ganllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

5.9 Mentrau a Dargedwyd i ymdrin â Heriau Penodol

Defnyddiodd yr holl awdurdodau lleol eu dyraniad o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi ymyriadau uniongyrchol ar ffurf prosiectau lleol a gyflwynwyd gan amrywiaeth o asiantaethau sector statudol a gwirfoddol. Ceir proffil o'r prosiectau hyn, ac arddangosir rhai o'r canlyniadau oedd yn deillio ohonynt, ym Mhennod 6. Fel y trafodwyd uchod, dyrannwyd peth arian yn lleol hefyd i weithgareddau strategol megis staff penodedig, mapio cydlyniant a datblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu, ond roedd hynny'n cynrychioli dyraniad llawer llai o'r adnodd cyffredinol.

Yn 2009/10 roedd y gwaith o gomisiynu mentrau a dargedwyd (yn ôl cyfaddefiad yr awdurdodau lleol eu hunain) rywfaint ar hap, a heb batrwm pendant, gydag ystod braidd yn wahanol o brosiectau'n cael eu hariannu, yn aml heb gysylltiad â materion

na blaenoriaethau lleol. Disgrifiodd un swyddog arweiniol gomisiynu yn y flwyddyn hon yn nhermau *"ei dosbarthu [y Gronfa] ar hap i'r pedwar gwynt, i gyfeiriad ambell beth a swniai'n bosibl"*. Yn aml, o ganlyniad, câi amcanion eu cymhwyso i gynigion, yn hytrach na darparu sylfaen ar eu cyfer. Roedd rôl Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo pob prosiect yn sicrhau eu bod yn cyfateb yn gyffredinol i amcanion cydlyniant cymunedol, ond roedd i ba raddau roedd rhai prosiectau yn ymdrin â materion cydlyniant yn amheus. Cydnabu Llywodraeth Cymru nad oedd awdurdodau lleol wedi cael fawr ddim amser i ddatblygu dull cydgysylltiedig cyn bod gofyn iddynt ddyrannu a gwario arian y Gronfa ym Mlwyddyn 1. O ganlyniad, nid oedd disgwyliadau uchel ar awdurdodau lleol i gynhyrchu unrhyw beth mwy strategol na blaengar. Fodd bynnag, disgwyliai Llywodraeth Cymru i hynny newid dros amser.

Yn unol â'r disgwyliadau, roedd tystiolaeth o fwy o gomisiynu strategol ym Mlynnyddoedd 2 a 3, yn yr ystyr bod y prosiectau a dderbyniai gyllid yn fwy priodol ar gyfer ymdrin â'r materion cydlyniant yr oedd swyddogion arweiniol wedi adrodd amdanynt. Mewn 14 o awdurdodau lleol cafwyd bod yr ymyriadau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn 2010/11 yn adlewyrchu'r materion lleol a nodwyd gan y swyddog arweiniol. Ar ben hynny, ar ddiwedd y tair blynedd o gyllid, adroddodd swyddogion arweiniol yn yr holl awdurdodau lleol fod ymyriadau a ariannwyd wedi ymdrin 'llawer' neu 'ychydig' â blaenoriaethau lleol.

Er bod y tueddiad cyffredinol tuag at dargedu adnoddau'n well yn amlwg, mae edrych yn fanylach ar y mater hwn yn awgrymu darlun cymhleth a llai cadarnhaol. Er enghraifft, nid oedd y materion lleol y cyfeiriwyd atynt gan swyddogion arweiniol bob amser yn deillio o asesiad systematig (gweler adrannau 5.5 a 5.6). Gall ymyriadau gyfateb yn agos i'r materion a nodwyd, ond os yw'r materion hynny yn cynrychioli barn argraffadol nifer bach o randdeiliaid sydd yn dehongli cydlyniant cymunedol mewn modd cul, ni fydd cydlyniant yn symud ymlaen yn yr ardal leol honno a bydd cymunedau a materion allweddol yn dal i gael eu hesgeuluso. Ar ben hynny, roedd diffyg cyfatebiaeth rhwng y blaenoriaethau a nodwyd gan swyddogion â chyfrifoldeb arweiniol am gydlyniant cymunedol a phroffil prosiectau lleol a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol mewn llawer o achosion. Mewn wyth awdurdod lleol, er enghraifft, nid oedd fawr ddim perthynas rhwng y prosiectau a gomisiynwyd a'r materion cydlyniant a nodwyd.

Mewn rhai awdurdodau lleol roedd hyn yn adlewyrchu diffyg meddwl strategol neu ymrwymiad cyfyngedig i agenda cydlyniant cymunedol. Ond mewn rhai ardaloedd eraill, eglurodd y swyddogion fod natur tymor byr ac ansicr y cyllid yn eu hatal rhag bod yn fwy strategol. Er enghraifft:

"O'm rhan i, byddwn i wedi hoffi gweld dull mwy blaengar a deinamig o ymdrin â chyllido, a fyddai wedi rhoi cyfle i ni symud ymlaen gyda phrosiectau, yn hytrach nag ymlwybro o un flwyddyn i'r nesaf. Allwn ni ddim gwneud hyn fesul blwyddyn, na hyd yn oed fesul tair blynedd"

"Oherwydd na allai LICC warantu y byddai arian ar gael i ni y flwyddyn nesaf, cawsom ni ein hatal rhag rhoi rhai pethau ar waith"

Yn nodweddiadol, roedd swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol yn gyfrifol am weinyddu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, ond anogodd *Cymru'n Cyd-dynnu* sefydliadau lleol perthnasol i weithio mewn partneriaeth er mwyn ymagweddu'n

strategol at gefnogi cydlyniant cymunedol. Mae'n cynghori y dylai partneriaethau gynnwys sefydliadau sy'n gweithio yn y gymuned, ac sydd â gwybodaeth uniongyrchol am faterion lleol. Gall y sefydliadau hyn ddarparu cudd-wybodaeth yn gynnar ynghylch problemau cydlyniant, ac maent yn gweithio gyda grwpiau penodol sydd o dan anfantais. Roedd partneriaethau o'r fath yn bodoli yn y mwyafrif o awdurdodau lleol ac, ochr yn ochr â swyddogion cydlyniant penodedig, roeddent yn arwain y gwaith o ddatblygu dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol a hybu a gweinyddu'r Gronfa. Roedd mwyafrif llethol cynigion awdurdodau lleol am Gronfeydd Cydlyniant Cymunedol yn cael eu hadolygu, ac roedd y cronfeydd yn cael eu dyrannu, trwy grŵp partneriaeth, er bod y prosesau a'r mecanwaith a ddatblygwyd yn amrywio ledled Cymru.

Mewn rhai achosion, roedd y rhain yn grwpiau neu baneli cydlyniant a gynullwyd yn arbennig. Mewn eraill, roedd partneriaethau neu fforymau a oedd eisoes yn bodoli wedi derbyn cyfrifoldeb am faterion cydlyniant. Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (neu is-grŵp ohoni) fyddai'n gwneud hyn yn nodweddiadol. Mewn un achos, roedd y penderfyniadau wedi cael eu datganoli i bartneriaeth sector gwirfoddol, ond yn y mwyafrif o achosion, roedd partneriaid statudol yn ymwneud â hyn. Roedd aelodaeth y grwpiau'n amrywio, ond fel arfer roedd cynrychiolaeth o Cymunedau yn Gyntaf a Diogelwch Cymunedol. Anaml y byddai'r aelodau'n cynnwys yr ystod eang o bartneriaid posibl a nodwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu* (t14), yn enwedig mewn achosion lle câi ceisiadau am gefnogaeth o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan grŵp a oedd eisoes yn bodoli, a gynullwyd yn wreiddiol at ddiben gwahanol, lle roedd yr aelodaeth yn adlewyrchu hynny.

Hysbysebodd llawer o awdurdodau argaeledd cyllid mewn 'galwad agored', ond dewisodd lleiafrif holi sefydliadau oedd yn hysbys iddynt, neu y tybid eu bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ymyriadau cydlyniant cymunedol.

"I fod yn onest, does dim diddordeb aruthrol, felly mae'n tueddu i fod yn fater o fynd at bobl rydym ni eisoes yn gwybod amdanynt sy'n gweithio ar bethau"

"Yr hyn sydd wedi tueddu i ddigwydd yw ein bod ni wedi mynd allan at yr amrywiol grwpiau ac ati yr ydym ni'n ymwneud â nhw ac amrywiol sefydliadau, a gofyn iddyn nhw gynnig am yr arian hwn, felly dyw'r dull o weithredu ddim mor strategol ag y dylai fod."

Gall hyn gynrychioli targedu strategol a rheolaeth effeithiol ar adnoddau cyfyngedig, ond nid oedd hynny'n wir yn y mwyafrif o achosion. Yn hytrach, tueddai i adlewyrchu sylw cyfyngedig i gydlyniant cymunedol ac i rychwantu'r materion yn lleol, a chyfyngu ar y diffiniadau o gydlyniant. Mewn ardaloedd lle bo hynny'n wir, gall comisiynu heb gystadleuaeth, yn hytrach na galwad agored, fod yn niweidiol i leoliadau a chymunedau y gallai fod angen ymyriadau cydlyniant cymunedol arnynt.

Roedd un awdurdod lleol wedi defnyddio'r gronfa yn gyfle i gefnogi'r sector gwirfoddol ac ymgysylltu ag ef, ac wedi mynd ati i hyrwyddo'r gronfa yn rhagweithiol ymhlith cyrff gwirfoddol a chymunedol.

Roedd amrywiadau sylweddol yn ansawdd y ceisiadau, ac yn ansawdd y broses o arfarnu a gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn awdurdodau lle rhoddyd y cyfrifoldeb am ddyrannu arian y Gronfa i grŵp partneriaeth nad oedd

cydlyniant cymunedol yn rhan benodol o'i gylch gorchwyl, ac mewn ardaloedd heb strategaeth na chynllun gweithredu. Nid yw hynny'n golygu o reidrwydd nad oedd defnydd da yn cael ei wneud o'r adnodd, ond dylid nodi bod diffyg cydgysylltu strategol weithiau rhwng y prosiectau a gefnogid gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol.

5.10 Prif-ffrydio

Eglurodd *Cymru'n Cyd-dynnu* a'r canllawiau dilynol ar y Gronfa Cydlyniant Cymunedol gan Lywodraeth Cymru fod cydlyniant cymunedol yn agenda drawsbynciol, ac y dylid ei gwreiddio yn nyletswyddau a gweithgareddau pob dydd holl adrannau llywodraeth leol a'u partneriaid. Gwnaed cynnydd gwirioneddol yn hyn o beth ers lansio *Cymru'n Cyd-dynnu*, ond mae rhai awdurdodau lleol a staff mewn meysydd polisi penodol yn dal yn ansicr ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol i'w gwaith neu beth sydd ganddynt i'w gyfrannu i ymdrechion i hybu cydlyniant yn lleol.

Tua diwedd y gwerthusiad, gofynnwyd i swyddogion arweiniol fyfyrion ar i ba raddau roedd cydlyniant cymunedol wedi cael ei wreiddio yng ngwaith yr asiantaethau lleol. Adroddodd y mwyafrif (17) fod cydlyniant cymunedol wedi ei wreiddio'n dda iawn neu'n gymharol dda yng ngwaith yr awdurdod lleol, ac adroddodd 13 fod cydlyniant cymunedol wedi'i wreiddio'n dda iawn neu'n gymharol dda yng ngwaith asiantaethau eraill. Nid oedd gan fwyafrif y rhai a adroddodd nad oedd cydlyniant cymunedol wedi'i wreiddio yng ngwaith yr awdurdod lleol nac asiantaethau eraill swyddog nac uwch-arweinydd penodedig, sydd eto yn ategu pwysigrwydd staff penodedig, yn arbennig o ran y capasiti sy'n deillio ohonynt, wrth hybu cydlyniant cymunedol gydag asiantaethau eraill. Roedd y cynnydd o ran prif-ffrydio i'w weld amlycaf yn y Cymoedd.

Cynyddodd yr ymrwymiad i brif-ffrydio ymhlith swyddogion arweiniol awdurdodau lleol a phartneriaid lleol yn ystod tair blynedd y gwerthusiad. Roedd hyn yn rhannol mewn ymateb i'r ffaith bod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn dod i ben, ond roedd hefyd yn adlewyrchu datblygiad dealltwriaeth fwy soffistigedig o gydlyniant cymunedol ymhlith cydweithwyr a phartneriaid awdurdodau lleol. Er mwyn egluro'r pwynt hwn, esboniodd un rhanddeiliaid fod ymdeimlad ar y cychwyn bod cydlyniant cymunedol yn *"rhywbeth a ddyfeiswyd gan LICC"*, ond ei fod *"bellach yn rhan o beth mae pawb yn ei wneud"*. Adroddodd un arall *"Mae wedi dod o 'beth Cymunedol?!' i fod yn rhywbeth yr ydym ni'n delio ag e bob dydd"*

Mewn rhai awdurdodau roedd swyddogion cydlyniant arweiniol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cydlyniant cymunedol yn cael ei brif-ffrydio oddi mewn i bolisi ac arfer ar draws yr awdurdod lleol, ac roedd hynny'n amlwg wedi talu ar ei ganfed. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys bod yn bresennol mewn grwpiau polisi a chyfarfodydd panel, gan gadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr mewn parthau polisi eraill, darparu mewnbyn wrth ddatblygu strategaethau newydd, a datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi. Fodd bynnag, dim ond y rheiny oedd â chryn amser i'w neilltuo ar gyfer y dasg oedd mewn sefyllfa i wneud cynnydd o'r fath.

Mewn rhai awdurdodau lleol, gwnaed cynnydd cyfyngedig. Mewn nifer bychan iawn o'r rhain, nid oedd fawr ddim tystiolaeth o unrhyw ymrwymiad i gydlyniant cymunedol gan y swyddog arweiniol na'r partneriaid lleol, na chwaith ddiddordeb mewn

hyrwyddo'r agenda. Mewn eraill, fodd bynnag, cynnydd cyfyngedig a wnaed er gwaethaf ymdrechion gorau'r swyddog arweiniol, a oedd wedi gwneud popeth o fewn ei (g)allu i hyrwyddo'r agenda ar sail adnoddau cyfyngedig ac yn wyneb dealltwriaeth neu ddiddordeb cyfyngedig ymhlith cydweithwyr awdurdod lleol a swyddogion partneriaid sector statudol, gwirfoddol a chymunedol. Yn aml, ni allai cydweithwyr mewn meysydd polisi eraill (yn cynnwys tai, iechyd ac addysg) weld perthnasedd eu gwaith eu hunain i gydlyniant cymunedol, neu nid oeddent yn rhoi blaenoriaeth i faterion cydlyniant. Mewn nifer bach o awdurdodau awgrymodd y swyddog arweiniol fod y partneriaid lleol yn dal yn gymharol anghyfarwydd â'r term, a bod hynny'n rhwystr sylweddol i brif-ffrydio cydlyniant. Mynegodd un y farn bod "*diffyg gwybodaeth am yr agenda cydlyniant cymunedol, ac nid yw llawer o bobl yn gyfarwydd â'r ymadrodd cydlyniant cymunedol*".

Daeth methiant strategaethau lleol a chenedlaethol i roi lle amlwg i gydlyniant cymunedol fel blaenoriaeth hefyd i'r golwg fel rhwystr i brif-ffrydio, fel y dengys y sylwadau canlynol:

"[mae'n anodd] eu darbwyllo i'w drin, nid fel rhywbeth ychwanegol yn unig, ond fel rhywbeth sydd i'w integreiddio i'w prif bolisiau".

"Lluniwyd y strategaeth [genedlaethol] gyda phrif-ffrydio mewn golwg, felly nod y pedair blaenoriaeth yw dod â'r meysydd gwasanaeth allweddol a allai ymdrin â materion cysylltiedig â chydlyniant cymunedol at ei gilydd i un man. Ond mewn gwirionedd, does dim cyfeiriad at y strategaeth gydlyniant yn y strategaeth tai a'r strategaeth cydraddoldebau ac anabledd, felly dyw popeth ddim wedi ei gydgysylltu, ydy e? O'r hyn rwy'n ei deimlo, mae'r bwriadau'n rhai da, roedden nhw'n ceisio hybu dull mwy cydlynus o ymdrin â chydlyniant, ond mewn gwirionedd dyw hynny ddim mewn gwirionedd yn cael ei raeadru"

Cafwyd bod capasiti cyfyngedig wedi llesteirio ymdrechion swyddogion arweiniol yn sylweddol i hybu cydlyniant cymunedol ymhlith partneriaid, ac adlewyrchwyd hynny yn y ffaith bod asiantaethau eraill yn esgeuluso materion cydlyniant cymunedol yn eu gweithgareddau a'u strategaethau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos awdurdodau bychain (gwledig yn nodweddiadol), nad oedd ganddynt ond nifer bach o staff. Ni allai swyddogion arweiniol fforddio rhoi o'u hamser i gwrdd â grwpiau na mynychu cyfarfodydd oddi mewn i'r awdurdod lleol a'r tu allan iddo, er bod hynny'n rhywbeth y bernid ei fod yn hollbwysig i'w hymdrechion i hybu prif-ffrydio. Rhesymau tebyg oedd yn gyfrifol am y presenoldeb cyfyngedig yn y grŵp cydlyniant cymunedol rhanbarthol, er nad oedd pwysigrwydd cymharol capasiti cyfyngedig yn erbyn diddordeb/ymrwymiad cyfyngedig i'r agenda (oedd hefyd i'w weld mewn rhai awdurdodau - gweler Adran 5.3) bob amser yn eglur.

Cafwyd bod tri ffactor yn hollbwysig er mwyn esbonio pam roedd rhai swyddogion cydlyniant cymunedol arweiniol yn cael mwy o lwyddiant wrth hybu prif-ffrydio cydlyniant cymunedol yn eu hawdurdod lleol. *Yn gyntaf*, fel y nodwyd uchod, roedd gweithgaredd prif-ffrydio a chynnydd yn hynny o beth yn ystod y tair blynedd ers lansio *Cymru'n Cyd-dynnu* yn fwy amlwg mewn awdurdodau lle roedd swyddog arweiniol penodedig ar gyfer cydlyniant cymunedol. *Yn ail*, bu cefnogaeth benodol gan Arweinydd y cyngor, y Prif Swyddog Gweithredol, uwch swyddog â chyfrifoldeb am gydlyniant ac uwch swyddogion gwahanol adrannau yn benderfynedd allweddol ynghylch a oedd cydweithwyr mewn gwahanol feysydd polisi yn barod i ymgysylltu

â'r agenda ac ymrwymo iddi. *Yn drydydd*, roedd swyddogion arweiniol Cydlyniant Cymunedol oedd â chysylltiadau sefydledig a pherthynas waith â chydweithwyr mewn gwahanol adrannau o'r awdurdod lleol wedi cael mwy o lwyddiant yn prif-frydio cydlyniant cymunedol i fusnes craidd meysydd polisi eraill.

5.11 Diwedd glo

Amcan trosfwaol *Cymru'n Cyd-dynnu* yw cryfhau cydlyniant cymunedol yng Nghymru, gan ddatganoli'r prif gyfrifoldeb am gyflwyno hynny i lefel lleol. Gyda chefnogaeth cyngor ac arweiniad yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, y nod oedd bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ymrwymo i'r agenda cydlyniant cymunedol ac yn ei hybu, gan roi gweithgareddau cydlyniant ar waith ar lefel lleol.

Ar lawer ystyr, mae hynny wedi'i gyflawni. Gwnaed cynnydd sylweddol yn lleol i hybu a gwella cydlyniant cymunedol. Mae swyddogion Cydlyniant Cymunedol wedi ymgysylltu â phartneriaid gwirfoddol a statudol, wedi sicrhau eu hymrwymiad i'r agenda, ac wedi eu darbwylo o ran ym mha ffyrdd mae cydlyniant yn berthnasol i'w maes polisi a'r gwaith y maent yn ei wneud. Mae cannoedd o brosiectau lleol wedi cael eu datblygu, gyda chefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, sydd wedi ymdrin â heriau cydlyniant. Y ffactorau llwyddiant hanfodol oedd: adnoddau a chapasiti penodedig (y Gronfa a swyddog penodedig); ymdrechion i fapio cymunedau ac anghenion lleol, gan arwain at ddealltwriaeth soffistigedig o natur materion cydlyniant yn lleol; Cefnogaeth ar lefel uwch a chan y weithrediaeth; a fframwaith strategol (cynllun gweithredu neu strategaeth) i dywys gweithgareddau lleol a gwariant o'r Gronfa.

Roedd y darlun yn amrywio, fodd bynnag. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cryn bellter i fynd o hyd er mwyn ymdrin mewn modd cydgysylltiedig a strategol â chydlyniant ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, ni wnaed ymdrech i fapio a deall materion cydlyniant yn systematig, i gytuno ar flaenoriaethau cydlyniant nac i gomisiynu prosiectau lleol er mwyn ymdrin â blaenoriaethau cytunedig. Bydd angen i'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol newydd ymdrechu o ddifrif o dan amgylchiadau o'r fath i sicrhau hymrwymiad i'r agenda Cydlyniant Cymunedol.

6 Ymyriadau Lleol ac Effeithiau

Canfyddiadau Allweddol

- cefnogwyd mwy na 600 o brosiectau lleol gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol rhwng 2009/10 a 2011/12
- roedd mwyafrif prosiectau'r astudiaethau achos yn ymdrin â blaenoriaethau cydlyniant lleol, ond nid oedd tystiolaeth o fwy na chysylltiadau gwan iawn â *Cymru'n Cyd-dynnu* yn achos tri o'r 10.
- roedd prosiectau'r astudiaethau achos a oedd yn mynd ati'n weithredol i brif-ffrydio cydlyniant cymunedol yn parhau'n hwy, ac ar raddfa fwy na phrosiectau eraill
- daeth prif-ffrydio cydlyniant i'r amlwg fel canlyniad anfwriadol i rai prosiectau
- darparodd saith o blith 10 prosiect yr astudiaethau achos dystiolaeth o ychwanegolrwydd, gan ymdrin â materion a chyflawni allbynnau a fuasai yn annhebygol o ddigwydd heb gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol
- adroddwyd bod holl brosiectau'r astudiaethau achos wedi cael effaith gadarnhaol, ac ymddangosai eu bod wedi hybu cydlyniant cymunedol ar lefel leol
- roedd prif gyflawniadau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol a nodwyd gan swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol yn cynnwys: mwy o ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol oddi mewn i'r awdurdod lleol ac ymhlith cyrff lleol gwirfoddol a chymunedol; gwell capasiti a chyfranogiad gan y gymuned; gwell cysylltiadau cymunedol ac agweddau mwy cadarnhaol at amrywiaeth a gwahaniaeth; a mynd i'r afael â phryder pwysig ynghylch cydlyniant

6.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn edrych ar gyflwyniad ac effaith y prosiectau lleol a'r ymyriadau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, asiantaethau statudol eraill a chyrrff trydydd sector ledled Cymru. Mae'r drafodaeth yn cychwyn drwy adolygu'r prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol rhwng 2009/10 a 2011/12. Wedyn eir ymlaen i adolygu a dod i gasgliadau ynghylch cyflwyniad ac effaith prosiectau a seiliwyd ar werthusiad o 10 prosiect astudiaethau achos. Dewiswyd y sampl hwn er mwyn cynnwys prosiectau oedd yn ymdrin â themâu allweddol a nodwyd yn *Cymru'n Cyd-dynnu* ac a oedd yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd awdurdod lleol ledled Cymru. Roedd maint a graddfa'r prosiectau yn amrywio, o ddigwyddiad untro i ddod ag ymfudwyr newydd a thrigolion sefydledig at ei gilydd, i gyllido swyddog cydlyniant cymunedol lleol penodedig. Amlinellir manylion y prosiectau a'r prif gyflawniadau yn Nhabl 6.3.

6.2 Trosolwg o Brosiectau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol

Rhwng 2009/10 a 2011/12 derbyniodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ddyraniad blynyddol o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol (mae Tabl 6.1 yn cyflwyno'r dyraniadau ar gyfer 2011/12). Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, cyflwynodd awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â phartneriaid lleol, gynigion i'r Uned Cydlyniant Cymunedol ynghylch y prosiectau lleol roeddent yn bwriadu eu cefnogi trwy eu dyraniad o'r Gronfa. Adolygwyd y cynigion hyn gan yr Uned, a chawsant eu derbyn neu eu gwrthod. Yn nodweddiadol, cymeradwywyd mwyafrif y prosiectau, ond roedd achosion pryd y gwrthodwyd prosiectau lluosog. Yn 2011/12, er enghraifft, gwrthodwyd 9 o blith 19 prosiect a gynigiwyd gan un awdurdod lleol gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol. Ni wariodd pob awdurdod lleol eu dyraniad blynyddol o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn llawn.

Tabl 6.1: Dyraniadau o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i Awdurdodau Lleol (2011/12)

Awdurdod Lleol	Dyraniad o'r Gronfa
Blaenau Gwent	£83,388
Pen-y-bont ar Ogwr	£52,523
Caerffili	£117,757
Caerdydd	£173,510
Sir Gaerfyrddin	£73,549
Ceredigion	£32,643
Conwy	£43,161
Sir Ddinbych	£31,882
Sir y Fflint	£52,229
Gwynedd	£50,510
Merthyr Tydfil	£64,292
Sir Fynwy	£24,378
Castell-nedd Port Talbot	£96,586
Casnewydd	£84,947
Sir Benfro	£36,258
Powys	£44,986
Rhondda Cynon Taf	£159,139
Abertawe	£126,552
Torfaen	£34,786
Bro Morgannwg	£35,050
Wrecsam	£50,290

Cefnogwyd mwy na 600 o brosiectau lleol gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol rhwng 2009/10 a 2011/12. Ariannwyd mwyafrif y rheiny o dan thema cydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol *Cymru'n Cyd-dynnu* (Tabl 6.2). Defnyddiodd awdurdodau lleol y Gronfa mewn gwahanol ffyrdd. Penderfynodd rhai ariannu llawer o brosiectau bach. Cefnogodd un awdurdod lleol yn 2011/12, er enghraifft, 22 o brosiectau trwy'r Gronfa, a'r dyraniad mwyaf a wnaed i brosiect unigol oedd £6,100 i

brosiect mewn ysgol leol. Yn y pegwn arall roedd awdurdodau lleol a ddyrannodd fwyafrif arian y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, os nad y cyfan, i gyllido swyddog cydlyniant cymunedol penodedig. Daeth pwyslais cynyddol ar ariannu prosiectau strategol a chysylltiedig â dysgu, megis swyddog cydlyniant penodedig, i'r amlwg yn ystod tair blynedd y Gronfa.

Tabl 6.2: Prosiectau a Gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol (2009/10-2011/12)

Thema'r Prosiect	2009-10	2010-11	2011-12*
	Nifer y prosiectau	Nifer y prosiectau	Nifer y prosiectau
Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol	140	106	97
Cyfathrebu	24	32	22
Dysgu	26	27	35
Strategaeth	0	21	24
Prevent	8	13	9
Tai	14	11	9
Cyfanswm	212	210	196

Datgelodd dadansoddiad o'r prosiectau a ariannwyd yn 2010/11 fod y mwyafrif yn cyfateb i flaenoriaethau cydlyniant cymunedau lleol a nodwyd gan yr arweinydd cydlyniant lleol. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad yn awgrymu nad oedd y prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol mewn wyth awdurdod lleol yn cyfateb yn dda i flaenoriaethau cydlyniant lleol. Nid oedd mwyafrif yr awdurdodau lleol hyn wedi datblygu cynllun gweithredu cydlyniant cymunedol i dywys ymdrechion lleol i hybu cydlyniant cymunedol.

6.3 Sylw i Flaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol

Rheswm allweddol dros werthuso sampl o brosiectau'r astudiaethau achos a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol oedd archwilio effeithiau lleol yr agenda cydlyniant cymunedol ac i ba raddau roedd blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* wedi rhaeadru i lawr er mwyn hysbysu gweithgareddau ar lefel leol. Roedd pob un o'r 10 prosiect astudiaethau achos yn ymdrin â blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* ac ymddangosai fod deilliannau'r prosiectau hynny yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol (gweler adran 6.6) Ni ddylai rhoi sylw i flaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* achosi unrhyw syndod. Sicrhaodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol ei fod yn gwbl glir yn y canllawiau ar y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a roddwyd i awdurdodau lleol y dylai ceisiadau ymdrin yn uniongyrchol â blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* ac y byddai cynlluniau gwariant lleol yn cael eu cymeradwyo ar y sail honno. Fodd bynnag, o edrych yn fanylach gwelwyd bod y cysylltiadau hyn yn wan ac o hirbell braidd mewn rhai achosion, ac na roddwyd fawr ddim sylw i flaenoriaethau cydlyniant lleol.

Roedd 6 o'r 10 prosiect astudiaethau achos yn ymdrin yn uniongyrchol â blaenoriaethau cydlyniant lleol, y manylwyd arnynt mewn cynllun gweithredu neu strategaeth ar gyfer cydlyniant cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau a ddatblygwyd mewn ymateb i bryderon cydlyniant a oedd yn dod i'r amlwg a

phrosiectau a oedd yn fwy strategol eu hamcanion, gan geisio, er enghraifft, atal problemau cydlyniant neu brif-ffrydio cydlyniant i bolisi ac arfer lleol. Bu presenoldeb swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, a oedd yn meddu ar ddealltwriaeth o faterion cydlyniant lleol ac yn gallu treulio amser yn ymgysylltu ag asiantaethau ac yn meithrin prosiectau a oedd yn ymdrin yn uniongyrchol â blaenoriaethau strategol, yn allweddol i ddatblygiad y prosiectau hyn. Yn aml byddai swyddogion yn parhau i gynnig cefnogaeth yn ystod cyfnod cyflwyno'r prosiect, gan helpu i sicrhau bod prosiectau'n cadw at yr amserlen ac yn cyflawni yn unol â'r blaenoriaethau. Arweiniodd yr ymwneud parhaus hwn at gronni gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch beth sy'n gweithio, ble a phryd, wrth fynd i'r afael â heriau lleol a hybu cydlyniant. Sicrhaodd dau awdurdod lleol hefyd fod prosiectau'n rhoi sylw i flaenoriaethau cydlyniant trwy ofyn bod pob ymgeisydd yn darparu tystiolaeth yn eu cais ynghylch sut roedd eu cynnig yn cydweddu â blaenoriaethau cydlyniant lleol, yn ogystal â rhai cenedlaethol.

Mewn cyferbyniad, methodd tri phrosiect ag ymdrin yn uniongyrchol â blaenoriaethau cydlyniant lleol, heb ddarparu tystiolaeth o fwy na chysylltiadau o hirbell â *Cymru'n Cyd-dynnu*. Datblygwyd a chyflwynwyd pob un o'r tri phrosiect yma mewn ardaloedd awdurdod lleol lle nad oedd strategaeth na chynllun gweithredu ar gyfer cydlyniant lleol. Nid oedd y blaenoriaethau cydlyniant lleol, felly, wedi cael eu diffinio'n glir. Roedd pob un o'r tri yn brosiectau a oedd eisoes yn bodoli, a gwnaed cais am gefnogaeth o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol mewn ymateb i ddiffyg ariannol. Roedd yr asiantaeth statudol a oedd yn cyflwyno un o'r prosiectau hyn wedi dod yn ymwybodol o'r Gronfa yn rhinwedd ei haelodaeth o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Cafodd ei hannog i wneud cais pan ddaeth yn amlwg fod y Bartneriaeth yn cael anhawster i wario ei dyraniad o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Roedd y prosiect yn cydweddu â blaenoriaethau'r Bartneriaeth. Cyflwynwyd y ddau brosiect arall gan asiantaeth trydydd sector, a anogwyd i wneud cais i'r Gronfa gan yr arweinydd lleol ar gydlyniant cymunedol. Ymddangosai fod y swyddog arweiniol yn yr awdurdod gwledig hwn yn gweithio oddi mewn i ddiffiniad cul iawn o gydlyniant cymunedol, a oedd yn canolbwyntio ar faterion hil ac ethnigrwydd, a nodwyd yr asiantaeth fel un o'r ychydig yn yr ardal oedd yn gweithio gyda thrigolion o leiafrifoedd ethnig. Sicrhaodd y gefnogaeth a dderbyniwyd ddyfodol uniongyrchol dau brosiect yn gweithio gydag ymfudwyr newydd. Roedd y rhain wedi bod yn cael trafferth sicrhau cyllid, a datgelwyd eu bod yn darparu gwasanaeth pwysig. Fodd bynnag, datgelodd trafodaethau gyda staff eu bod yn aneglur ynghylch amcanion penodol y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ac yn ei hystyried yn ddim mwy na ffynhonnell ariannol arall.

Roedd y prosiect astudiaeth achos arall rywle rhwng y ddau eithaf, o ran y sylw a roddwyd i flaenoriaethau cydlyniant lleol a chenedlaethol. Datblygwyd y prosiect gan bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf mewn ymateb i densiynau a chamddealltwriaeth rhwng y cenedlaethau, a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer cydlyniant lleol gan weithwyr prosiect. Ymddangosai fod yr ymgynghori â'r staff a nododd y blaenoriaethau hyn wedi cael gynnal yn benodol er mwyn hysbysu cais y bartneriaeth i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, canfyddiad sy'n darparu tystiolaeth bellach o'r rôl a chwaraewyd gan y Gronfa o ran hybu ymgysylltu â'r agenda ar lefel lleol. Roedd y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ymwybodol, o dan delerau ac amodau'r Gronfa, fod rhaid i 50 y cant o'r holl gefnogaeth gael ei ddyrannu er budd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan eu rhoi mewn sefyllfa gref i sicrhau

cefnogaeth o'r Gronfa. Nid oedd strategaeth na chynllun gweithredu ar gyfer cydlyniant cymunedol lleol i sicrhau cyfatebiaeth rhwng y cais a hwy, ond roedd y prosiect yn cydweddu â blaenoriaethau'r Cynllun Diogelwch Cymunedol lleol, gan gyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â difrod i'r amgylchedd awyr agored, a lleihau ofn troseddu. Adroddodd y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf hefyd am adolygu *Cymru'n Cyd-dynnu* wrth ddatblygu'r cynnig a nodi synergeddau rhwng eu cynnig a'r blaenoriaethau a nodwyd ym mhenodau *Cymru'n Cyd-dynnu* ar gydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol, tai a dysgu.

Astudiaeth Achos 1: Y Fenter Rhwng y Cenedlaethau

Derbyniodd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yng Ngogledd Cymru arian o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gynnal cyfres o weithgareddau gyda'r nod o hybu dealltwriaeth a mwy o oddefgarwch rhwng trigolion iau a hŷn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys 95 o gyfranogwyr, a chrewyd tîm o 11 o oedolion yn fentoriaid, gydag amrywiaeth o sgiliau er mwyn ymgysylltu â thrigolion iau a hŷn. Derbyniwyd cyllid yn gyntaf yn 2009/10 a gwnaed cais pellach i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn 2010/11 i gyllido gweithiwr prosiect am chwe mis (£16,865). Arweiniodd y gweithiwr prosiect gyfres o weithgareddau gyda'r nod o greu cyfleoedd i drigolion hen ac ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd a rhannu eu sgiliau a'u profiadau. Roedd y partneriaid yn cynnwys y coleg lleol, yr Ysgol Uwchradd, yr Heddlu, Gwasanaethau Ieuencid y Cyngor, Tîm Datblygu'r Strategaeth Pobl Hŷn a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- archwiliad sgiliau cymunedol i ganfod materion yr oedd angen help ar bobl leol gyda nhw, a ffyrdd y gallai trigolion eraill helpu
- deialog rhwng yr hen a'r ifanc ar faterion oedd yn effeithio ar y gymdogaeth (wedi'i chyflwyno mewn partneriaeth â'r Cyngor ac ysgolion lleol)
- diwrnodau hyfforddi TGCh ar y cyd â darparwyr hyfforddiant lleol, lle roedd pobl iau yn helpu pobl hŷn gyda hyfforddiant cyfrifiadurol
- gweithgareddau gwaith coed, lle roedd yr hen a'r ifanc yn cydweithio i adeiladau blychau adar a chynwysyddion planhigion
- diwrnod 'pampro' ar gyfer gwirfoddolwyr hŷn, wedi'i ddarparu gan bobl ifanc gyda chymorth y Coleg Addysg Bellach lleol
- sesiynau codi sbwriel wedi'u trefnu gan bobl ifanc o amgylch cartrefi pobl hŷn yn yr ardal
- prosiect cynnal a chadw beiciau, lle bu gwirfoddolwyr lleol yn helpu pobl ifanc i atgyweirio a chynnal beiciau. Darparwyd y beiciau ail-law gan yr Heddlu, ac fe'u rhoddwyd i'r bobl ifanc a fu yn eu trwsio
- cinio i'r cenedlaethau, lle bu trigolion iau a hŷn yn paratoi bwyd ac yn gweini ar ei gilydd
- datblygu pecyn offer ar gyfer prosiectau i'r cenedlaethau yn y dyfodol

Barn y buddiolwyr oedd bod y prosiectau yn llwyddiannus a bod ymwneud â hwy yn brofiad dymunol. Awgrymodd y buddiolwyr a'r gweithwyr prosiect y cynhaliwyd cyfweiliad â hwy fod y canlyniadau yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth a rennir o

brofiadau beunyddiol gwahanol genedlaethau, a bod y cyfle i chwarae rhan mewn gweithgareddau ar y cyd wedi bod yn brofiad cadarnhaol.

O ddiddordeb arbennig roedd cyfres o weithdai lle bu'r hen a'r ifanc yn mapio eu canfyddiadau o'i gilydd trwy waith mewn grwpiau ac arolygon canfyddiad, cyn gweithio i chwalu mythau, cael hyd i dir cyffredin, a rhannu profiadau. Yn ystod un sesiwn, canfu pobl iau a hŷn fod ganddynt nifer o brofiadau negyddol yn gyffredin. Nododd yr ymarferiad hefyd newidiadau yr hoffai'r grŵp eu gweld yn eu bywydau neu eu cymdogaeth. Roedd hyn yn dilyn fformwla 'nod, cynllun, astudiaeth, gwneud, gweithredu' er mwyn sicrhau bod aelodau'r grŵp yn ymarferol yn eu disgwyliadau cyflawniad, ynghylch y rhwystrau tebygol, ac wedi meddwl am y ffordd orau o gyflawni hynny. Ar ddiwedd y prosiect, defnyddiwyd yr un arolwg gan y grŵp, a gwelwyd yn sgîl hynny fod agweddau negyddol wedi cael eu gwyrddroi.

Awgrymodd cyfweiliadau gyda gweithwyr prosiect a buddiolwyr a thystiolaeth o'r data monitro a gasglwyd gan Cymunedau yn Gyntaf fod nifer o ganlyniadau eraill yn deillio o'r prosiectau rhwng y cenedlaethau, sef:

- bod nifer o bobl ifanc wedi dod yn wirfoddolwyr lleol, a bod nifer hefyd wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddi mewn cyfrifiaduron a gwaith paentio ac addurno yn y coleg AB lleol
- dechreuodd nifer o'r bobl hŷn ymwneud yn fwy â gweithgareddau/prosiectau cymunedol eraill yn yr ardal, ac felly roeddent yn trosglwyddo eu sgiliau a'u profiadau i bobl iau
- soniodd nifer o gyfranogwyr hŷn am welliannau i'w hiechyd a'u lles o ganlyniad i ymwneud yn fwy â gweithgareddau a phrosiectau lleol
- bu'r prosiect yn ymgysylltu â thrigolion hen ac ifanc oedd heb gyswllt blaenorol â Chymunedau yn Gyntaf.

6.4 Prif-ffrydio Cydlyniant Cymunedol

Roedd prif-ffrydio cydlyniant cymunedol yn nod penodol i ddau brosiect astudiaeth achos. Roedd y prosiectau hyn yn hwy ac yn fwy o faint (o ran ariannu) na'r prosiectau astudiaethau achos eraill. Mae prif-ffrydio yn golygu uno egwyddorion a blaenoriaethau'r agenda cydlyniant cymunedol ag ymwybyddiaeth dorfol sefydliadau fel bod cyfrifoldeb dros adeiladu cydlyniant yn cael ei wreiddio yn eu dyletswyddau a'u swyddogaethau pob dydd. Ceisiai un prosiect astudiaeth achos brif-ffrydio cydlyniant trwy benodi swyddog cydlyniant cymunedol penodedig. Roedd hon yn un o nifer o ardaloedd a benderfynodd wario eu dyraniad o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol ar swyddog penodedig.

Sicrhawyd cyflawniadau nodedig gan swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig, sydd yn aml wedi cyfuno cyfrifoldebau strategol a rheng flaen. Bu ganddynt rôl hanfodol yn y gwaith o hybu prif-ffrydio cydlyniant cymunedol ym mholisi ac ymarfer asiantaethau lleol, yn ogystal ag annog rhoi sylw i heriau cydlyniant penodol. Mae effeithiolrwydd swyddog penodedig yn dibynnu'n anochel ar ei sgiliau a'i nodweddion unigol. Cafwyd bod mwyafrif llethol y swyddogion penodedig y cynhaliwyd cyfweiliad â hwy ledled Cymru yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gymunedau lleol a pherthnasoedd gwaith da gyda chydweithwyr ar draws yr awdurdod lleol ac mewn

asiantaethau partner. Roedd hynny'n bendant yn wir yn achos yr astudiaeth achos hon.

Astudiaeth Achos 2: Swyddog Cydlyniant Cymunedol Penodedig

Penodwyd y Swyddog Cydlyniant Cymunedol i yrru'r broses o gyflwyno'r cynllun gweithredu ar gyfer cydlyniant cymunedol lleol, a oedd eisoes yn ei lle, yn ei blaen. Gwaith y swyddog oedd cynyddu ymwybyddiaeth o'r strategaeth oddi mewn i'r awdurdod lleol ac ar draws asiantaethau statudol a thrydydd sector yn yr ardal. Cyflwynwyd yr amcan hwn trwy gyfuniad o ddyletswyddau ar lefel strategol ac ar lawr gwlad, allan yn y gymuned. Roedd y cyfrifoldebau strategol yn cynnwys:

- cynyddu ymwybyddiaeth o flaenoriaethau cydlyniant a rhoi sylw iddynt o fewn y cyngor
- cysylltu â phartneriaethau strategol lleol i hybu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r agenda cydlyniant a'r cynllun gweithredu lleol
- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r agenda ymhlith grwpiau gwirfoddol a chymunedol, er enghraifft, trwy ddatblygu pecyn hyfforddi, cyflwyniadau, posteri a gwybodaeth ar y we
- adolygu strategaeth a chynllun gweithredu Prevent gyda chydweithwyr yn yr Heddlu
- cydgysylltu a gwasanaethu'r fforwm cydlyniant cymunedol lleol

Nid oedd cyfuno cyfrifoldebau strategol a gweithrediadol yn anghyffredin ymhlith swyddogion cydlyniant penodedig. Adroddodd swyddog mewn awdurdod lleol arall am drawstoriad tebyg o gyfrifoldebau, yn amrywio o arwain ymdrechion i brif-ffrydio cydlyniant cymunedol o fewn yr awdurdod lleol i gyfryngu cymunedol mewn anghydfod rhwng cymdogion, mewn ymateb i amcan penodol yn y cynllun gweithredu cydlyniant.

Soniodd buddiolwyr yn yr awdurdod lleol, gwasanaethau statudol eraill a chyrrff trydydd sector am fanteision niferus a oedd wedi deillio o waith y swyddog penodedig. Elfen allweddol ymhlith y rhain oedd rôl y swyddog yn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r agenda cydlyniant cymunedol a blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu o fewn yr awdurdod lleol ac ar draws asiantaethau eraill oedd yn gweithio yn yr ardal leol. Adroddodd arolygydd Heddlu a oedd yn aelod o'r fforwm cydlyniant cymunedol lleol fod y swyddog wedi chwarae rôl amhrisiadwy trwy hysbysu gwaith y grŵp a'i yrru yn ei flaen, a chadw cydlyniant cymunedol ar yr agenda ar lefel leol.

Roedd y prosiect astudiaeth achos arall oedd â brîff prif-ffrydio penodol yn canolbwyntio ar y sector addysg. Roedd cyfatebiaeth agos rhwng y prosiect a blaenoriaethau *Cymru'n Cyd-dynnu* a'r strategaeth cydlyniant cymunedol leol. Fe'i datblygwyd yn wreiddiol mewn ymateb i dystiolaeth oedd yn deillio o ddadansoddiad o anghenion yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd, a gynhaliwyd gan yr arweinydd penodedig ar gyfer cydlyniant cymunedol. Datgelodd y dadansoddiad ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o arfer da ynghylch sut i ddelio ag ystod o faterion y gwyddid eu bod yn hysbysu lefelau cydlyniant ymhlith pobl ifanc, yn cynnwys hiliaeth, aflonyddu a bwlio. Mewn ymateb, ceisiai'r prosiect gynyddu ymwybyddiaeth a hybu arfer da trwy gynnal cyfres o weithdai i athrawon a

staff gofal bugeiliol o'r holl ysgolion lleol, yn ogystal â swyddogion lles addysg, gweithwyr ieuencid a chyrrff trydydd sector oedd yn gweithio gyda phobl ifanc.

Un o nodweddion trawiadol yr astudiaeth achos hon oedd yr ymrwymiad a sicrhawyd gan ystod o asiantaethau statudol a thrydydd sector, a bu hynny'n hanfodol ar gyfer ymdrechion i brif-ffrydio cydlyniant cymunedol ym mholisi ac arfer asiantaethau oedd yn gweithio gyda phobl ifanc. Ymddengys bod pedwar ffactor yn helpu i esbonio'r llwyddiant hwn:

- roedd y prosiect yn ymateb i flaenoriaethau a phryderon a godwyd gan ysgolion lleol ac asiantaethau eraill a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc
- roedd proffil uchel i'r agenda cydlyniant cymunedol eisoes yn yr ardal. Roedd yr awdurdod lleol wedi mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r agenda, roedd arweinydd cydlyniant penodedig eisoes yn ei swydd, roedd cydlyniant cymunedol wedi cael ei fapio a'i fonitro, ac roedd strategaeth gydlyniant wedi cael ei lansio
- fel y trafodwyd ym Mhennod 4, mae ysgolion yn darparu lleoliad y mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cwrdd ac yn cymysgu ynddo. Maent felly yn y rheng flaen o ran ymdrechion i reoli a chyfyngu ar yr heriau a all godi o dan amgylchiadau o'r fath. Maent hefyd yn darparu cyd-destun delfrydol ar gyfer hybu gwell dealltwriaeth a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. Ers cryn amser, felly, cydnabuwyd bod gan ysgolion rôl i'w chwarae o ran hybu cydlyniant cymunedol
- roedd y prosiect yn cydweddu â gwaith Llywodraeth Cymru ac yn ei ategu, gan ei fod yn nodi addysg fel maes blaenoriaeth oddi mewn i'r cynllun gweithredu a oedd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Fel y trafodwyd ym Mhennod 4, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil yn edrych ar farn penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion ynghylch cydlyniant cymunedol ym maes addysg yng Nghymru. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru yn 2010 gyda'r sectorau addysg bellach ac uwch ar Prevent a chydlyniant cymunedol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau adborth a sylwadau. Bu'r wybodaeth hon yn hysbysu'r gwaith o gynhyrchu canllawiau a dogfen arfer da gan Lywodraeth Cymru i helpu ysgolion gyda'u cyfrifoldeb i hybu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011. O ganlyniad, cydnabu pobl oedd yn gweithio yn y sector addysg berthnasedd yr agenda cydlyniant cymunedol i'w gwaith, ac roeddent yn sgîl hynny yn awyddus i fynychu'r digwyddiadau.

Astudiaeth Achos 3: Pobl Ifanc a Chydlyniant mewn Ysgolion

Datblygwyd y prosiect ac fe'i harweiniwyd gan y swyddog cydlyniant cymunedol. Bu hynny o gymorth i sicrhau perthnasedd i flaenoriaethau cydlyniant lleol a chenedlaethol. Darparodd y prosiect gwreiddiol weithdai di-dâl a oedd yn ymdrin â materion yn cynnwys:

- gweithdy delio gyda Bwlio
- cydraddoleb yn ysgolion Cymru

- adrodd am ddigwyddiadau hiliol ac enghreifftiau eraill o fwlio ac ymateb iddynt
- dangos DVD Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a thrafodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio adnoddau cysylltiedig yn y dosbarth
- syniadau ar gyfer gwersi gwrth-hiliaeth ac ABCh ar thema parch
- delio gyda therminoleg a galw enwau

Gwahoddwyd pob ysgol yn yr awdurdod lleol i fod yn bresennol. Adroddwyd bod y cyfranogwyr wedi cynnwys athrawon, swyddogion lles, swyddogion cyswllt ysgolion, swyddogion cymorth bugeiliol a swyddogion amddiffyn plant. Wedi hynny, estynnwyd y prosiect i gynnwys rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys gweithwyr ieuenctid a'r Heddlu.

Roedd y gweithdy gwreiddiol yn lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydlyniant cymunedol. Roedd hefyd yn fodd i nodi'r materion allweddol yr oedd ysgolion ac asiantaethau eraill yn cael trafferth i ddelio â hwy, yn arbennig hiliaeth a bwlio. Mewn ymateb, datblygwyd rhaglen ehangach o ddigwyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdai a chynadledau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar hiliaeth a bwlio.

Mae cysylltiadau sefydliadol y 366 o gynrychiolwyr a fu'n mynychu un digwyddiad arbennig yn rhoi cipolwg ar yr amrywiaeth o sefydliadau a buddiannau oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen:

- | | |
|---------------------------|---|
| • ysgolion cynradd | • cyngor gwirfoddol |
| • ysgolion uwchradd | • Swyddogion Lles Addysg |
| • coleg a phrifysgol | • Cymorth i Fenywod |
| • Gweithwyr Ysgolion Iach | • Cymorth i Ddiodefwyr |
| • Troseddau Ieuenctid | • Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| • YMCA | • Ymddiriedolaeth Terrence Higgins |
| • Atal Troseddu | • Tîm Tai yr Awdurdod Lleol |
| • Cynghorwyr | • Y Gwasanaeth Ieuenctid |
| • Gofalwyr | • corff o'r sector ieuenctid gwirfoddol |
| • cymdeithasau tai | • Bwrdd Iechyd |
| • Yr Heddlu | • Grŵp Cydlyniant Rhanbarthol |
| • Cymunedau yn Gyntaf | • Cymorth Integredig i Deuluoedd |
| • elusen cydraddoldeb hil | • Adnoddau Dynol ALI |

Gadawodd y cynrychiolwyr y sesiynau gweithdy ag adnoddau, yn cynnwys gwybodaeth ac offer a luniwyd i helpu i gynllunio gweithredu a chanllawiau mwy ymarferol, megis pecynnau gwersi i athrawon.

Soniodd cynrychiolwyr a fu'n mynychu un o'r digwyddiadau yn gadarnhaol am y profiad. Adroddwyd ei fod wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a chyfle i ddysgu o brofiadau pobl eraill. Adroddwyd hefyd ei fod yn gyfle i ddal i fyny â materion lleol a rhychwantu cydweithio posibl ar brosiectau yn y dyfodol. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn croesawu'r cyfle i gael gwybodaeth ymarferol uniongyrchol ar sut mae ymdrin â sefyllfaoedd go iawn.

Nid oedd nifer o brosiectau astudiaethau achos eraill wedi cychwyn gydag amcan penodol o brif-ffrydio cydlyniant cymunedol, ond buont yn fodd i gynyddu ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r agenda cydlyniant cymunedol oddi mewn i bolisi ac ymarfer prif-ffrwd. Un enghraifft oedd prosiect a oedd yn darparu gwaith ymchwil a dadansoddi, gan helpu i hybu mwy o ddealltwriaeth ac ymatebolrwydd ymhlith darparwyr gwasanaethau lleol i flaenoriaethau'r boblogaeth leol o ymfudwyr. Enghraifft arall oedd prosiect a fu o gymorth i gynnwys cymdeithas gymunedol Fwslimaidd yn y bartneriaeth cydlyniant cymunedol leol a gwella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a sylw yng nghyswllt y boblogaeth hon oddi mewn i waith y grŵp.

6.5 Ychwanegolrwydd

Mewn tri achos ymddangosai bod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol wedi cael ei hystyried yn ddim mwy na ffynhonnell ariannol y gellid ei defnyddio i helpu i gynnal prosiectau oedd eisoes yn parhau. Nid diben hyn yw awgrymu nad oedd y prosiectau hynny'n gwneud cyfraniad pwysig i'r broses o hybu cydlyniant cymunedol, ond yn hytrach gwestiynu eu hychwanegolrwydd. Roedd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol wedi disodli ffynonellau ariannu eraill yn hytrach nag ychwanegu atynt, ac nid oedd yr effaith gronol ar gydlyniant wedi cael ei gwella; nid oedd ychwanegolrwydd ymddangosiadol.

Darparodd y saith prosiect astudiaeth achos arall dystiolaeth o ychwanegolrwydd, gan ymdrin â materion a chyflawni allbynnau a fuasai yn annhebygol o ddigwydd heb gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Roedd dwy ffurf hanfodol i'r ychwanegolrwydd hwn. Yn gyntaf, ni fyddai rhai o brosiectau'r astudiaethau achos wedi mynd rhagddynt heb gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Adroddodd cyfanswm o 13 o blith 22 awdurdod lleol fod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol wedi cefnogi prosiectau yn eu hardal leol na fuasant yn digwydd fel arall. Un enghraifft ymhlith yr astudiaethau achos oedd prosiect a gyflwynwyd gan gorff trydydd sector cenedlaethol a oedd yn cefnogi ymfudwyr newydd i sicrhau mynediad i wasanaethau a datblygu eu rhwydweithiau cymdeithasol. Adroddwyd na fyddai'r prosiect wedi cael ei ddatblygu heb gefnogaeth o'r Gronfa. Bu'r prosiect yn llwyddiant mawr, ac yn dilyn hynny sicrhawyd cyllid dilynol o ffynonellau amgen, fel bod modd iddo ehangu. Roedd deilliannau ychwanegol y prosiect dilynol yn cynnwys casglu gwybodaeth ynghylch materion cydlyniant lleol, a fu o gymorth gydag ymdrechion i fapio a monitro cydlyniant yn yr ardal, ac yn hysbysu datblygiad y strategaeth gydlyniant leol. Yn ail, roedd ychwanegolrwydd hefyd yn amlwg mewn prosiectau a fuasai'n debygol o ddigwydd heb gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, ond a fabwysiadodd ffocws fwy penodol ar y nod o hybu cydlyniant nag a fyddai wedi digwydd fel arall, o bosibl. I grynhoi, bu ymgysylltu â'r Gronfa yn fodd i ychwanegu at berthnasedd y prosiectau hyn i'r agenda gydlyniant.

Astudiaeth Achos 4: Integreiddio Ymfudwyr

Nodau'r prosiect oedd:

- hybu mynediad i wasanaethau ar gyfer ymfudwyr newydd
- gwella ymwybyddiaeth gwasanaethau lleol o sefyllfaoedd ac anghenion ymfudwyr newydd yn yr ardal
- helpu teuluoedd ynysig i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol

- gwella cydlyniant cymunedol a chefnogi integreiddio

Datblygwyd y prosiect a'i gyflwyno gan gorff trydydd sector cenedlaethol. Roedd y gwaith cyflwyno yn canolbwyntio ar dri gweithgaredd allweddol.

1. Gwasanaeth galw heibio oedd y **Prosiect Drws Agored**, yn cynnig cefnogaeth a chynngor cyffredinol i drigolion o leiafrifoedd ethnig (yn cynnwys ymfudwyr newydd). Roedd ar agor am ddwy awr bob dydd Gwener. Byddai gweithwyr a gwirfoddolwyr oedd yn siarad amrywiaeth o ieithoedd (Cymraeg, Pwyleg, Tsiec, Slofac a Rwsieg) yn darparu gwybodaeth, cynngor, cyfeiriadau at asiantaethau eraill a chymorth ar ffurf cyfieithu ar y pryd. Roedd y ganolfan galw heibio hefyd yn lleoliad ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. **2.** Cynhelid **sesiynau grŵp rheolaidd**, gyda'r nod o greu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd mewn awyrgylch hamddenol i sefydlu rhwydweithiau cefnogaeth a chyfeillgarwch a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol. Trefnwyd dau grŵp rheolaidd: grŵp ffrindiau a theulu; a grŵp pobl hŷn. **3.** Cyflwynid **dosbarthiadau iaith** i helpu ymfudwyr newydd a thrigolion o leiafrifoedd ethnig i wella eu Saesneg llafar ac ysgrifenedig. Roedd hyn yn ymateb i bryderon ynghylch y ddarpariaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn lleol. Dysgu Saesneg oedd y prif ffocws, ond câi cyfranogwyr eu cyflwyno i'r Gymraeg yn ogystal.

Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda chwech o ddefnyddwyr y prosiect. Adroddwyd mai'r prosiect oedd yr unig wasanaeth yn yr ardal a oedd yn darparu cefnogaeth arbenigol i ymfudwyr newydd. Elfen arbennig o bwysig i'r defnyddwyr oedd cael mynediad at weithwyr cynngor oedd â sgiliau mewn ieithoedd cymunedol. Buont i gyd yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant:

- derbyniwyd cynngor a chymorth gyda phroblemau gweithle, llenwi ffurflenni, ymgysylltu â gwasanaethau statudol, cyrchu gofal meddygol a gwneud cais am gredydau treth. Adroddodd dau ddefnyddiwr fod yr help a dderbyniwyd wedi eu galluogi i sicrhau cyflogaeth.
- adroddodd pawb fod y sesiwn galw heibio yn darparu cyswllt hollbwysig â phobl eraill, ac yn eu gwneud yn llai ynysig. Dywedodd un fenyw ifanc ei bod wedi elwa o gael lle i gwrdd â phobl eraill; bod hynny wedi cynyddu ei hyder, a'i helpu i ddatblygu ei sgiliau Saesneg.
- roedd tri chyfwelai wedi mynychu sesiynau grŵp cyfeillio. Adroddwyd eu bod yn ffordd dda o gwrdd â phobl eraill, o greu cyfeillgarwch ac o gael hwyl. Roedd un fenyw oedd â phlant ifanc wedi cyrchu Cychwyn Cadarn trwy'r grŵp Teulu a Ffrindiau.
- roedd pedwar defnyddiwr wedi mynychu dosbarthiadau iaith a gynigiwyd gan y prosiect. Adroddodd pob un ohonynt fod eu Saesneg wedi gwella. Sylw un person oedd ei fod wedi gallu cyfathrebu rywfaint yn fwy â'i gymydog o ganlyniad, ac yn teimlo'n fwy cyfforddus lle roedd yn byw. Dywedodd un arall ei bod o'r diwedd wedi 'gwneud rhai ffrindiau [oedd yn siarad] Saesneg'.

Wedi hynny, sicrhaodd y prosiect gyllid o ffynonellau amgen, ac ehangu ei wasanaethau a'i weithgareddau i gynnwys y canlynol:

- mapio helaeth ar faterion cydlyniant oedd yn effeithio ar boblogaeth ethnig leiafrifol leol a'r ymfudwyr newydd
- hyfforddiant a chynngor i wasanaethau eraill, gyda'r nod o wella eu

hymatebolrwydd i anghenion y boblogaeth ethnig leiafrifol leol, gan gynnwys ymfudwyr newydd

- ymgysylltu â'r boblogaeth sefydledig i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ymfudwyr newydd
- datblygu cysylltiadau a chyflwyno gwasanaethau gydag asiantaethau eraill. Er enghraifft, gweithio'n agos gyda'r Canolfannau Cychwyn Cadarn i gynnal y grwpiau cyfeillio a gweithio gyda Shelter a'r Cyngor i roi cyngor a chefnogaeth ym maes tai

6.6 Effeithiau'r Prosiectau

Adroddodd arweinwyr cydlyniant cymunedol mewn 17 o awdurdodau lleol fod prosiectau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol wedi hybu cydlyniant cymunedol yn rhagweithiol yn eu hardal leol, ac adroddodd 16 swyddog fod cydlyniant wedi gwella o ganlyniad i'r prosiectau hyn. Yn ôl y swyddogion na roesant ymateb cadarnhaol, ni allent ddweud a oedd y prosiectau wedi gwella cydlyniant. Roedd yr allbynnau gweladwy a nodwyd gan swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol yn adlewyrchu amrywiaeth y prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, ac yn amrywio o adroddiadau ymchwil a dogfennau strategaeth i ddigwyddiadau hyfforddi a chymdeithasau cymunedol newydd.

Roedd barn amrywiol ynghylch prif gyflawniadau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Yr ymateb mwyaf cyffredin (10 o blith 21 swyddog) oedd bod y Gronfa wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol o fewn yr awdurdod lleol ac ymhlith cyrff gwirfoddol a chymunedol lleol. Roedd y cyflawniadau eraill y cyfeiriwyd atynt yn aml yn cynnwys gwell capasiti a chyfranogiad gan y gymuned (8 swyddog) a gwell cysylltiadau cymunedol ac agweddau mwy cadarnhaol at amrywiaeth a gwahaniaeth (6 swyddog). Cyfeiriodd chwe swyddog at brosiectau penodol yr adroddwyd eu bod wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ymdrin â phryder cydlyniant pwysig yn yr ardal, a chyfeiriodd tri swyddog at bwysigrwydd swyddog arbennig yr oedd ei benodiad wedi cael ei gefnogi gan y Gronfa. Roedd yr astudiaethau achos yn gyfle i edrych yn fanylach ar y cyflawniadau hyn.

Cefnogwyd y 10 astudiaeth achos gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn 2010/11. Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau i'w gwerthuso. Bu aelod o'r tîm gwerthuso yn ymweld â phob un o'r prosiectau. Trafodwyd prosiectau'r astudiaethau achos gyda'r arweinydd cydlyniant cymunedol lleol. Hefyd cynhaliwyd cyfweiliadau â staff yn yr asiantaeth gyflwyno a buddiolwyr y prosiect, ac weithiau cynhaliwyd trafodaethau grŵp ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth. Trigolion lleol oedd y rhain yn y mwyafrif o achosion, ond weithiau roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau a oedd yn elwa yn sgîl y prosiect. Adolygwyd ceisiadau i'r gronfa a, lle bynnag yr oedd ar gael, dadansodwyd data monitro'r prosiect.

Fel y datgelwyd eisoes, nid oedd y prosiectau astudiaethau achos bob amser yn strategol eu ffocws, yn rhoi sylw i flaenoriaethau cydlyniant lleol nac yn darparu ychwanegolrwydd. Fodd bynnag, adroddwyd bod holl brosiectau'r astudiaethau achos wedi cael effaith gadarnhaol, ac ymddangosai eu bod wedi hybu cydlyniant

cymunedol ar lefel leol. Manylir ar gyflawniadau amrywiol a niferus prosiectau'r astudiaethau achos yn Nhabl 6.3.

Tabl 6.3: Cyflawniadau ac Effeithiau Prosiectau'r Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos	Nodau a Gweithgareddau	Cyflawniadau, Effeithiau a Chynaliadwyedd
<p>1. Menter Rhwng y Cenedlaethau £16,900</p>	<p>Ymgysylltu â'r hen a'r ifanc er mwyn datblygu sgiliau a rhannu profiadau</p> <p>Gweithgareddau = creu cyfres o gyfleoedd i drigolion hen ac ifanc gyflawni gweithgareddau gyda'i gilydd a rhannu eu sgiliau a'u profiadau (i gael rhagor o wybodaeth gweler blwch yr astudiaeth achos uchod). Cyflwynwyd y Prosiect gan bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • adroddodd buddiolwyr fod y prosiectau yn llwyddiannus a bod ymwneud â hwy yn brofiad dymunol • awgrymodd buddiolwyr a gweithwyr prosiect mai un canlyniad allweddol oedd dealltwriaeth well a rennid o brofiadau beunyddiol gwahanol genedlaethau a herio agweddau negyddol • roedd nifer o'r cyfranogwyr iau wedi dod yn wirfoddolwyr lleol, ac roedd rhai wedi cofrestru ar gysiau hyfforddi mewn cyfrifiaduron a gwaith paentio ac addurno yn y coleg AB lleol • dechreuodd nifer o'r cyfranogwyr hŷn ymwneud yn fwy â gweithgareddau/prosiectau cymunedol eraill oedd yn cael eu cynnal yn yr ardal, a soniodd rhai cyfranogwyr hŷn am welliannau i'w hiechyd a'u lles o ganlyniad i hynny • cynaliadwyedd - sicrhawyd arian o ffynhonnell amgen i gyllido gweithiwr datblygu, a fydd yn parhau i gyflwyno'r prosiect ac ymyriadau tebyg.
<p>2. Swyddog Cydlyniant Penodedig £35,000</p>	<p>Arwain ar y strategaeth gydlyniant a'i chyflwyno, trwy roi arweiniad strategol a gwneud gwaith rheng flaen</p> <p>Gweithgareddau = cynyddu ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol oddi mewn i'r cyngor ac ar draws asiantaethau statudol a chyrrff trydydd sector, gan annog rhoi sylw i gydlyniant mewn strategaethau lleol, datblygu a chyflwyno hyfforddiant cydlyniant, ymdrin â blaenoriaethau penodol yn y cynllun gweithredu lleol ar gydlyniant (i gael rhagor o wybodaeth gweler blwch yr astudiaeth achos uchod). Cyflwynwyd y Prosiect gan y cyngor lleol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • bu'n ehangu'r ddealltwriaeth leol o'r agenda cydlyniant cymunedol • bu'n hybu ymgysylltiad asiantaethau statudol a thrydydd sector â'r agenda ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau lleol • bu'n cynyddu lefelau sensitifrwydd ac ymatebolrwydd i faterion a heriau cydlyniant oedd yn dod i'r amlwg, trwy ymgysylltu â phobl leol a grwpiau cymunedol • bu'n gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol o fewn y cyngor lleol • bu'n annog rhoi sylw i heriau cydlyniant penodol, trwy gefnogaeth i fentrau wedi eu targedu (er enghraifft, helpu grwpiau cymunedol gyda cheisiadau am arian) a gweithredu uniongyrchol, ar lawr gwlad, ochr yn ochr â chyd-swyddogion yn y cyngor • cynaliadwyedd - mae'r swyddog lleol penodedig i gael ei ddisodli gan y Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
<p>3. Pobl Ifanc a Chydlyniant mewn Ysgolion £8,000</p>	<p>Hyfforddiant i athrawon ac asiantaethau cysylltiedig ar hiliaeth, bwlio ac aflonyddu</p> <p>Gweithgareddau = cyflwyno sesiynau gweithdy ar gydlyniant cymunedol, cydraddoldebau a Prevent i ysgolion lleol ac asiantaethau eraill yn y sectorau addysg a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol • cyngor a gwybodaeth ymarferol am roi canllawiau cenedlaethol ar gydlyniant cymunedol mewn ysgolion ar waith • rhannu a lledaenu arfer da o ran taclo problemau penodol, yn cynnwys aflonyddu, hiliaeth a bwlio • nodi materion cydlyniant y mae asiantaethau yn cael trafferth delio â hwy, a datblygu cefnogaeth wedi'i thargedu

	<p>gwasanaethau ieuencid (i gael rhagor o wybodaeth gweler blwch yr astudiaeth achos uchod). Cyflwynwyd y prosiect gan y swyddog cydlyniant cymunedol lleol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cynaliadwyedd - bu'r prosiect yn fodd i ddarparu cyllid cychwynnol ar gyfer datblygu rhaglen ehangach o ddiwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer athrawon a darparwyd gwasanaethau, yn ogystal â gwaith mewn ysgolion gyda phobl ifanc
<p>4. Integreiddio Ymfudwyr £2,000</p>	<p>Hybu mynediad i wasanaethau ar gyfer ymfudwyr newydd a gwella ymwybyddiaeth gwasanaethau lleol o'u hanghenion</p> <p>Gweithgareddau = gwasanaeth galw heibio yn cynnig cefnogaeth a chyngor cyffredinol i drigolion o leiafrifoedd ethnig (yn cynnwys ymfudwyr newydd); sesiynau grŵp lle daw ymfudwyr ynghyd mewn awyrgylch hamddenol i sefydlu rhwydweithiau cefnogaeth a chyfeillion; a dosbarthiadau iaith i helpu ymfudwyr newydd a thrigolion o leiafrifoedd ethnig i wella eu Saesneg llafar ac ysgrifenedig (i gael rhagor o wybodaeth, gweler blwch yr astudiaeth achos uchod). Cyflwynwyd y Prosiect gan gorff trydydd sector cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • darparwyd cyngor a chymorth gyda phroblemau gweithle, llenwi ffurflenni, ymgysylltu â gwasanaethau statudol, cyrchu gofal meddygol a gwneud cais am gredydau treth. Adroddodd dau ddefnyddiwr fod yr help a dderbyniwyd wedi eu galluogi i sicrhau cyflogaeth. • adroddodd defnyddwyr fod y sesiwn galw heibio yn darparu cyswllt hollbwysig â phobl eraill, ac yn eu gwneud yn llai ynysig. • adroddwyd bod y sesiynau grŵp yn ffordd dda o gwrdd â phobl eraill, o greu cyfeillgarwch ac o gael hwyl. • bu'r dosbarthiadau iaith o gymorth i'r ymfudwyr wella eu sgiliau Saesneg, ac felly eu galluogi i ymgysylltu â gwasanaethau ac ar lefel gymdeithasol, er enghraifft, gyda chymdogion • cynaliadwyedd - wedi hynny, sicrhodd y prosiect gyllid amgen, ac ehangodd ei wasanaethau a'i weithgareddau i gynnwys: mapio materion cydlyniant lleol oedd yn effeithio ar ymfudwyr newydd; hyfforddiant a chyngor i wasanaethau eraill i helpu i wella eu hymatebolrwydd i anghenion ymfudwyr newydd; gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r boblogaeth o ymfudwyr newydd ymhlith y boblogaeth sefydledig; datblygu cysylltiadau a chyflwyno gwasanaethau gydag asiantaethau eraill
<p>5. Prosiect Ymfudo £13,500</p>	<p>Creu cysylltiadau â'r boblogaeth fudol leol a gwella dealltwriaeth</p> <p>Gweithgareddau = darparu sesiynau cyngor galw heibio, unwaith yr wythnos i gychwyn, ond wedyn cynyddwyd hynny i deirgwaith yr wythnos, gyda mwy na 50 o gleientiaid yn eu mynychu bob mis; proffilio sefyllfaoedd a phrofiadau ymfudwyr newydd trwy arolygu defnyddwyr y prosiect. Cyflwynwyd y Prosiect gan y cyngor cydraddoldebau lleol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • herio gwasanaethau prif ffrwd a gwasanaethau lleol oedd yn canolbwyntio ar y boblogaeth ethnig leiafrifol am esgeuluso'r boblogaeth fudol newydd • profiadau cadarnhaol defnyddwyr - "Roedd yn wych, ymhen 10 munud roedd yr holl bethau a oedd wedi fy nghadw i'n effro yn y nos wedi cael eu datrys. Os bydd y gwasanaeth hwn yn diflannu, fydd gan lawer o bobl unman i droi. Dyw fy Saesneg ddim yn wael, ond rwy'n cael trafferth esbonio problemau cymhleth, felly roedd hyn mor llesol i mi a'm teulu - cael help gan rywun a allai siarad ein hiaith ni." • cynaliadwyedd - sicrhawyd cyllid i barhau â'r ddarpariaeth y tu hwnt i ddiwedd cefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol • cwestiwn - ydy'r prosiect yn esgusodi esgeuluso'r boblogaeth fudol newydd gan wasanaethau prif ffrwd?
<p>6. Rhyngweithio Diwylliannol £8,300</p>	<p>Hwyluso gweithgareddau traws-ddiwylliannol i helpu i wella perthnasoedd</p> <p>Gweithgareddau = cyflwyno rhaglen o weithgareddau (er enghraifft, sesiwn goginio) mewn tair ardal Cymunedau yn Gyntaf, gyda</p>	<ul style="list-style-type: none"> • adroddwyd bod y canlyniadau i ddefnyddwyr yn cynnwys cwrdd â phobl na fyddent wedi cwrdd â hwy fel arall; mwy o ddealltwriaeth o'r sefyllfaoedd a'r heriau mae ymfudwyr newydd yn eu hwynebu; a sgiliau coginio gwell • adroddodd y cyfranogwyr fod y ffocws ar goginio yn gatalydd ar gyfer dysgu mwy am wahanol ddiwylliannau yn y gymdogaeth • roedd darparu cyngor yn ystod y sesiynau coginio ar bynciau megis bwyta'n iach a

	ffocws ar ddod â phobl o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i drafod gwahaniaethau diwylliannol a diddordebau cyffredin. Cyflwynwyd y Prosiect gan dîm datblygu cymunedol y gymdeithas sefydliadau gwirfoddol lleol.	throseddau atgasedd (a sut mae rhoi gwybod amdanynt) yn gwella gwybodaeth y cyfranogwyr am amrywiaeth lleol a'u hymwybyddiaeth o droseddau atgasedd <ul style="list-style-type: none"> cynaliadwyedd - bellach mae pobl ifanc yn un o'r ardaloedd yn helpu i gynnal clwb cinio i'r trigolion oedrannus; mae'r grŵp mewn un ardal yn dal i gwrdd i rannu bwyd a sgwrsio
7. Y Gymdeithas Fwslimaidd £3,000	Ymweliadau â mosg a rhannu gwybodaeth am Islam, er mwyn cynyddu dealltwriaeth a herio mythau Gweithgareddau = 10 gweithdy mewn mosg lleol gyda 10-15 o gyfranogwyr, yn cynnwys swyddogion y cyngor a gwleidyddion, Heddlu a grwpiau crefyddol eraill. Y nod oedd ymdrin â thensiynau oedd yn codi wedi i'r mosg agor. Cyflwynwyd y Prosiect gan Gymdeithas Fwslimaidd leol.	<ul style="list-style-type: none"> awgrymodd monitro gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol fod y prosiect yn "ffordd ardderchog o wella gwybodaeth, chwalu mythau, a chymryd camau i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda grwpiau a sefydliadau lleol a'r Gymdeithas Fwslimaidd". yn ôl y Cyngor nid oedd cynnydd i'w weld yn y tensiynau yng nghyswllt datblygu'r mosg, a darparwyd tystiolaeth o hynny gan y system leol ar gyfer Monitro Tensiynau Cymunedol adroddodd y cyfranogwyr fod eu hofnau ynghylch effaith y mosg ar yr ardal leol wedi cael eu tawelu, a'u bod wedi derbyn sicrwydd ynghylch cynlluniau'r Gymdeithas i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol defnydd blaenorol yr adeilad, sef Sefydliad y Glowyr. bu sesiynau holi ac ateb yn fodd i ganiatáu trafodaeth ar ganfyddiadau o Islam, ac awgrymodd aelodau'r Gymdeithas fod y rheiny'n rhwystr allweddol i integreiddio'r boblogaeth Fwslimaidd yn y dref cynaliadwyedd - mae'r prosiect wedi helpu i sefydlu'r Gymdeithas Fwslimaidd yn y dref. Bellach mae'r Gymdeithas yn mynychu cyfarfodydd lleol yn rheolaidd, yn ymwneud â sefydliad lleol o grwpiau Eglwysig, yn mynychu sesiynau briffio rheolaidd gan yr Heddlu, ac yn rheolaidd yn croesawu teithiau ysgol i ddysgu am Islam. Sylw a wnaed gan aelod o'r Gymdeithas oedd bod <i>"yr arian yn bwysig, ond elfen bwysicach oedd y cymorth gan y [tîm] Cydlyniant Cymunedol i'n helpu i ymgysylltu ag eraill ac i'n tywys i'r cyfeiriad cywir. Buont hyd yn oed yn ein hyrwyddo fel grŵp synhwyrol o bobl oedd yn barod i chwarae rhan yn y gymuned ehangach."</i>
8. Dosbarth Cyfathrebu £2,600	Darparu cyfle i ymfudwyr newydd gwrdd â phobl sy'n siarad Saesneg a gwella eu sgiliau iaith Gweithgareddau - darparu hyfforddiant iaith 'Saesneg i oroesi' ar gyfer gweithwyr mudol. Cyflwynwyd y Prosiect gan gorff trydydd sector lleol.	<ul style="list-style-type: none"> 70 o bobl yn mynychu dosbarth sgwrsio wythnosol yng ngofal athro cymwysedig ESOL oedd yn medru Pwyleg. Mae gwirfoddolwyr sy'n medru Cymraeg a Saesneg yn mynd i'r dosbarthiadau i helpu'r cyfranogwyr i brofi a mireinio eu sgiliau. cynorthwywyd defnyddwyr i oresgyn problemau o ran cyrchu hyfforddiant ESOL yn yr ardal - nid oedd Saesneg rhai ymfudwyr yn ddigon da i gychwyn dosbarthiadau lefel Sylfaen ESOL gwell sgiliau Saesneg oedd yn berthnasol i fywyd pob dydd, ac adroddwyd bod hynny wedi gwella perthnasoedd gyda chymdogion cyfle i greu cyfeillgarwch yn y dosbarthiadau gostyngiad yn y troseddau cerbydau/gyrru a gyflawnwyd gan ymfudwyr o ganlyniad i wybodaeth a chyngor a ddarparwyd yn ystod dosbarthiadau iaith (nodwyd gan Heddwes lleol) tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu gostyngiad yn nifer yr ymfudwyr a dderbyniwyd i'r

		<p>ysbytu o ganlyniad i allu cynyddol i ymgysylltu â'u meddyg teulu cyn i broblemau gyrraedd lefel argyfyngus</p> <ul style="list-style-type: none"> • mwy o ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith ymfudwyr (er enghraifft, tai a chyflogaeth) o ganlyniad i gyngor ac arweiniad a ddarparwyd yn ystod dosbarthiadau iaith. • mae galwadau cynyddol ar y sefydliad cymunedol sy'n cyflwyno'r prosiect i roi cyngor ar sefydlu gwasanaethau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru • cynaliadwyedd - roedd y prosiect wedi hen ymsefydlu pan wnaed y cais am gefnogaeth o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Wedi hynny, sicrhawyd cefnogaeth bellach o'r Gronfa ac o ffynhonnell arall, fel bod modd darparu ail ddsbarth iaith bob wythnos.
<p>9. Tacio Troseddau Cysylltiedig ag Alcohol £2,600</p>	<p>Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau cysylltiedig ag alcohol yng nghanol y dref a gwella'r ymatebion iddynt</p> <p>Gweithgareddau = rhoi cyhoeddusrwydd i gynllun newydd ar gyfer monitro safleoedd trwyddedig, gyda'r nod o leihau'r achosion o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag yfed alcohol. Barnwyd bod rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn elfen hollbwysig yn ei lwyddiant, a bu'n canolbwyntio ar amrywiol swyddogaethau cysylltiedig â champau gorfodi o eiddo'r awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am gosbi pobl drwyddedig oedd yn gwrthod cydymffurfio, adrannau o fewn yr heddlu, pobl drwyddedig yn y dref a thrigolion lleol. Cyflwynwyd y Prosiect gan yr Heddlu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cynhyrwyd taflenni yn hysbysebu'r cynllun a'u dosbarthu ar draws y dref. Gwahoddwyd pobl drwyddedig i wneud sylwadau ar y system newydd, a chynhaliwyd digwyddiad lansio i gynyddu ymwybyddiaeth • adroddwyd bod y nifer cymharol uchel o achosion y daethpwyd â hwy gerbron ar gyfer adolygiad yn ystod y flwyddyn ddilynol (10) yn tystio i'r ymwybyddiaeth o'r system newydd a'r ymgysylltu â hi • adroddwyd bod cyflwyno'r cynllun wedi mynd law yn llaw â gostyngiad o 6% yn y troseddau treisgar yng nghanol y dref • ymddangosai fod effaith y cynllun amlycaf yng nghyswllt achosion o droseddau treisgar yn y sefydliadau mwyaf trafferthus yn y dref, lle gwelwyd gostyngiad dramatig. Er enghraifft, gostyngodd nifer yr ymosodiadau treisgar mewn un sefydliad trwyddedig o 23 i ddim wedi i'r fenter gael ei chyflwyno (rhwng Chwefror 2010 ac Ebrill 2012) • cynaliadwyedd - digwyddiad untro oedd lansio a hysbysebu'r fenter. Mae'r fenter yn parhau, ac mae wedi cael ei chyflwyno i awdurdodau cymdogol
<p>10. Hybu Dealltwriaeth £1,100</p>	<p>Teithiau dydd i hybu rhyngweithio rhwng pobl fudol a thrigolion sefydlog</p> <p>Gweithgareddau= cefnogodd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol daith diwrnod am ddim i bobl fudol a thrigolion sefydlog i barc thema hanesyddol. Roedd hon yn un o gyfres o deithiau diwrnod ar gyfer gweithwyr mudol a phobl lleol. Cyflwynwyd y Prosiect gan gorff trydydd sector lleol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • daeth 23 o ymfudwyr newydd a 23 o drigolion sefydledig yr ardal ar y daith ddydd a gefnogwyd gan y Gronfa • roedd y daith yn gymhellant ychwanegol i ymfudwyr fynychu dosbarthiadau iaith gan yr un corff, gan helpu'r prosiect i gyrraedd mwy o gyfranogwyr • rhoddwyd cyfle i ymfudwyr a thrigolion sefydledig gymysgu a rhyngweithio • soniodd ymfudwyr am well cysylltiadau â'u cymdogion a'u cyd-drigolion o ganlyniad i'r rhyngweithio a gafodd ei hybu drwy'r teithiau • cynaliadwyedd - roedd y rhaglen o deithiau eisoes ar waith pan gyflwynwyd y cais i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol, a gwnaed ymdrechion i gynnal y rhaglen ag arian grant o ffynonellau eraill.

6.7 Diwedd glo

Dyrannwyd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a chefnogwyd dros 600 o brosiectau lleol rhwng 2009/10 a 2011/12. Dewisodd awdurdodau lleol ddefnyddio'r Gronfa mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai yn cefnogi nifer fawr o brosiectau bach, ac eraill yn dyrannu'r rhan fwyaf o'r Gronfa i un neu ddau brosiect.

Yn nodweddiadol, roedd y prosiectau'n cyfateb i flaenoriaethau cydlyniant cymunedol lleol, ond nid oedd hynny'n wir bob tro. Ymhlith prosiectau'r astudiaethau achos, methodd y rhai a ddatblygwyd mewn ardaloedd awdurdod lleol lle nad oedd strategaeth na chynllun gweithredu cydlyniant cymunedol, a lle nad oedd swyddog cydlyniant penodedig, ag ymateb i flaenoriaethau lleol a nodwyd yn glir, cafwyd trafferth i wneud cyfraniad strategol ehangach, ychydig o ychwanegolrwydd a ddarparwyd, a methwyd â chynnal ymdrechion i brif-ffrydio cydlyniant. Mewn rhai achosion, ymddangosai fod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn cael ei gweld fel ffynhonnell arall o incwm grant yn unig. Serch hynny, cyflawnodd y prosiectau hyn waith pwysig, ac ymddangosent yn debygol o fod wedi cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol.

Roedd prosiectau'r astudiaethau achos yn darparu tystiolaeth o'r ychwanegolrwydd a ddarperid gan y Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Roedd yn annhebygol y byddai rhai o'r prosiectau wedi digwydd heb gefnogaeth y Gronfa. Roedd hefyd enghreifftiau o brosiectau parhaus a aeth at y Gronfa i ofyn am gymorth i bontio bwloch yn eu cyllid, ac o ganlyniad a lwyddodd i sicrhau ffocws mwy penodol ar hybu cydlyniant.

Roedd cyflawniadau prosiectau'r astudiaethau achos yn niferus ac yn amrywiol, ond gellir eu crynhoi o dan bedwar pennawd hanfodol:

- *gwasanaethau lleol ymatebol* - hybu mwy o ddealltwriaeth ac ymatebolrwydd ymhlith darparwyr gwasanaethau lleol o ran blaenoriaethau'r agenda cydlyniant cymunedol
- *hybu dealltwriaeth* - cynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau, yn aml drwy gyfnewid safbwyntiau o'r ddeutu, er enghraifft, rhwng newydd-ddyfodiaid a phoblogaethau sefydlog, neu rhwng yr hen a'r ifanc
- *cymorth i integreiddio* - cyngor a chymorth i newydd-ddyfodiaid, yn cynnwys hyfforddiant iaith, mewn ymgais i'w helpu i ddeall eu tref newydd yn well a byw yno gan gyrchu gwasanaethau allweddol a cheisio gwaith
- *rheoli tensiynau* - cyfryngu rhwng gwahanol grwpiau a datrys gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg

Mewn rhai achosion ymddengys bod yr enillion a sicrhawyd gan brosiectau'r astudiaethau achos yn debygol o gael eu cynnal. Sicrhaodd nifer o'r prosiectau gyllid amgen, a pharhau wedi i gefnogaeth y Gronfa Cydlyniant Cymunedol ddod i ben. Roedd y Gronfa hefyd wedi darparu arian cychwynnol ar gyfer prosiectau newydd, a fu'n fodd i estyn cwmpas y gwasanaeth yr oeddent yn ei ddarparu.

I gloi, mae'r astudiaethau achos yn awgrymu bod y swm cymharol fach o arian a ddarparwyd trwy'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol nid yn unig wedi helpu i ariannu mentrau teilwng oedd yn debygol o hybu cydlyniant cymunedol, ond hefyd wedi bod yn fodd i hybu ymgysylltu gan gyrff sector gwirfoddol a chymunedol a'r bobl leol y maent yn eu gwasanaethu â'r agenda cydlyniant cymunedol, a gwella dealltwriaeth o heriau lleol a dulliau o fynd ati i'w taclo.

7 Casgliadau

7.1 Canfyddiadau Allweddol

Y casgliad cyffredinol a ddaeth i'r amlwg yn sgîl y gwerthusiad hwn yw bod camau breision wedi eu cymryd i hybu cydlyniant cymunedol a chyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* ers ei lansio yn hwyr yn 2009. Mae elfennau allweddol dull Cymru o ymdrin â chydlyniant cymunedol wedi cael eu hamlinellu a'u lledaenu'n eang. Mae agwedd fwy cyfannol at gydlyniant cymunedol wedi cael ei meithrin ar draws ffiniau adrannol yn Llywodraeth Cymru. Darparwyd fframwaith i awdurdodau lleol a'u partneriaid er mwyn cefnogi datblygiad dull lleol o ymdrin â chydlyniant cymunedol. Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi ymgysylltu â'r agenda ac mae cannoedd o brosiectau lleol wedi cael eu cyflwyno mewn ymgais i gryfhau cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Mae'r rhain yn gyflawniadau nodedig, yn enwedig o ystyried lefel yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Am ran helaeth o'i bodolaeth, nid oedd yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am arwain y gwaith o gyflwyno'r strategaeth ond yn cynnwys un swyddog amser llawn penodedig. Adnoddau cymharol gyfyngedig oedd ar gael at ddefnydd y swyddog hwn dros ben y £1.5 miliwn a ddarparwyd yn flynyddol trwy'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi ymyriadau lleol ar draws y 22 awdurdod lleol a'r Grant Cydlyniant Cymunedol o £50,000 a ddarparwyd i Gaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Serch hynny, darparwyd cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol, ac mae'r agenda cydlyniant cymunedol wedi cael ei hybu oddi mewn i Lywodraeth Cymru.

Datgelwyd bod y ffactorau llwyddiant allweddol sy'n cynnal ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth o gydlyniant cymunedol a hybu sylw i'r agenda ar lefel leol a chenedlaethol yn cynnwys y canlynol:

- ymrwymiad lefel uchel o fewn Llywodraeth Cymru i agenda cydlyniant cymunedol, y darparwyd tystiolaeth yn ei gyloch ar ffurf cyfeiriadau penodol at gydlyniant yn y rhaglen lywodraethu a gyflwynwyd gan weinyddiaethau 2007 a 2011
- llwyddiant *Cymru'n Cyd-dynnu* i ddarparu dealltwriaeth glir, penodol i Gymru o gydlyniant cymunedol, a oedd yn mynd y tu hwnt i ffiniau'r agenda yn Lloegr ac yn ymdrin yn fwy cynhwysfawr â'r ffactorau y gwyddid eu bod yn hysbysu lefelau cydlyniant
- cynhyrchu cynllun gweithredu i gefnogi cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*, a oedd yn fodd i hoelio sylw ar amcanion penodol, cyflawnadwy ac yn darparu ffon fesur ar gyfer gwerthuso perfformiad ar lefel leol a chenedlaethol
- creu uned benodedig yn Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb am arwain y gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*
- y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, a fu'n hollbwysig o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r agenda cydlyniant
- gwaith swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol ar lefel leol, ac yn arbennig, y rôl bwysig a gyflawnwyd gan swyddogion cydlyniant cymunedol penodedig, a

fu'n hanfodol i'r broses o hybu dull mwy strategol, mewn partneriaeth, o ymdrin â chydlyniant cymunedol mewn llawer o awdurdodau lleol

Yn anochel, wynebwyd heriau amrywiol ar hyd y daith, a bu cynnydd cymysg yn achos rhai blaenoriaethau. Bu'r llwyddiant i brif-ffrydio cydlyniant oddi mewn i Lywodraeth Cymru yn amrywiol, gyda rhai meysydd polisi yn ymroddedig i'r agenda ac eraill yn ymgysylltu i raddau llai. Darparwyd tystiolaeth gan rai awdurdodau lleol o ymrwymiad cyfyngedig i'r agenda. Adlewyrchir y ffaith hon yn yr ymdrech gyfyngedig a wnaed ganddynt i fapio a monitro cydlyniant, canfod blaenoriaethau lleol, datblygu strategaeth neu gynllun gweithredu, a chydgyssylltu prosiectau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol. Bu'r cynnydd o ran datblygu systemau cenedlaethol a lleol ar gyfer monitro cydlyniant hefyd yn araf. Cafwyd bod y ffactorau a oedd yn helpu i esbonio'r problemau hyn yn cynnwys:

- amheuaeth mewn rhai meysydd polisi oddi mewn i Lywodraeth Cymru ynghylch perthnasedd agenda cydlyniant cymunedol i'w gwaith a diffyg ymwybyddiaeth o sut gallai cydlyniant fod yn bwysig i flaenoriaethau yn eu maes na chwaith sut gallai polisi yn eu maes helpu i hybu cydlyniant
- amheuaeth ymhlith rhai awdurdodau lleol ynghylch a oedd agenda cydlyniant cymunedol yn berthnasol o gwbl i'w hardal hwy. Roedd y canfyddiad hwn yn aml wedi'i wreiddio mewn dealltwriaeth gul iawn o gydlyniant cymunedol, a oedd yn canolbwyntio ar faterion hil ac ethnigrwydd, ac yn arwydd o fethiant i ymgysylltu â *Cymru'n Cyd-dynnu*
- penderfyniad rhai awdurdodau lleol i beidio â phenodi swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, ffactor allweddol a oedd yn hysbysu'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol a oedd yn hyrwyddo dull strategol o ymdrin â'r agenda ac yn mwyafu'r elfennau ychwanegol a ddarparwyd gan brosiectau'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol.
- absenoldeb unrhyw ddull lleol amlwg o fesur cydlyniant cymunedol yng Nghymru, sydd wedi peri ei bod yn anodd monitro amrywiadau yn lefelau cydlyniant a deall y ffactorau sy'n hysbysu cydlyniant ar lefel leol
- capasiti cyfyngedig yr Uned Cydlyniant Cymunedol, heb ond un swyddog penodedig, yn wyneb cyfrifoldebau oedd yn cwmpasu holl ystod y cynllun gweithredu. Gydag adnoddau ychwanegol, mae'n bosib y gallasai'r Uned ddatrys rhai o'r problemau a amlinellwyd uchod

Nid oes modd gwneud sylwadau ar effaith *Cymru'n Cyd-dynnu* ar lefelau cydlyniant yng Nghymru. Mae dadansoddiad o'r prif ddulliau o fesur cydlyniant cymunedol ar lefel genedlaethol, ac amrywiol fesurau procsi cysylltiedig ar gyfer cydlyniant, yn dangos gostyngiad yn lefelau cydlyniant yng Nghymru ers 2008. Fodd bynnag, mae amrywiol ffactorau yn debygol o fod yn gyfrifol am y tuedd hwn, gan gynnwys y dirwasgiad, diweithdra cynyddol, a chwtogi gan y sector cyhoeddus, ac ni ddylid dehongli hynny fel tystiolaeth bod *Cymru'n Cyd-dynnu* wedi methu â chyflawni'r amcan trosfwaol o hybu cydlyniant. Yn wir, mae'n bosib iawn bod cyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* wedi lliniaru effaith y ffactorau hyn ar gydlyniant yng Nghymru.

Yr hyn nad oes amheuaeth yn ei gylich yw bod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol wedi cefnogi cannoedd o brosiectau a roddodd hwb i ymdrechion lleol i brif-ffrydio cydlyniant ac i ymdrin â blaenoriaethau cydlyniant pwysig. Ar sail y mewnwelediad a

gafwyd o brosiectau'r astudiaethau achos a'r meddyliau a fynegwyd gan arweinyddion cydlyniant, ymddengys bod y prosiectau hyn wedi helpu i hybu cydlyniant cymunedol ar lawr gwlad ledled Cymru.

7.2 Argymhellion

Bydd cynnal yr enillion a sicrhawyd trwy gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* a goresgyn rhai o'r problemau mwyaf ystyfnig sydd wedi llesteirio cynnydd yn galw am ymrwymiad parhaus i'r agenda ar lefel leol a chenedlaethol. Mewn rhai meysydd polisi oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac mewn nifer o awdurdodau lleol mae cydlyniant cymunedol wedi cael ei brif-ffrydio; mae wedi ei wreiddio yn y strwythurau rheoli, ceir cyfeiriadau ato mewn dogfennau a strategaethau corfforaethol ac fe'i hadlewyrchir mewn targedau a dangosyddion. Fodd bynnag, mae llawer o feysydd polisi a rhai awdurdodau lleol lle mae amheuaeth yn parhau ynghylch perthnasedd yr agenda, lle na cheir fawr ddim tystiolaeth bod gan staff ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau cydlyniant nac yn deall sut gallai gwaith yn eu maes hwy wneud cyfraniad cadarnhaol i wella cydlyniant, ac nid yw cydlyniant wedi'i wreiddio yn y strwythurau rheoli. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y ffactorau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod yr enillion hyn yn cael eu cadarnhau, a bod yr heriau sy'n weddill yn cael eu tacio, yn cynnwys y canlynol:

- *ymrwymiad lefel uchel i agenda cydlyniant cymunedol yn Llywodraeth Cymru* - darparwyd hyn gan yr ymrwymiad o'r newydd i'r agenda yn y Rhaglen Lywodraethu, y darparwyd enghraifft ohono trwy neilltuo adnoddau i gynnal penodiad Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
- *tîm penodedig yn Llywodraeth Cymru i arwain ym maes cydlyniant cymunedol* - gellir dadlau bod arweinydd neu dîm penodedig (megis yr Uned Cydlyniant Cymunedol) yn rhyddhau meysydd polisi eraill o'u cyfrifoldeb am gydlyniant cymunedol ac yn rhoi esgus iddynt ddatgysylltu eu hunain o'r agenda honno. Fodd bynnag, ar sail tystiolaeth y gwerthusiad hwn, mae tîm cydlyniant cymunedol penodedig yn hanfodol i ymdrechion i wreiddio cydlyniant cymunedol, ac mae gan yr Uned Cydlyniant Cymunedol lawer o waith i'w wneud o hyd
- *adnewyddu'r cynllun gweithredu cydlyniant cymunedol* - dylid datblygu cynllun gweithredu newydd i gefnogi'r broses barhaus o gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu*. Byddai hynny'n rhoi cyfle i hoelio sylw ar rai o'r meysydd lle bu'r cynnydd yn fwy cyfyngedig, yn ogystal â herio Llywodraeth Cymru i gynnal y cynnydd a wnaed eisoes
- *arweinydd cydlyniant cymunedol penodedig ym mhob awdurdod lleol* - bydd ariannu Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn sicrhau bod swyddog cydlyniant penodedig ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol mewn awdurdodau lleol lle na fu swyddog penodedig. Fodd bynnag, mae perygl mewn rhai awdurdodau lleol y bydd y Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn disodli swyddog cydlyniant penodedig yr awdurdod ei hun, ac felly yn cynrychioli lleihad yn rôl y swyddog cydlyniant. Bydd angen monitro'r sefyllfa hon
- *casglu data canfyddiadau ynghylch cydlyniant cymunedol ar lefel leol a chenedlaethol* - mae hyn yn elfen hanfodol o ymdrechion i fonitro tueddiadau

cydlyniant, i ddeall sbardunau cydlyniant ac i ystyried yr ymyriadau sy'n debygol o hybu cydlyniant

- *mwyafu cysylltiadau rhwng amcanion cydlyniant cymunedol a rhaglen Cymunedau yn Gyntaf* - ategwyd y cysylltiadau hir-sefydledig rhwng yr agenda cydlyniant cymunedol a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2012 trwy ddynodi Cymunedau yn Gyntaf fel Rhaglen Taclo Tlodi a oedd yn Canolbwyntio ar Gymunedau. Mae'r ffocws ar hybu cymunedau llewyrchus, iachach, sy'n dysgu, yn ogystal â'r pwyslais ar ymwneud y gymuned, i gyd yn amcanion sy'n gorgyffwrdd â nodau'r agenda cydlyniant cymunedol. Dylai Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol weithio gyda'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf newydd i sicrhau bod eu cynlluniau cyflawni yn cydnabod ac yn mwyafu'r synergeddau hyn, gan adeiladu ar gyflawniadau partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o ran hybu cydlyniant cymunedol
- *cysylltu ymdrechion i hybu a phrif-ffrydio cydlyniant cymunedol â chyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb* - mae gorgyffwrdd amlwg rhwng y Ddyletswydd Cydraddoldeb a nodau ac uchelgeisiau agenda cydlyniant cymunedol yng Nghymru. Mae'n rhoi lle amlwg i faterion camwahaniaethu ac anghydraddoldeb, y gwyddys eu bod yn tanseilio cydlyniant cymunedol, ac yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn gweithio i hybu cysylltiadau da, sef un o gonglfeini'r agenda cydlyniant. Dylai tynnu sylw at y ffaith bod y Ddyletswydd Cydraddoldeb yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried cydlyniant helpu i oresgyn yr amheuon sy'n parhau mewn rhai awdurdodau lleol ynghylch perthnasedd agenda cydlyniant cymunedol, a hybu parodrwydd i ymgysylltu.